11. Mae ffurflen apelio swyddogol y Swyddfa Gymreig ynghylch gorfodi a'r llyfryn esboniadol i apelwyr ("Enforcement Notice Appeals - a Guide to Procedure") wedi'u diwygio i gymryd y darpariaethau diwygiedig i ystyriaeth. Ailargreffir y llyfryn o bryd i'w gilydd, gyda diwygiadau priodol yn y testun. Mae copïau o'r ffurflen apelio a'r llyfryn ar gael oddi wrth yr Arolygwyr Cynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ (ffôn 01222 825670 neu ffacs 01222 825150).

Apelau tystysgrifau datblygu cyfreithlon (TDC)

12. Mae'r Adran wedi cynhyrchu ffurflen swyddogol ar gyfer apelau TDC a llyfryn "Lawful Development Certificates - a user's guide". Gall darpar-apelwyr gael ffurflenni cais TDC a chopïau o'r llyfryn oddi wrth yr Arolygwyr Cynllunio, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ (ffôn 01222 825670 neu ffacs 01222 825150).

Goblygiadau ar gyfer cyllid a gweithlu

13. Gan fod y Cylchlythyr hwn yn cydgyfnerthu ac yn diweddaru canllawiau cynharach, nid yw'n golygu dim newid yn ymrwymiadau'r awdurdodau lleol o ran na chyllid na gweithlu.

Dileu Cylchlythyron

14. Mae Cylchlythyron 164/77, 76/91 a 38/92 y Swyddfa Gymreig wedi'u dileu. Mae Cylchlythyr ar wahân wedi'i gyhoeddi gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau.

MS K. POWELL
Pennaeth yr Adran Gynllunio

Y Prif Weithredydd
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Swyddog y Parc Cenedlaethol
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Parc Cenedlaethol Eryri

SG: PAA 08-02-010

CYNNWYS ATODIADAU CYLCHLYTHYR 24/97

Hysbysiad torri rheolau cynllunio

Hysbysiadau gorfodi ac apelau

Yr hysbysiad stop

Atodiad 3 paragraffau

Gorfodi amodau cynllunio: yr hysbysiad torri amod (HTA)

Atodiad 4 paragraffau

Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1992

Atodiad 9 paragraffau

HYSBYSIAD TORRI RHEOLAU CYNLLUNIO

Cyflwyniad

1.1 Mae adrannau 171C a 171D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn darparu, yn eu tro -

(1) i'r awdurdod cynllunio lleol (ACLl) fynnu gwybodaeth am weithgareddau ar dir drwy gyflwyno "hysbysiad torri rheolau cynllunio"; a

(2) ar gyfer cosbau am beidio â chydymffurfio â hysbysiad torri rheolau cynllunio.

1.2 Bwriedir i'r darpariaethau hyn gydategu, at ddibenion gorfodi cynllunio, bŵer mwy cyfyngedig yr ACLl yn adran 330 o Ddeddf 1990 ac adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, i fynnu gwybodaeth am Buddiannau mewn tir. Mae'n dal yn bosibl i'r ACLl ddefnyddio'r fersiynau cynharach i fynnu gwybodaeth, os yw'n well ganddynt. Gellir defnyddio'r pwerau hyn i sicrhau gwybodaeth hefyd pan fydd yr ACLl yn meddwl am wneud gorchymyn terfynu, o dan adran 102 o Ddeddf 1990. Nid yw'r hysbysiad torri rheolau cynllunio ar gael i'w ddefnyddio mewn perthynas ag achosion amheus o dorri rheolau adeiladau rhestredig neu ardaloedd cadwraeth, rheolau sylweddau peryglus neu reolau coed gwarchodedig.

Gweithdrefn ddewisol

1.3 Mae adran 171C(7) o Ddeddf 1990 yn darparu nad yw "cyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio yn effeithio ar unrhyw bŵer arall y gellir ei ymarfer mewn perthynas ag unrhyw doriad o'r rheolau cynllunio". Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith mai dewisol hollol yw cyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio. Nid oes angen i'r ACLl gyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio cyn ystyried a yw'n fanteisiol rhoi hysbysiad gorfodi, neu gymryd unrhyw gamau gorfodi priodol eraill. *Nid* yw cyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio yn gyfystyr â "chymryd camau gorfodi" fel y'i diffinnir yn adran 171A(2) o Ddeddf 1990. Nid oes angen rhoi'r cyfle, a ddarperir gan adran 171C(4), i'r sawl sy'n derbyn hysbysiad gorfodi cyflwyno cynrychioliadau personol cyn i'r ACLl benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad gorfodi. Lle bo gan yr ACLl wybodaeth eisoes sydd yn eu barn hwy yn ddigonol am y gweithgareddau sy'n digwydd ar dir yn groes i reolau cynllunio, a hwythau o'r farn ei bod yn fanteisiol dechrau unrhyw achos gorfodi, ni ddylai eu penderfyniad ar orfodi fod yn agored i'w herio ar y sail ei bod yn afresymol bwrw ymlaen â'r achos gorfodi heb gyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio yn gyntaf ac ystyried ymateb y derbynnydd iddo. Ac ni ddylai penderfyniad yr ACLl ar orfodi, o'i gymryd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau, beri perygl ychwaith o ddyfarniad costau apêl yn erbyn yr awdurdod am eu bod wedi penderfynu peidio â chyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio.

1.4 Dim ond pan fo'n ymddangos i'r ACLl y gall y rheolau cynllunio fod wedi'u torri y gellir rhoi hysbysiad torri rheolau cynllunio - **R v Teignbridge District Council ex parte Teignmouth Quay Co Ltd** [1995] JPL 828.

1.5 Nid oes gofyniad i gofnodi hysbysiad torri rheolau cynllunio yng nghofrestr yr ACLl o hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau stop a hysbysiadau torri amodau. Nid yw'r hysbysiad yn arwystl cyfreithiol ar y tir.

Derbynnydd yr hysbysiad

1.6 Mae adran 171C(1) yn darparu bod rhaid i'r sawl sy'n derbyn hysbysiad torri rheolau cynllunio fod yn un o'r canlynol -

(1) unrhyw un sy'n berchennog neu'n ddeiliad ar y tir y mae'r hysbysiad yn cyfeirio ato, neu sydd ag unrhyw ddiddordeb arall ynddo; neu

(2) unrhyw un sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir, neu'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben.

1.7 Wrth gyflwyno hysbysiadau torri rheolau cynllunio i bersonau sydd â diddordeb yn y tir, dylai'r ACLl geisio sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, y cyflwynir yr hysbysiad

perthnasol i unrhyw forgeiseion sy'n hysbys. Mewn achosion lle bo perchennog y tir yn forgeisiwr sydd wedi diffyg-dalu, mae'n bosibl na fydd modd dod o hyd iddo neu iddi, a bydd angen hysbysu'r morgeisai sydd â meddiant o'r sefyllfa.

Yr hyn y gall yr hysbysiad ei fynnu oddi wrth y derbynnydd

1.8 Gall yr ACLl ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n derbyn hysbysiad torri rheolau cynllunio rhoi unrhyw wybodaeth y mae arnynt ei heisiau at ddibenion gorfodi ynghylch gweithgareddau ar y tir. Mae adran 171C(2) yn disgrifio'r wybodaeth fel gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r canlynol -

(a) any operations being carried out on the land, any use of the land and any other activities being caried out on the land; and

(b) any matter relating to the conditions or limitations subject to which any planning permission in respect of the land has been granted."

Yn y cyfnod rhagarweiniol hwn o sicrhau gwybodaeth, nid oes angen i'r ACLl ddatgan eu barn ar yr "uned gynllunio", nac a yw'r gweithgaredd y mae'r hysbysiad yn gysylltiedig ag ef yn israddol neu'n atodol i ryw brif ddefnydd ar y tir.

1.9 Heb ragfarnu swm a sylwedd adran 171C(2), mae adran 171C(3) yn pennu'n fanylach y wybodaeth y gall hysbysiad torri rheolau cynllunio mynnu bod y derbynnydd yn ei rhoi i'r ACLl, cyn belled ag y gall. Pennir y materion hyn fel a ganlyn -

" (a) to state whether or not the land is being used for any purpose specified in the notice or any operations or activities specified in the notice are being or have been carried out on the land;

(b) to state when any use, operations or activities began;

(c) to give the name and address of any person known to him to use or have used the land for any purpose or to be carrying out, or have carried out, any operations or activities on the land;

(d) to give any information he holds as to any planning permission for any use or operations or any reason for planning permission not being required for any use or operation;

(e) to state the nature of his interest (if any) in the land and the name and address of any other person known to him to have an interest in the land."

Y cyfle i gyflwyno cynrychioliadau mewn ymateb i'r hysbysiad

1.10 Mae adran 171C(4) hefyd yn galluogi'r ACLl i roi cyfle i dderbynnydd yr hysbysiad roi ymateb cadarnhaol i'r materion sydd o dan sylw yn yr hysbysiad, ac i gyflwyno unrhyw gynrychioliadau a ddymuna am yr hysbysiad. Diben y darpariaethau hyn yw hwyluso trafod, rhwng yr ACLl a derbynnydd yr hysbysiad, ar sut y gellir adfer unrhyw doriad o'r rheolau a amheuir. Bwriedir yn benodol i'r darpariaethau gael eu defnyddio o dan amgylchiadau lle bo'r ACLl o'r farn y gellid osgoi camau gorfodi ffurfiol pe bai derbynnydd yr hysbysiad yn cytuno i wneud cais am ganiatâd cynllunio amodol i reoleiddio'r gweithgareddau sydd ar y gweill ar y tir; neu i roi'r gorau i unrhyw weithrediadau neu weithgareddau; neu i wneud unrhyw waith adfer. Bwriedir i'r cyfle i gyflwyno cynrychioliadau yn bersonol, mewn lle ac ar amser penodedig, gael ei ddefnyddio'n arbennig lle bo'r ACLl o'r farn y byddai'n fuddiol trafod wyneb-yn-wyneb â derbynnydd yr hysbysiad. Gellid gofyn i rywun sydd wedi methu â chydweithredu yn niffyg unrhyw ofyniad i negodi ddod i drafod y broblem.

1.11 Gall yr ACLl fod o'r farn na fyddai trafod wyneb-yn-wyneb â derbynnydd yr hysbysiad yn ateb unrhyw ddiben buddiol. Os felly, byddai yna gyfiawnhad i'r ACLl ddefnyddio'r hysbysiad at y diben cyfyngedig o sicrhau gwybodaeth berthnasol y mae

arnynt ei hangen i benderfynu a ddylid dechrau achos gorfodi ffurfiol. Nid oes dim i atal derbynnydd hysbysiad torri rheolau cynllunio rhag ceisio trafod amheuaeth bod y rheolau cynllunio wedi'u torri gyda swyddogion rheoli datblygu o'r ACLl.

Canlyniadau methu ag ymateb i hysbysiad

1.12 Mae adran 171C(5) yn darparu bod rhaid i hysbysiad torri rheolau cynllunio hysbysu'r derbynnydd am ganlyniadau tebygol methu ag ymateb i'r hysbysiad (sef, yn benodol, y gall yr ACLl ddwyn achos gorfodi ffurfiol). Rhaid cyfeirio hefyd at effaith darpariaethau adran 186(5)(b) o Ddeddf 1990 (sef na fydd iawndal ariannol yn daladwy, o ganlyniad i hysbysiad stop, i hawlydd y bu'n ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth o dan adran 171C, mewn perthynas ag unrhyw golled neu niwed y gellid bod wedi'u hosgoi pe bai'r hawlydd wedi rhoi'r wybodaeth neu wedi cydweithredu wrth ymateb i'r hysbysiad). Y peth gorau yw cynnwys y rhybudd hwn fel rhan o destun hysbysiad torri rheolau cynllunio, fel yn yr hysbysiad enghreifftiol sydd ynghlwm wrth yr Atodiad hwn.

1.13 Nid yw'n rhesymol disgwyl i rywun y cyflwynir hysbysiad torri rheolau cynllunio iddynt roi gwybodaeth sydd ddim ganddynt ac na fyddai'n rhesymol iddynt ei darganfod. Bydd unrhyw wybodaeth ffeithiol a roddir wrth ateb hysbysiad yn rhan o'r wybodaeth berthnasol y bydd rhaid i'r ACLl edrych arni wrth benderfynu a yw'r rheolau cynllunio wedi'u torri; ac, os felly, pa gamau a fyddai'n briodol i ymdrin â hynny. Gall y wybodaeth ategu penderfyniad bod achos gorfodi yn briodol; neu gall ddatgelu defnydd neu weithgaredd gwahanol i'r hyn a amheuwyd; neu gall ddangos nad yw'r rheolau yn cael eu torri ar y tir. Os yw'r ymateb i'r hysbysiad yn creu amheuaeth ynghylch defnydd y tir, neu unrhyw weithgaredd sy'n digwydd arno, fel arfer bydd rhaid archwilio'r safle i ddatrys yr amheuaeth ac i sicrhau bod yna seiliau cadarn ar gyfer unrhyw benderfyniad gorfodi dilynol.

Methu â chydymffurfio â hysbysiad torri rheolau cynllunio

1.14 Mae adran 171D yn darparu bod peidio â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad mewn hysbysiad, ar ôl 21 diwrnod, yn drosedd. Y gosb uchaf, ar gollfarniad diannod, am y drosedd hon yw "lefel 3" ar y raddfa safonol, sef £1,000 ar hyn o bryd, fel a ddarperir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991. Mae'r un gosb ar gael pan fethir yn barhaus â rhoi'r wybodaeth angenrheidiol. Mae'n amddiffyniad i unrhyw un a gyhuddir o'r drosedd hon brofi bod ganddo neu ganddi esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio â gofyniad yr hysbysiad.

Datganiadau ffug neu gamarweiniol

1.15 Mae'n drosedd hefyd os bydd unrhyw un yn gwneud unrhyw ddatganiad sy'n honni cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad torri rheolau cynllunio sy'n fwriadol ffug neu'n gamarweiniol mewn manylyn perthnasol; neu os bydd yn gwneud datganiad o'r fath sy'n ffug neu'n gamarweiniol mewn manylyn perthnasol yn ddi-hid. Y gosb ddiannod uchaf am y drosedd hon yw "lefel 5" ar y raddfa safonol, sef £5,000 ar hyn o bryd, fel a ddarperir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991.

Rhybuddio troseddwyr honedig

1.16 Wrth ymchwilio i'r ffeithiau, cyn cychwyn unrhyw achos, dylai'r ACLl roi sylw i ddarpariaethau adrannau 66 a 67(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 o ran rybuddio troseddwyr honedig.

Hysbysiad enghreifftiol

1.17 Ceir enghraifft o hysbysiad torri rheolau cynllunio ynghlwm wrth yr Atodiad hwn.

HYSBYSIAD TORRI RHEOLAU CYNLLUNIO ENGHREIFFTIOL

PWYSIG - MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

HYSBYSIAD TORRI RHEOLAU CYNLLUNIO

CYFLWYNWYD GAN: *[Enw'r Cyngor]*

I: *[Enw[au] y rhai y tybir mai hwy yw perchennog/perchnogion neu ddeiliad/deiliaid y tir neu berson[au] sydd ag unrhyw fuddiant arall ynddo]*
[Enw[au] person[au] y tybir eu bod yn gyfrifol am doriad posibl o'r rheolau cynllunio]

1. **CYFLWYNIR** yr hysbysiad hwn gan y Cyngor am ei bod yn ymddangos iddynt y gall y rheolau cynllunio fod wedi'u torri, o fewn adran 171A(1) o'r Ddeddf uchod, ar y tir a ddisgrifir isod. Fe'i cyflwynir i chi fel person y mae'n ymddangos mai chi yw perchennog neu ddeiliad y tir neu fod gennych fuddiant arall ynddo, neu sy'n gwneud gweithrediadau yn y tir, arno, drosto neu odano neu'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 171C(2) a (3), yn mynnu eich bod chi, cyn belled ag y gallwch, yn rhoi gwybodaeth benodol am fuddiant yn y tir a gweithgareddau arno.

2. **Y TIR Y MAE'R HYSBYSIAD YN CYFEIRIO ATO**

Tir yn *[cyfeiriad neu ddisgrifiad y tir] [a ddangosir ag ymylon coch ar y plan amgaeedig]*

3. **Y MATERION Y MAE'N YMDDANGOS EU BOD YN TORRI'R RHEOLAU CYNLLUNIO**

[Heb ganiatâd cynllunio]

[Noder manylion y toriad o'r rheolau cynllunio a amheuir]

[Methu â chydymffurfio ag amod neu gyfyngiad]

4. **YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD**

Darparu yn ysgrifenedig, y wybodaeth ganlynol:-

(1) *[Noder manylion y wybodaeth angenrheidiol, gan roi sylw i delerau adran 171C(2) a (3)]*

(2)

(3)

Erbyn pryd y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth: *o fewn un diwrnod ar hugain*, gan ddechrau â'r diwrnod pryd y cyflwynir yr hysbysiad hwn i chi):

5. **CYFLE I GYFLWYNO CYNRYCHIOLIADAU MEWN YMATEB I'R HYSBYSIAD**

Os hoffech gynnig gwneud cais am ganiatâd cynllunio, neu ymatal rhag gwneud unrhyw weithrediadau neu weithgareddau, neu wneud gwaith adfer; neu gyflwyno unrhyw gynrychioliadau am yr hysbysiad hwn, bydd y Cyngor, neu gynrychiolwyr y Cyngor yn eu hystyried ar *[dyddiad ac amser]* yn *[cyfeiriad lle gellir gwrando'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddynt]* lle gallwch wneud unrhyw gynnig o'r fath neu gyflwyno unrhyw gynrychioliadau o'r fath yn bersonol ar yr adeg honno ac yn y lle hwnnw.

6. RHYBUDD

Mae'n drosedd methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio ag unrhyw ofynion yn yr hysbysiad hwn o fewn un diwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod pryd y cafodd ei gyflwyno i chi. Y gosb uchaf os cewch eich collfarnu am y drosedd hon yw dirwy o £1,000. Bydd parhau i fethu â chydymffurfio yn sgil eich collfarnu yn gyfystyr â throsedd pellach. Mae'n drosedd hefyd rhoi gwybodaeth yn fwriadol neu'n ddi-hid, mewn ymateb i'r hysbysiad hwn, sy'n ffug neu'n gamarweiniol mewn manylyn perthnasol. Y gosb uchaf os cewch eich collfarnu am y drosedd hon yw dirwy o £5,000.

7. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Os methwch ag ymateb i'r hysbysiad hwn, gall y Cyngor gymryd camau pellach mewn perthynas â'r amheuaeth bod y rheolau cynllunio wedi'u torri. Yn benodol, gallant roi hysbysiad gorfodi, o dan adran 172 o Ddeddf 1990, yn ei gwneud yn ofynnol i'r toriad, neu unrhyw niwed i amwynder a achoswyd ganddo, gael ei adfer. *[Ychwaneger unrhyw "ganlyniadau tebygol" eraill, yn unol ag adran 171C(5)(a), os yw'n briodol.]* Os bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad stop, o dan adran 183 o Ddeddf 1990, pe buasai gennych hawl fel arall (o dan adran 186) i gael iawndal am golled neu ddifrod y gellid eu priodoli i'r hysbysiad hwnnw, mae adran 186(5)(b) o'r Ddeddf yn darparu na fydd iawndal o'r fath yn daladwy mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod y gellid bod wedi'u hosgoi pe buasech wedi rhoi'r wybodaeth sy'n angenrheidiol yn yr hysbysiad hwn i'r Cyngor, neu pe buasech wedi cydweithredu fel arall â'r Cyngor wrth ymateb iddo.

Dyddiad: *[dyddiad yr hysbysiad]*

Llofnod: *[Swyddog awdurdodedig y Cyngor]*

Ar ran: *[Enw a chyfeiriad y Cyngor]*

HYSBYSIADAU GORFODI AC APELAU

Cyflwyniad

2.1 Mae'r Atodiad hwn yn cynnig canllawiau ar weithdrefnau hysbysiadau ac apelau gorfodi. Ceir cyngor polisi ar orfodaeth gynllunio yn Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio a TAN (Cymru) 9. Ceir y canllawiau diweddaraf ar apelau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn hysbysiad gorfodi yn llyfryn y Swyddfa Gymreig ac Adran yr Amgylchedd o dan y teitl Enforcement Notice Appeals - A Guide to Procedure". Mae'r llyfryn ar gael oddi wrth swyddfa'r awdurdod cynllunio lleol (ACLl). Fel yr estoniwyd ym mharagraff 2 o brif destun y Cylchlythyr hwn, mae prif destun yr Atodiad hwn yn ymwneud â hystysiadau ac apelau gorfodi cynllunio yn unig. Mae paragraffau 2.56 i 2.77 o'r Atodiad hwn yn cyfeirio'n benodol at y darpariaethau cymaradwy ar gyfer gorfodi rheolau adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, rheolau cynllunio mwynau, rheolau coed gwarchodedig a rheolau sylweddau peryglus.

Penderfynu a ddylid rhoi hysbysiad gorfodi

2.2 Dewisol yw'r pŵer (yn yr adran 172 ddiwygiedig o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i roi hysbysiad gorfodi. Mae hysbysiad yn mynnu bod camau adferol yn cael eu cymryd o fewn terfyn amser penodedig. Dim ond lle bo'r ACLl yn fodlon bod rheolau cynllunio wedi'u torri a *hefyd* ei bod yn fanteisiol rhoi hysbysiad, o roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill y dylid ei ddefnyddio.

2.3 Bwriedir i ddarpariaethau'r adran 173(3) ddiwygiedig ddileu unrhyw amheuaeth y gellir cyfeirio hysbysiad gorfodi at ran yn unig o doriad rheolau i fynnu ei gywiro. Wrth benderfynu ar union ofynion yr hysbysiad a'r cyfnod cydymffurfio priodol, dylai'r ACLl edrych bob amser ar y canlyniadau a fwriedir *a hefyd* ar y canlyniad ymarferol tebygol. Mewn achosion o "dan-orfodi", sy'n cynnwys dymchwel strwythur yn rhannol, dylai'r ACLl ystyried a fyddai unrhyw hawliau "datblygu a ganiateir" o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GPDO") yn galluogi'r strwythur i gael ei amnewid wedyn, o bosibl mewn ffordd lai dderbyniol.

Terfynau amser ar roi hysbysiad gorfodi

2.4 Ceir terfynau amser ynglŷn â chamau gorfodi mewn perthynas â phob toriad o'r rheolau cynllunio. Pennir y terfynau fel a ganlyn yn Adran 171B o Ddeddf 1990:-

(1) yn achos datblygiad gweithrediadol - **pedair blynedd** o'r dyddiad pan gafodd y gweithrediadau eu "cwblhau'n sylweddol". *Mae hyn yn gymwys i bob achos o dorri'r rheolau cynllunio sy'n gyfystyr â chyflawni pob math o "ddatblygiad gweithrediadol" heb ganiatâd cynllunio, sef gwneud gwaith adeiladu, peiriannu, mwyngloddio neu waith arall mewn tir, arno, drosto neu odano;*

(2) yn achos toriadau rheolau cynllunio sy'n gyfystyr â newid defnydd unrhyw adeilad (sydd, at ddibenion Deddf 1990, yn cynnwys rhan o adeilad) i'w "ddefnyddio fel un tŷ annedd" - **pedair blynedd** o ddyddiad y toriad. *Mae'r terfyn amser hwn yn gymwys naill ai lle mae'r newid i ddefnydd fel un tŷ annedd yn cynnwys datblygiad heb ganiatâd cynllunio, neu lle bo'n cynnwys methiant â chydymffurfio ag amod neu gyfyngiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo;*

(3) yn achos unrhyw enghraifft arall o dorri'r rheolau cynllunio (hy heblaw'r rhai y cyfeiriwyd atynt eisoes yn is-baragraffau (1) a (2) uchod) - **deng mlynedd** o ddyddiad y toriad. *Yn ymarferol, mae'r terfyn amser hwn o ddeng mlynedd yn gymwys felly i doriadau o'r rheolau cynllunio sy'n cynnwys unrhyw newid sylweddol yn nefnydd y tir (heblaw newid i ddefnydd fel un tŷ annedd) ac i unrhyw doriad o amod neu gyfyngiad (gan gynnwys un lle torrir amod meddiannaeth a orfodwyd ar y caniatâd i godi tŷ annedd, ond heb gynnwys toriad lle defnyddir adeilad fel un tŷ annedd).*

Sut mae'r terfynau amser yn gweithio yn ymarferol

2.5 Nid yw'r terfynau amser a nodwyd ym mharagraff 2.4 uchod yn atal camau gorfodi ar ôl y dyddiadau perthnasol o dan ddau amgylchiad:

(1) mae adran 171B(4)(a) yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiad torri amod, os oes hysbysiad gorfodi eisoes mewn grym mewn perthynas â'r toriad, gan alluogi'r ACLl felly i gryfhau effaith yr hysbysiad gorfodi;

(2) mae adran 171B(4)(b) yn darparu ar gyfer cymryd camau gorfodi "pellach" mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri'r rheolau cynllunio o fewn y pedair blynedd ar ôl y camau gorfodi blaenorol (neu gamau honedig) mewn perthynas â'r un toriad. Mae hyn yn ymdrin yn bennaf â'r sefyllfa lle cymerwyd camau cynharach i orfodi o fewn y terfyn amser perthnasol, ond wedi profi'n ddiffygiol wedyn fel bod modd rhoi neu gyflwyno hysbysiad pellach, fel y bo'n wir, er bod y terfyn amser arferol ar gyfer camau o'r fath wedi dod i ben ers hynny.

Drafftio hysbysiad gorfodi

2.6 Bwriadwyd i ddarpariaethau'r adrannau 172 a 173 diwygiedig leihau'r tebygrwydd y byddai diffyg technegol wrth ddrafftio'r hysbysiad yn arwain at ei ddiddymu ar apêl, neu ddyfarnu ei fod yn ddi-rym. Er hynny dylai pob hysbysiad gael ei ddrafftio â'r gofal pennaf. Ni ellir defnyddio pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol, yn adran 176(1)(a), i gywiro, ar apêl, unrhyw *gam-ddisgrifiad* yn yr hysbysiad gorfodi, ond lle na fyddai'n achosi anghyfiawnder i'r apelydd neu'r ACLl; nid yw'n cynnwys cywiro hysbysiadau sydd mor sylfaenol ddiffygiol y byddai eu cywiro yn arwain at hysbysiad sylweddol gwahanol. I helpu ACLl i leihau diffygion drafftio technegol mewn hysbysiadau, ychwanegwyd enghreifftiau o hysbysiadau at yr Atodiad hwn. Bwriedir i'r enghreifftiau ddarparu ar gyfer y mwyafrif o sefyllfaoedd gorfodi; ond rhaid i delerau pob hysbysiad gyfateb yn hollol â'r toriad penodol o'r rheolau ei bwriedir ei gywiro.

2.7 Mae adran 171A o Ddeddf 1990 yn diffinio toriad o'r rheolau cynllunio fel -

(1) cyflawni datblygiad heb y caniatâd cynllunio angenrheidiol; neu

(2) methu â chydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo.

Mae unrhyw doriad o'r cyfyngiadau ar hawliau "datblygu a ganiateir" neu amodau sy'n gysylltiedig â hwy, o dan y GPDO, yn gyfystyr â thoriad o'r rheolau cynllunio y gellir cymryd camau gorfodi yn ei erbyn.

2.8 Ym mharagraffau 2.52 i 2.54 o'r Atodiad hwn tynnir sylw at anhawster penodol a danlinellwyd gan awdurdod barnwrol diweddar, a all godi wrth geisio cymryd camau gorfodi mewn perthynas ag unrhyw fethiant i gydymffurfio ag amod y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo i wneud gwaith adeiladu, peiriannu, mwyngloddio neu weithrediadau eraill ar dir.

Datgan yn glir pa reol sydd wedi'i thorri

2.9 Rhaid i hysbysiad gorfodi galluogi pob person sy'n cael copi ohono i wybod -

(1) beth yn hollol, ym marn yr ACLl, yw'r rheol a dorrwyd; a

(2) pa gamau y mae'r ACLl yn gofyn iddynt gael eu cymryd neu ba weithgareddau y gofynnir iddynt beidio, er mwyn adfer y toriad.

Rhaid pennu hefyd beth yw'r toriad, p'un ai cyflawni datblygiad heb ganiatâd cynllunio, neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad. Nid yw geiriad gor-gymleth na thermau cyfreithlyd yn gwella hysbysiadau gorfodi: gwell defnyddio Cymraeg neu Saesneg croyw bob amser. Gallai erlyniad o dan adran 179 o Ddeddf 1990 fethu yn y pen draw pe bai'r Llys yn dyfarnu bod telerau'r hysbysiad yn annealladwy i'r lleygwr.

"Tan-orfodi" a chaniatâd cynllunio tybiedig

2.10 Mae adran 173(11), fel y'i diwygiwyd, yn cyfateb yn sylweddol â'r adran 173(8) flaenorol yn Neddf 1990, ac eithrio, ar ôl cydymffurfio'n llawn â gofynion yr hysbysiad gorfodi, fod y darpariaethau'n gymwys i unrhyw ddibenion neu weithgareddau sy'n parhau ar y tir ac i unrhyw adeiladau neu weithfeydd sy'n aros. Ymdrinnir â'r sefyllfa lle cafwyd "tan-orfodi", drwy ddarparu bod rhaid ymdrin â chaniatâd cynllunio fel pe bai wedi'i roi ar gyfer y datblygiad neu'r gweithgaredd, fel pe bai yn ei gyflwr presennol am fod y perchennog neu'r deiliad wedi cydymffurfio â gofynion yr hysbysiad gorfodi. Gan fod yr adran yn gymwys i'r holl ddibenion neu weithgareddau sy'n parhau ar y tir ar ôl cydymffurfio â'r hysbysiad gorfodi, dylai'r ACLl sicrhau eu bod yn enwi'r holl reolau cynllunio perthnasol sydd wedi'u torri ac sy'n cynnwys defnyddio'r tir cyn rhoi'r hysbysiad gorfodi. Lle ceir defnydd cymysg ar y tir, mae'n bwysig i'r hysbysiad honni newid defnydd i'r defnydd cymysg hwnnw, gan bennu'r holl elfennau sy'n gydrannau yn honiad yr hysbysiad. Dylai'r cais tybiedig am ganiatâd cynllunio o dan adran 177(5), yn codi o unrhyw apêl yn erbyn yr hysbysiad, y bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arolygydd Cynllunio ei hystyried, gyfeirio mewn gwirionedd at y defnydd cymysg yn ei gyfanrwydd, ac nid yn unig at yr elfennau hynny ar y defnydd a nodwyd gan yr ACLl fel rhai sy'n torri'r rheolau cynllunio ac sy'n dod o dan ofynion yr hysbysiad. Y rheswm am hyn yw na fydd rhagoriaethau cynllunio defnydd penodol ar y tir yr un fath, lle nad yw'r defnydd hwnnw ond yn un o nifer o ddibenion sydd ar y gweill, â rhagoriaethau cynllunio y defnydd hwnnw os dyna unig ddiben y tir. Er enghraifft, pe bai'r dibenion eraill yn dod i ben a phe bai'r unig ddefnydd a fyddai ar ôl yn meddiannu'r "uned gynllunio" gyfan, gan gau eraill allan, mae'n ddigon posibl y byddai'r newid hwnnw, fel mater o ffaith a gradd, yn newid "sylweddol" o ddefnydd ar yr uned gynllunio, y byddai ystyriaethau cynllunio gwahanol yn gymwys iddo (**Wipperman v Barking LBC** (1965) 17 P&CR 225). Gan hynny, os na fydd yr ACLl yn pennu'r holl ddibenion sy'n digwydd ar uned gynllunio mewn achos defnydd cymysg, bydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arolygydd ar yr apêl yn cywiro'r hysbysiad, i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol ar y tir fel yr oedd adeg rhoi'r hysbysiad, cyn ymdrin ag unrhyw "gais cynllunio tybiedig" ar y sail honno. O dan yr amgylchiadau hyn, os yw'r ACLl wedi methu ag enwi unrhyw ddibenion ar y tir nad ydynt o bosibl yn gyfreithlon eto, ac y byddai gwrthwynebiadau cynllunio iddynt pe baent yn dod yn gyfreithlon, gallai adran 173(11) olygu bod caniatâd cynllunio tybiedig yn cael ei roi ar gyfer y dibenion hynny pe baent wedi'u pennu yn yr honiad ond pe na bai'n ofynnol iddynt ddod i ben.

2.11 Os daw i'r amlwg, yn ystod apêl orfodi, fod yr ACLl drwy ryw amryfusedd wedi hepgor unrhyw gydran o ddefnydd cymysg o'r honiad yn eu hysbysiad, byddant hwy a'r apelydd yn cael cyfle i gyflwyno cynrychioliadau ar rinweddau cynllunio yr holl ddefnydd cymysg cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arolygydd gywiro'r hysbysiad yn y dull a grybwyllwyd ym mharagraff 2.10 uchod. Nid yw fel rheol yn bosibl ymestyn y gofynion mewn hysbysiad gorfodi heb achosi anghyfiawnder i'r apelydd neu "ddeiliaid perthnasol" eraill a ddiffinnir yn adran 174(6). O dan yr amgylchiadau hynny hwyrach y bydd yr ACLl am dynnu'r hysbysiad yn ei ôl a rhoi un arall, yn hytrach na bod hysbysiad wedi'i gywiro yn cael ei gadarnhau a bod darpariaethau adran 173(11) yn gymwys i elfennau anghyfreithiol blaenorol defnydd cymysg, nad oeddent o bosibl yn gwybod amdanynt. (Dylai darpariaethau "ail gyfle" adran 171B(4)(b) o Ddeddf 1990 sicrhau bod yr ACLl yn dal i fod "mewn pryd" i roi hysbysiad gorfodi pellach o dan yr amgylchiadau hyn.)

2.12 Mewn achosion lle mae'r honiad fel y'i drafftiwyd gan yr ACLl yn pennu'n gywir yr holl elfennau ar y defnydd cymysg, bydd angen i ACLl sicrhau bod gofynion yr hysbysiad hefyd yn adlewyrchu eu bwriadau ar gyfer y tir yn llawn, ar ôl cydymffurfio â'r hysbysiad ac ar ôl i adran 173(11) ddod i rym.

2.13 Nid yw adran 173(11) yn pennu unrhyw weithdrefn ar gyfer "tybio bod caniatâd cynllunio wedi'i roi". Mae'r Swyddfa'n awgrymu nad oes angen i'r ACLl ond hysbysu derbynnydd copi o'r hysbysiad gorfodi fod caniatâd wedi'i roi ar yr adeg y cydymffurfiwyd yn llawn, ym marn yr ACLl, â gofynion yr hysbysiad gorfodi. Dylai'r penderfyniad tybiedig i roi caniatâd cynllunio cael ei nodi hefyd yn y gofrestr o hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop.

Effaith cydymffurfio â hysbysiad gorfodi

2.14 Nid yw cydymffurfio â hysbysiad gorfodi yn gollwng yr hysbysiad. Mae'n dal mewn grym mewn perthynas â'r tir oni bai ei fod yn cael ei dynnu'n ôl. O dan yr amgylchiadau hyn, os newidiodd y tir ddwylo wedi hynny, gallai darpar-brynwyr geisio rhyw sicrwydd pellach, yn ogystal â'u harsylwadau a'u dehongliadau eu hunain o ofynion yr hysbysiadau gorfodi, y cydymffurfiwyd yn llawn â'r hysbysiad. Hwyrach y byddai angen yr eglurhad hwn er mwyn bodloni benthycwyr posibl er mwyn i'r benthyciad gael ei sicrhau, neu i fodloni prynwyr na fyddent yn agored i gael eu herlyn.

2.15 Os ceisir sicrwydd o'r fath, gan y perchennog neu'r deiliad presennol neu ddarpar-berchennog neu ddarpar-ddeiliad tir ac os gellir ei roi, credir ei bod yn rhesymol i'r ACLl gadarnhau yn ysgrifenedig y buwyd yn cydymffurfio, â'r hysbysiad gorfodi o dan sylw, ar ddyddiad penodol, neu fod hynny'n parhau i ddigwydd. Os oes angen sicrwydd mwy ffurfiol, bydd yn agored i'r ceisydd wneud cais am "dystysgrif datblygu cyfreithlon" a thalu'r ffi briodol am wneud cais.

2.16 Mae'n bosibl hefyd y rhoddid sicrwydd ysgrifenedig tebyg o dan amgylchiadau adran 173(12), lle mae "adeilad amnewid" wedi'i adeiladu ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion hysbysiad gorfodi.

Datganiad o'r rhesymau dros roi'r hysbysiad gorfodi

2.17 Mae'n hanfodol bod unrhyw un y cyflwynir copi o hysbysiad gorfodi iddynt yn deall, o'r cychwyn cyntaf, y rhesymau paham y rhoes yr ACLl yr hysbysiad. O'r herwydd, mae rheoliad 3 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) 1991 (OS 1991/2804) ("Rheoliadau 1991") yn ei gwneud yn ofynnol i bob hysbysiad gorfodi a roddir gan ACLl bennu'r rhesymau pam yr oeddent o'r farn ei bod yn "fanteisiol" rhoi'r hysbysiad. Dylid cynnwys y datganiad o'r rhesymau felly yn nhestun yr hysbysiad gorfodi ac, yng ngoleuni'r cyngor a gynhwysir ym mharagraffau 2.30 i 2.33 isod, dylid egluro ai i gywiro niwed i amwynder yn **unig** y mae'r rhesymau hyn yno.

Enwi'r safle

2.18 Mae Rheoliad 3 o Reoliadau 1991 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd fod yr hysbysiad gorfodi yn pennu union ffiniau'r tir y mae'n ymwneud ag ef. Y ffordd orau o wneud hyn bob tro yw drwy gyfrwng plan (a gorau oll os yw hynny ar sylfaen yr Arolwg Ordnans â graddfa heb fod yn llai na 1/2500) ynghlwm wrth yr hysbysiad gorfodi, ac *union* ffin y tir wedi'i dynodi arno yn glir ag amlinelliad mewn lliw addas. Os nad yw hyn yn ddigonol i nodi'r ffin yn union, dylai'r plan gael ei gydategu â disgrifiad ysgrifenedig byr, neu luniad wedi'i dirfesur yn gywir ar raddfa fwy.

Amgylchiadau personol

2.19 Rhaid i amgylchiadau personol, gan gynnwys materion megis iechyd, anghenion tai a lles, personau yr amheuir eu bod yn gweithredu yn groes i'r rheolau cynllunio cael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi (gweler **R v Kerrier DC ex parte Uzell** [1996] 71 P&CR 566).

Rhoi'r hysbysiad gorfodi a chyflwyno copïau

2.20 Mae'r cysyniad o "roi" hysbysiad gorfodi, yn hytrach na'i gyflwyno, yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynllunio (Diwygio) 1981. Dehonglir y gofyniad i "roi" hysbysiad fel petai'n golygu y dylai'r ACLl baratoi dogfen sydd wedi'i hawdurdodu'n briodol a'i chadw yn eu cofnodion. Caiff copïau o'r hysbysiad hwnnw eu cyflwyno wedyn i bersonau sydd â buddiant, fel a ddisgrifir ym mharagraff 2.22 o'r Atodiad hwn.

2.21 Mae'n bwysig bod manylion pob hysbysiad gorfodi a roddir yn cael eu cofnodi, cyn gynted â phosibl, yn unol ag Erthygl 26 o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995 (OS 1995/419) (y "GPDO"), yn y gofrestr o hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop y mae'n ofynnol i ACLl ei chadw (o dan adran188 o Ddeddf 1990). Mae adran 179(7)(b) o Ddeddf 1990 yn darparu amddiffyniad i bersonau a gyhuddir o drosedd o

dan yr adran honno os gallant ddangos nad oedd yr hysbysiad wedi'i gynnwys yn y gofrestr, na chafodd copi ei gyflwyno iddynt ac nad oeddent yn gwybod am ei fodolaeth.

2.22 Mae adran 172 o Ddeddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod copi o hysbysiad gorfodi'n cael ei gyflwyno -

(1) i berchennog ac i ddeiliaid y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef; a

(2) i unrhyw berson arall sydd â buddiant yn y tir, sef buddiant y mae'r hysbysiad yn effeithio'n sylweddol arno, ym marn yr ACLl.

Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyflwyno heb fod yn fwy nag wyth diwrnod ar hugain ar ôl dyddiad ei roi a heb fod yn llai nag wyth diwrnod ar hugain cyn y dyddiad a bennir ynddo. (Y dyddiad gweithredol yw'r dyddiad y mae'r cyfnod cydymffurfio'n dechrau rhedeg.) Wrth gyflwyno hysbysiadau gorfodi, dylai'r ACLl sicrhau bod copi'n cael ei gyflwyno i unrhyw forgeiseion y gwyddys amdanynt. Mewn achosion lle bo perchennog y tir yn forgeisiwr sy'n diffyg dalu hwyrach na fydd modd dod o hyd iddo/iddi, a bydd angen sicrhau bod y morgeisiai mewn meddiant yn cael gwybod am y sefyllfa. Yn unol ag adran 173A(3) o Ddeddf 1990, dylid hysbysu morgeisiai hefyd am dynnu hysbysiad yn ôl neu am hepgor neu lacio unrhyw ofyniad.

2.23 Ynghlwm wrth bob copi o hysbysiad gorfodi a gyflwynir gan ACLl, o dan adran 172, mae Rheoliad 4 o Reoliadau 1991, fel y'u diwygiwyd gan OS 1992/1904, yn ei gwneud yn ofynnol cael nodyn esboniadol sy'n cynnwys copi, neu grynodeb o adrannau 171A, 171B a 172 i 177 o Ddeddf 1990 yn esbonio -

(1) bod yna hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn yr hysbysiad;

(2) bod rhaid i unrhyw apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y daw i rym; a

(3) y seiliau y gellir gwneud apêl arnynt.

Mae Rheoliad 4 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLl esbonio bod rhaid i apêl gael ei hategu ar yr un pryd (neu o fewn y terfyn amser o bedwar diwrnod ar ddeg y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei orfodi o dan y rheoliad hwn) gan ddatganiad o'r rhesymau dros yr apêl a'r ffeithiau y mae wedi'i seilio arnynt. Dylai ACLl benderfynu sut i gyflawni'r gofyniad hwn yn y rheoliad. Mae rheoliad 13 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (OS 1992/1492) yn ei gwneud yn ofynnol bod hysbysiadau ac amlenni'n cael eu marcio â'r geiriau:

"Pwysig - Mae'r ohebiaeth hon yn effeithio ar eich eiddo".

2.24 Y peth gorau fel rheol yw amgáu tri chopi o bob hysbysiad gorfodi a chopi o lyfryn esboniadol y Swyddfa Gymreig ("Apelau Hysbysiadau Gorfodi - Arweiniad i'r Weithdrefn") a thri chopi o'r ffurflen apelio swyddogol. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bob darpar-apelydd yr un wybodaeth a'i fod yn gwybod y weithdrefn ar gyfer cyflwyno apêl. *(Nid yw'r llyfryn esboniadol a'r ffurflen apêl yn briodol ar gyfer hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, nad yw rheoliad 4 yn gymwys iddynt).*

Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am wybodaeth a diddymu hysbysiad

2.25 Gofynnir i ACLl anfon tri chopi o bob hysbysiad gorfodi a roddir ganddynt, er mwyn i ddarpar-apelydd gyflwyno un gydag unrhyw apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol. Os nad yw'r weithdrefn hon yn gweithio'n foddhaol, rhaid i'r Swyddfa allu cael gafael ar gopi o'r hysbysiad yn gyflym. Mae Rheoliad 6 o Reoliadau 1991 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLl anfon copi o'r hysbysiad at yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn pen 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'n eu hysbysu bod apêl yn cael ei gwneud, ynghyd â rhestr o enwau a chyfeiriadau pobl y cyflwynwyd copi iddynt. Os bydd yr ACLl yn methu â pharchu'r gofyniad hwn, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i ddiddymu'r hysbysiad yn rhinwedd adran 176(3). Dylai fod yn eithriadol iawn diddymu hysbysiad o dan yr amgylchiadau hyn. Os yw'n ymddangos ei bod yn briodol diddymu hysbysiad, bydd y Swyddfa'n rhoi saith diwrnod o rybudd terfynol i'r ACLl o'r

bwriad i'w ddiddymu gan archwilio unrhyw gynrychioliadau oddi wrth yr ACLl, yn ystod y cyfnod hwnnw, fod yna amgylchiadau lliniarol sy'n peri nad yw'n briodol diddymu yr hysbysiad. Mae unrhyw benderfyniad i ddiddymu hysbysiad yn agored i her yn yr Uchel Lys, ac nid yw'n atal yr ACLl rhag rhoi hysbysiad arall, o fewn unrhyw derfyn amser perthnasol.

Tynnu hysbysiad gorfodi yn ôl

2.26 Mae adran 173A yn galluogi'r ACLl i dynnu hysbysiad gorfodi a gyhoeddir ganddynt yn ôl, neu i hepgor neu lacio unrhyw un o'i ofynion, ac i ymestyn unrhyw gyfnod a bennwyd ar gyfer cydymffurfio ag ef. Gellir defnyddio'r pŵer hwn p'un a yw'r hysbysiad gorfodi wedi dod i rym neu beidio. Pan gaiff ei ddefnyddio, mae'n ofynnol i'r ACLl hysbysu ar unwaith unrhyw un y mae neu y byddai copi o'r hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno iddynt. Nid yw tynnu hysbysiad gorfodi yn ôl yn atal yr ACLl rhag rhoi hysbysiad pellach ynglŷn â'r un safle neu'r un toriad, os yw fel arall yn agored iddynt wneud hynny.

Hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn hysbysiad gorfodi

2.27 Mae adran 174(1) yn darparu hawl apelio i unrhyw un sydd â buddiant yn y tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn cyfeirio ato, neu sy'n "ddeiliad perthnasol", p'un a oes copi o'r hysbysiad wedi'i gyflwyno iddynt neu beidio. Ystyr "buddiant" yw buddiant cyfreithiol neu ecwitïol, megis perchnogaeth, neu roi tenantiaeth neu brydles, neu sicrhau morgais neu fenthyciad arall ar y tir. Diffinnir "deiliad perthnasol" yn adran 174(6). Mae unrhyw un sy'n meddiannu'r tir gyda chaniatâd llafar neu ysgrifenedig y perchennog yn ddeiliad perthnasol.

2.28 Mae'r seiliau dros apelio yn adran 174(2) o Ddeddf 1990 fel a ganlyn -

"(a) that, in respect of any breach of planning control which may be constituted by the matters stated in the notice, planning permission ought to be granted or, as the case may be, the condition or limitation concerned ought to be discharged;

(b) that those matters have not occurred;

(c) that those matters (if they occured) do not constitute a breach of planning control;

(d) that, at the date when the notice was issued, no enforcement action could be taken in respect of any breach of planning control which may be constituted by those matters;

(e) that copies of the enforcement notice were not served as required by section 172;

(f) that the steps required by the notice to be taken, or the activities required by the notice to cease, exceed what is necessary to remedy any breach of planning control which may be constituted by those matters or, as the case may be, to remedy any injury to amenity which has been caused by any such breach;

(g) that any period specified in the notice in accordance with section 173(9) falls short of what should reasonably be allowed."

Atebolrwydd i dalu'r ffi am gais cynllunio tybiedig

2.29 Ar apêl o dan sail (a), os oes unrhyw ffi yn daladwy am gais cynllunio tybiedig o dan Reoliadau a wneir yn rhinwedd adran 303, ac os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r cyfnod y mae rhaid i'r ffi gael ei thalu ynddo, yna os nad yw'r apelydd yn talu'r ffi o fewn y cyfnod hwnnw mae adran 177(5A) yn darparu y bydd yr apêl ar sail (a) *a'r* cais tybiedig yn methu. Mae'r ffi yn daladwy i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r ACLl mewn cyfrannau cyfartal, o fewn pa derfyn amser bynnag a bennir yn ysgrifenedig (gweler paragraff 2.74 o'r Atodiad hwn). Rhoddir terfyn amser rhesymol ar gyfer y taliadau. Os caiff yr asesiad o'r swm sy'n ddyledus ei herio, neu os gwneir cais rhesymol am fwy o amser i dalu o fewn y terfyn amser cychwynnol, caiff y Swyddfa ymestyn y cyfnod ar gyfer talu, yn ysgrifenedig. Os digwydd hynny, hysbysir yr ACLl yn unol â hynny.

Datgan gofynion yr ACLl mewn hysbysiad gorfodi

2.30 Mae rhai apelwyr sydd heb dalu'r ffi cais tybiedig yn lle hynny wedi ceisio cyflwyno dadleuon ar rinweddau cynllunio eu hapêl yng nghyd-destun apêl ar sail (f) yn adran 174(2). Ym marn y Swyddfa, rhaid i ddarpariaethau adran 174(2) gael eu dehongli yn unol â chynllun mwy y Rhan hon o Deddf 1990. Yn benodol, mae angen dehongli y seiliau dros apêl mewn perthynas â darpariaethau is-adrannau (1) i (4) o adran 173 o'r Ddeddf. Drwy'r geiriau "yn gyfan gwbl neu'n rhannol", mae is-adran (3) yn egluro y gall yr ACLl "dan-orfodi", wrth bennu'r camau y mynnant iddynt gael eu cymryd, neu'r gweithgareddau y mynnant iddynt ddod i ben, er mwyn sicrhau'r amcanion a bennir yn is-adran (4). Mae is-adran (4) yn galluogi'r ACLl i bennu'r naill neu'r llall o ddau gategori gwahanol o ofyniad adferol mewn hysbysiad gorfodi sef:

(a) peri bod unrhyw ddatblygiad yn cydymffurfio â thelerau ... unrhyw ganiatâd cynllunio sydd wedi'i roi mewn perthynas â'r tir, drwy roi'r gorau i unrhyw ddefnydd ar y tir neu drwy adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r toriad ddigwydd; **neu**

(b) cywiro unrhyw niwed i amwynder a achoswyd gan y toriad.

Felly rhaid yn gyntaf i'r ACLl ddewis pa lwybr i'w gymryd wrth bennu eu gofynion. Os bydd yr ACLl yn dilyn patrwm yr hysbysiadau gorfodi enghreifftiol yn Ychwanegiadau 1-3 o'r Atodiad hwn, dylai fod yn glir, trwy ystyried yr hyn a ddywedir ym mharagraffau 3, 4 a 5 o'r hysbysiad, wedi'u darllen yn eu crynswth, a ddylai'r gofynion adferol ddilyn o baragraff (a) **neu** baragraff (b) o adran 173(4). Er hynny, mae'n dal yn bosibl bod hysbysiad sy'n "tan-orfodi" yn gwneud hynny at ddibenion heblaw adfer niwed i amwynder yn unig. Yn yr un modd, gall hysbysiad y mae ei ofynion yn dilyn o baragraff (a) ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiad gydymffurfio'n llwyr â thelerau caniatâd cynllunio, neu ddileu adeilad yn llwyr, neu roi'r gorau yn llwyr i ddefnydd, fod wedi'i roi yn unig i adfer niwed i amwynder a achoswyd gan y bwriad ac nid am unrhyw reswm arall. Mae'n berthnasol hefyd felly fod rheoliad 3(a) o Reoliadau 1991 yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad gorfodi pennu'r rhesymau pam yr oedd yr ACLl yn credu ei bod yn fanteisiol rhoi'r hysbysiad.

2.31 Rhaid i'r ACLl lunio eu gofynion adferol er mwyn cyfateb yn glir **naill ai** â diben (a) **neu** ddiben (b) yn adran 173(4). Mae'n dilyn o ddehongli'r darpariaethau hyn mai'r unig fath o hysbysiad gorfodi sy'n agored i apêl ar ail elfen sail (f) ("neu fel y bo'n wir, i adfer unrhyw niwed i amwynder a achoswyd gan doriad o'r fath;") yw hysbysiad lle bo **rhesymau** yr ACLl dros ei roi (paragraff 4 o'r hysbysiad enghreifftiol) yn datgan mai adfer rhyw niwed i amwynder a achoswyd gan y toriad yw ei **unig** ddiben.

2.32 Mae geiriad sail (f) yn bwysig hefyd yn hyn o beth. Mae'r sail sylfaenol bron yn debyg i sail (g) o adran 174(2) o Ddeddf 1990, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol. Ond mae sail (f) bellach wedi'i geirio er mwyn gwahanu'r ddwy ddadl y gellir eu defnyddio o dan yr elfen hon yn fwy arwyddocaol drwy gyfrwng y geiriau "neu, fel y bo'n wir,". O archwilio'r hysbysiad gorfodi, dylai ddod i'r amlwg beth yn union y ceisiai'r ACLl ei gyflawni drwy eu hysbysiad. Os yw'n ymddangos y gall y toriad fod yn groes i'r cynllun datblygu, neu os yw'n achosi perygl i draffig, neu os ceir unrhyw wrthwynebiadau iddo heblaw ar sail niwed i amwynder yn unig, a bod yr ACLl yn gofyn am ei derfynu'n llwyr, ni fernir bod honno'n sefyllfa lle "y bo'n wir" mai'r cyfan y mae ei angen yw adfer unrhyw niwed i amwynder a achoswyd. Mewn achos o'r fath bernir na ellir dehongli'r Deddf yn synhwyrol fel petai'n caniatáu **unrhyw** apêl a gyflwynir o dan ail bennawd sail (f) lle nad yw'r cais tybiedig wedi'i ystyried a lle nad yw gwrthwynebiadau heblaw ar sail niwed i amwynder wedi'u datrys yn foddhaol. Yr unig apêl a ddylai fod ar gael i'w chyflwyno yn yr achos hwnnw yw bod y gofynion, mewn gwirionedd, yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i adfer y toriad.

2.33 Fel arall, os yw'n glir mai'r **unig** reswm dros roi hysbysiad, neu'r unig wrthwynebiad i'r toriad, yw ar sail amwynderau, ac os nad oes unrhyw wrthwynebiadau eraill wedi'u codi ar seiliau polisi neu draffig neu seilwaith, yna, ac yna yn unig, y cymerir unrhyw apêl a gyflwynir o dan ail bennawd sail (f) i ystyriaeth lle nad yw'r cais tybiedig wedi'i ystyried. Câi ystyriaeth ar sail (f) o dan yr amgylchiadau hyn ei chyfyngu i faterion amwynder yn unig, heb fod angen mynd i'r afael â pholisi cynllunio neu unrhyw fater arall o rinweddau cynllunio.

Pwyntiau ychwanegol ynghylch gofynion

2.34 Yn achos **Kaur v SSE and Greenwich LBC** (1990) JPL 814, bamwyd y byddai gofyniad i roi hysbysiad gorfodi yn darpaau ar gyfer cyflwyno cynllun adfer a'i gymeradwyo ar ôl hynny yn dod â mesur annerbyniol o ansicrwydd. Er y gellir dilysu gofyniad o'r fath drwy ddarpau bod penderfyniad ar gynllun o'r fath yn cāel ei wneud yn anstatudol yn niffyg cytundeb (gweler **Murfitt v Secretary of State for the Environment and East Cambridgeshire DC** (1980) JPL 598), ni ddylid galw ar yr Ysgrifennyddd Gwladol fel cymrodeddwr cynllun o'r fath mewn hysbysiad gorfodi ACLl, nad oedd hwyrach, yn absenoldeb unrhyw apêl yn erbyn yr hysbysiad hwneus, wedi ymwneud o'r blaen ag ef. Anogir ACLI felly i osgoi gofynion o'r fath mewn hysbysiadau gorfodi ond yn hynach i nodi, lle fynnag y fo'n bosibl, y camau penodol y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'w cymryd er mwyn cywiro achos o dorri rheol gynllunio. Os yw hynny'n anymarferol, o bosibl am fod union gyflwr y tir cyn i'r rheol gael ei thorri yn rhan neilltuol o wybodaeth y datblygwr, byddai dewis arall yn ei gwneud yn ofynnol i adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r rheol gynllunio cael ei thorri, gan ei gadael i'r datblygwr gydymffurfio yn unol â'i wybodaeth o'r cyflwr hwnnw.

2.35 Ar y llaw arall, dylai ACLI wylio rhag gorfodi gofynion gorfanwl mewn hysbysiadau gorfodi, megis pennu union gymysgedd yr hadau gwellt i'w defnyddio ar gyfer ailhadu tir er mwyn ei ddychwelyd i'w gyflwr blaenorol, gan y gall gofynion o'r fath fod yn ormodol.

Terfynau amser ar gyfer apelio

2.36 Mae adran 174(3) yn darparu bod rhaid gwneud apêl -

(a) drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad gorfodi fel y dyddiad y daw i rym; neu

(b) drwy anfon y cyfryw hysbysiad iddo mewn llythyr wedi'i gyfeirio'n briodol, wedi'i dalu ymlaen llaw ac wedi'i bostio iddo ar y cyfryw adeg fel y câi ddosbarthu iddo cyn y dyddiad hwnnw, yn nhrefn arferol y post.

Gan mai apêl yw'r unig ffordd fel arfer i dderbynnydd hysbysiad gorfodi herio camau'r ACLl wrth roi'r hysbysiad, mae'n holl-bwysig fod darpar-apelydd yn cael gwybod am y terfyn amser absoliwt hwn, nad oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddisgresiwn i'w amrywio, ar gyfer gwneud apêl ddilys. Mae'r llyfryn esboniadol yn pwysleisio'r terfynau amser llym a ddefnyddir ynglŷn ag apelau gorfodi a'i bod yn ddoeth peidio ag aros tan ddiwedd cyfnod yr apêl cyn cyflwyno'r apêl.

Cynnal apelau gorfodi: gweithdrefnau

2.37 Lle gwneir apêl yn erbyn yr hysbysiad gorfodi, mae gan yr apelydd a'r ACLl hawl i ymddangos gerbron person a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a chael eu gwrando ganddo. Lle defnyddir yr hawl hon, caiff ymchwiliad lleol cyhoeddus ei gynnal fel arfer. Lle bo'r seiliau dros apelio yn awgrymu anghydfod ynghylch ffeithiau perthnasol, rhwng yr ACLl a'r apelydd, ee o dan seiliau (c) a (d) o adran 174(2), fel rheol rhaid cynnal ymchwiliad. Os felly, bydd Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1992 (OS 1992/1903) yn gymwys. Lle bo'r anghydfod yn ymwneud â rhagoriaethau cynllunio'r datblygiad yn unig, neu â gofynion yr hysbysiad neu â'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio, a lle cafwyd cais am gael gwrandawiad, gall fod yn briodol bwrw ymlaen drwy gyfrwng gwrandawiad anffurfiol yn hytrach nag ymchwiliad cyhoeddus. Mae gweithdrefnau llai ffurfiol y gwrandawiad yn golygu ei bod yn amhriodol mewn unrhyw achos lle ceir anghydfod ynghylch ffeithiau'r dystiolaeth, neu ar y mwyafrif o seiliau cyfreithiol yn adran 174(2).

2.38 Mewn achosion addas, bydd y Swyddfa'n awgrymu trafod yr apêl drwy'r weithdrefn cynrychioliadau ysgrifenedig. Os aiff apêl rhagddi ar ŷ sâil hon, bydd yn amlwg yn angenrheidiol i Arolygydd Cynllunio archwilio'r safle. Lle bo rhaid cael mynediad i dir ar gyfer hyn, fel arfer trefnir bod yr Arolygydd yn mynd yng nghwmni un o gynrychiolwyr yr apelydd a'r ACLl.

Cynnal apelau gorfodi: gofynion sy'n gymwys i apelwyr

2.39 Mae Rheoliad 5 o Reoliadau 1991 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol eu bod yn apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi, hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig neu hysbysiad gorfodi ardal gadwraeth, ac nad yw'n anfon gyda'r hysbysiad ddatganiad ysgrifenedig yn pennu ar ba sail y maent yn apelio, a chan ddatgan yn fyr y ffeithiau i ategu pŏb ūn o'r seiliau hynny, wneud hynny o fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol ei hysbysu i'r perwyl hwnnw. Mae Adran 174(5) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar yr apêl heb ystyried unrhyw sail dros apelio y mae'r apelydd yn methu â darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar ei chyfer o fewn yr amser penodedig.

2.40 Dylai darpar-apelwyr (a'u hasiantau) ystyried yn ofalus iawn ddatganiad yr ACLl o resymau dros roi'r hysbysiad gorfodi pan fônt yn ystyried apêl. Mewn unrhyw apêl ddilynol, dylai eu dadleuon roi sylw i'r toriad honedig o reolau cynllunio a datganiad yr ACLl. Os bydd yr ACLl yn datgan eu bod yn fodlon rhoi caniatâd cynllunio amodol ar gyfer y datblygiad honedig anghyfreithlon, dylai'r darpar-apelydd ystyried a ddylid gwneud y cais cynllunio priodol, yn hytrach nag apelio. Dylid trafod hyn ar fyrder gyda'r ACLl er mwyn darganfod a fyddent yn fodlon tynnu'r hysbysiad yn ôl pe rhoid y caniatâd hwnnw. Os byddai'r caniatâd amodol arfaethedig yn annerbyniol, dylai'r apêl ddatgan unrhyw amodau diwygiedig a fyddai'n ei wneud yn dderbyniol.

2.41 Os caiff apêl orfodi ei gohirio am fod yr apelydd yn methu â darparu digon o wybodaeth, ac os anwybyddir ceisiadau'r Swyddfa am y wybodaeth honno, bydd y Swyddfa yn troi at bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn rheoliad 5 i fynnu bod terfynau amser yn cael eu cadw. Os parheir i fethu â darparu'r wybodaeth, gall yr Ysgrifennydd Gwladol fynd ymlaen i wrthod yr apêl (neu benderfynu arni ar y seiliau apêl hynny y mae ganddo ddigon o wybodaeth ar eu cyfer yn unig) oni bai y gall yr apelydd ddangos amgylchiadau lliniarol dilys a'i hataliodd ef neu hi rhag darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Pan wrthodir apêl o dan adran 176(3), ni fydd y cais cynllunio tybiedig wedi'i ystyried a chaiff unrhyw ffi sydd eisoes wedi'i thalu gan yr apelydd ei had-dalu gan y Swyddfa a'r ACLl.

2.42 Weithiau bydd datganiad yr apelydd yn annigonol o safbwynt gwybodaeth neu fanylion at ddibenion ymchwiliad cyhoeddus. Os felly, bydd y Swyddfa'n defnyddio pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol, yn rheoliad 6 o Reolau Gweithdrefn Ymchwiliadau Gorfodi 1992 i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd gyflwyno datganiad ysgrifenedig o'r sylwadau y mae'n bwriadu eu cyflwyno yn yr ymchwiliad. Bydd rhaid cyflwyno copi o ddatganiad yr apelydd i'r ACLl a'r Ysgrifennydd Gwladol ar amser a bennir cyn dyddiad yr ymchwiliad.

Cynnal apelau gorfodi: gofynion sy'n gymwys i ACLl

2.43 Weithiau mae'r Swyddfa yn cael anhawster mawr wrth sicrhau datganiad yr ACLl ar gyfer yr apêl, hyd yn oed pan fo'n gymharol ddi-drafferth a'r partïon yn bwrw ymlaen drwy gyfrwng cynrychioliadau ysgrifenedig ac ymchwiliad o'r safle gan Arolygydd Cynllunio. Weithiau mae datganiadau ACLl yn annigonol fel ffordd o baratoi at ymchwiliad cyhoeddus, gyda'r canlyniad y bydd partïon yr apêl, a'r Arolygydd Cynllunio sy'n cynnal yr ymchwiliad, yn treulio mwy o amser nag y dylai fod ei angen yn yr ymchwiliad. Os bydd yr ACLl yn methu â chadw at yr amserlen a bennir gan y Swyddfa, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ymarfer y pwerau yn rheoliad 7 o Reoliadau 1991 (fel y'u diwygiwyd).

2.44 Mae rheoliad 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad yr ACLl o sylwadau ar yr apêl gael ei gyflwyno -

(1) *yn achos yr ymchwiliadau hynny lle bo'r dyddiad a drefnwyd ar gyfer yr ymchwiliad yn llai na 18 wythnos ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol roi hysbysiad ysgrifenedig o fwriad i gynnal ymchwiliad i bartïon yr apêl* - o leiaf 6 wythnos cyn dyddiad yr ymchwiliad;

(2) *yn achos ymchwiliadau eraill* - heb fod yn fwy na 12 wythnos ar ôl hysbysiad ysgrifenedig o fwriad i gynnal ymchwiliad; a

(3) *lle na chynhelir ymchwiliad lleol* - heb fod yn fwy na 28 diwrnod ar ôl hysbysiad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r ACLl yn gofyn am ddatganiad.

Os na fydd yr ACLl yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer dewisol i ddiddymu'r hysbysiad gorfodi yn unol ag adran 176(3)(b). Dylai achosion o'r fath fod yn brin am fod y terfynau amser yn cynnig digon o gyfle i ddatganiad yr ACLl gael ei gyflwyno. Os diddymir hysbysiad gorfodi o dan adran 176(3)(b), bydd yr hysbysiad yn peidio â bod mewn grym; a chaiff unrhyw ffi am gais cynllunio tybiedig a dalwyd gan yr apelydd ei had-dalu gan y Swyddfa a'r ACLl. Nid yw diddymu'r hysbysiad o dan yr amgylchiadau hyn yn effeithio ar bwerau'r ACLl i roi un arall, ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r terfyn amser ar gyfer cymryd camau gorfodi.

Cynnal apelau gorfodi: hysbysu'r cyhoedd o'r apêl

2.45 Mae rheoliad 8 o Reoliadau 1991 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLl, pan drafodir yr apêl heblaw drwy ymchwiliad, hysbysu'r apêl i ddeiliaid y tir yng nghymdogaeth safle'r apêl sydd, ym marn yr ACLl, yn cael eu heffeithio gan y toriad honedig o reolau cynllunio. Wrth hysbysu, rhaid i'r ACLl gynnwys disgrifiad o'r toriad honedig o reolau, eu rhesymau dros gyflwyno'r hysbysiad, y seiliau y gwneir yr apêl arnynt, a'r terfyn amser i bersonau sydd â diddordeb gyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig i'r ACLl. Dylai'r hysbysiad gael ei roi cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn ystod apêl gorfodi.

Apelau wedi'u trosglwyddo

2.46 Trosglwyddir y mwyafrif o apelau gorfodi i Arolygwyr Cynllunio i gael eu penderfynu. Pennir y dosbarthiadau o apelau a drosglwyddir yn y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfynu Apelau gan Bersonau Penodedig) (Dosbarthiadau Penodedig) 1981 (OS 1981/804, fel y'u diwygiwyd gan OS 1986/443, 1986/623, 1989/1087, 1995/2259 a 197/420). Penderfynir ar y cwestiwn a ddylai apêl gael ei "hadfer" i'w phenderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy gyfeirio at gategori'r toriad o'r rheolau cynllunio a honnir yn yr hysbysiad gorfodi ac amgylchiadau'r apêl.

Costau

2.47 Fel rheol disgwylir i'r partïon mewn apêl hysbysiad gorfodi talu eu costau eu hunain. Yn wahanol i ymgyfreithiad, nid yw costau fel rheol yn "dilyn y digwyddiad" yn yr apêl, ac ni chânt eu dyfarnu yn erbyn parti, ar gais, ond os dangosir eu bod wedi ymddwyn "yn afresymol" ym mhroses yr apêl. Ceir canllawiau cynhwysfawr yng Nghylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig ar y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu costau i bartïon mewn apêl. Yn rhinwedd adran 175(7) o Ddeddf 1990 (a fewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 4 o Ddeddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) 1990), gellir dyfarnu costau mewn apêl hysbysiad gorfodi p'un a yw'r apêl wedi symud ymlaen drwy gyfrwng cynrychioliadau ysgrifenedig neu ymchwiliad lleol.

Y penderfyniad ar yr apêl yn derfynol

2.48 Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol, neu Arolygydd yn ymarfer pwerau a drosglwyddwyd, wedi penderfynu ar apêl, nid oes ganddynt awdurdodaeth bellach ac ni allant ei hail-ystyried na'i chywiro. Gellir gwneud cais am ganiatâd i gyflwyno apêl bellach yn yr Uchel Lys ar bwynt o gyfraith, o dan adran 289 o Ddeddf 1990. Mae Rheolau'r Goruchaf Lys yn gofyn bod hwnnw'n cael ei wneud o fewn 28 diwrnod o ddyddiad rhoi'r penderfyniad, neu o fewn cyfnod estynedig yn ôl disgresiwn y Llys. Lle rhoddir caniatâd cynllunio, o dan adran 177(1)(a) a (b) o Ddeddf 1990, gellir apelio, o dan adran 288, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y penderfyniad, ar y sail nad yw'r camau o fewn pwerau Deddf 1990 neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw "ofyniad perthnasol" fel y'i diffiniwyd yn yr adran.

2.49 Mae adran 175(4) yn cynnwys cyfeiriad at adran 289(4A) ac o dan honno gall yr Uchel Llys, neu'r Llys Apêl, orchymyn (ar delerau a all gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r ACLl roi ymrwymiad o ran iawndal neu unrhyw faterion eraill) y bydd yr hysbysiad gorfodi mewn grym, neu mewn grym i'r graddau a bennir yn y gorchymyn, nes y penderfyniad terfynol ar yr achos hwnnw ac unrhyw ail-wrandawiad a phenderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni ellir dwyn achos o dan adran 289 o Ddeddf 1990 heb ganiatâd yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl. Mae dyfarniad gan y Llys Apêl (**Huggett, Wendy Fair Markets Cyf a Bello v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ac Eraill,** [1995] JPL 649) wedi dyfarnu nad oes hawl i apelio i'r Llys hwnnw yn erbyn penderfyniad yr Uchel Lys i wrthod caniatâd o dan adran 289 o Ddeddf 1990.

2.50 Pan ellir cyfiawnhau hynny o dan yr amgylchiadau penodol, ni ddylai'r posibilrwydd y gall fod rhaid iddynt roi ymrwymiad o ran iawndal, er enghraifft pe bai eu hysbysiad gorfodi yn cael ei ddiddymu yn y pen draw, atal yr ACLl rhag gwneud cais i'r Llysoedd am Orchymyn o dan adran 289(4A). Yng ngoleuni ymagwedd T'r Arglwyddi at achosion yr awdurdodau lleol yn achos **Kirklees MBC v Wickes Building Supplies Cyf** [1993] AC 227, mae'n ymddangos ei bod yn ddigon tebygol na fyddai'r Llys yn mynnu bod yr ACLl yn rhoi ymrwymiad o'r fath. Fel arall, gallai'r ACLl gynnig ymrwymiad, er bod yr hysbysiad gorfodi yn dod i rym ar unwaith, na fyddent yn ceisio erlyn mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag ef, neu weithredu eu pwerau yn adran 178 o Ddeddf 1990, nes i'r ymgyfreithiad gael ei benderfynu o'u plaid, neu nes i'r apêl gael ei hail-benderfynu ac i'r hysbysiad gorfodi cael ei gadarnhau fel y bo'n wir, a nes i'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio dod i ben, gan ddechrau o'r naill neu'r llall o'r dyddiadau hynny fel y bo'n briodol.

2.51 Lle bo'r penderfyniad terfynol ar apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi wedi'i ohirio'n sylweddol gan ymgyfreithiad, neu am unrhyw reswm arall, dylai'r ACLl sicrhau nad yw treigl amser yn atal eu gallu yn y dyfodol i reoli'r toriad honedig o reolau cynllunio y mae eu hysbysiad yn cyfeirio ato, os a phryd y caiff yr apêl yn erbyn yr hysbysiad hwnnw ei benderfynu'n derfynol. O fewn pedair blynedd o'r dyddiad pryd y cymerodd yr ACLl gamau gorfodi cyntaf, mae'n agored iddynt gymryd camau gorfodi pellach o dan yr hyn sydd wedi'i alw'n "ddarpariaeth ail gyfle" yn adran 171B(4)(b) (gweler paragraff 2.5 o'r Atodiad hwn). Gan hynny, o fewn pedair blynedd o gymryd camau gorfodi am y tro cyntaf mewn perthynas ag ef, fel arfer ni all unrhyw ddefnydd, gweithrediad neu fater arall ddod yn "gyfreithlon" o fewn ystyr adran 191(2) neu (3) o Ddeddf 1990, oherwydd, yn rhinwedd y "ddarpariaeth ail gyfle", mae'n bosibl na fydd yr amser ar gyfer cymryd camau gorfodi (pellach) mewn perthynas â'r defnydd, y gweithrediad neu'r mater arall hwnnw, wedi dod i ben erbyn hynny (gweler adran 191(2)(a) a (3)(a)). Yr eithriad i hyn fydd yr achosion hynny lle bo apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi blaenorol wedi llwyddo ar unrhyw un o'r seiliau yn adran 171(4) (2)(a), (c) neu (d), neu lle bo caniatâd cynllunio wedi'i roi wedyn ar gyfer y mater o dan sylw. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n glir na fyddai'n agored i'r ACLl gymryd camau gorfodi pellach. Er hynny, lle bo hysbysiad gorfodi eto i gymryd grym, am fod apêl yn ei erbyn yn dal ar y gweill, mae'n bosibl nad edrychid arno fel pe bai "mewn grym" at ddibenion adran 191(2)(b) a (3)(b); a lle bo cyfnod o fwy na phedair blynedd wedi dod i ben ers rhoi'r hysbysiad hwnnw, heb fod hysbysiad pellach wedi'i roi o dan y "ddarpariaeth ail gyfle", mae'n bosibl y bydd treigl amser, erbyn hynny, wedi peri bod y defnydd, y gweithrediad neu'r mater arall y mae'r hysbysiad gorfodi sy'n dal ar y gweill yn cyfeirio ato, yn gyfreithlon at ddibenion adran 191(2) neu (3), fel y bo'n wir, yn rhinwedd y terfynau amser arferol ar gyfer cymryd camau gorfodi. O dan yr amgylchiadau hyn, gall fod yn anodd gwrthsefyll cais dilynol am TDC, a wneir cyn i'r hysbysiad gorfodi sydd dal ar y gweill ddod i rym. Ar hyn o bryd nid oes awdurdod barnwnol ar y cwestiwn a fyddai TDC a roddid o dan yr amgylchiadau hyn yn amddiffyniad yn erbyn hysbysiad gorfodi a roddwyd cyn y dyddiad a bennid yn y TDC honno, ond yn dod i rym ar ôl hynny. Mae angen i ACLl fod yn ymwybodol o'r anhawster posibl hwn lle bo apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi heb ei datrys am bron pedair blynedd, a hynny yn sgil ymgyfreithiad hirfaith fel arfer, a defnyddio darpariaethau adrannau 171B(4)(b) a/neu 289(4A) yn gyflym er mwyn diogelu eu gallu parhaus i adfer y toriad honedig o reolau cynllunio.

Gorfodi amodau a osodwyd ar ganiatâd am ddatblygiad gweithrediadol

2.52 Mae paragraff 29 o'r Atodiad i Gylchlythyr 35/95 y Swyddfa Gymreig, ar ddefnyddio amodau mewn caniatadau cynllunio, ynghyd â'i droednodyn esboniadol, yn tynnu sylw at oblygiadau dyfarniad y Llys Apêl yn achos **Handoll ac Eraill v Warner Goodman a Streat (Cwmni) ac Eraill** [1995] JPL 930.

2.53 Lle bo'r ACLl ei hunan yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, awgrymir y dylai'r swyddog archwilio cyfrifol gydgysylltu'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran Gynllunio, i osgoi'r angen i'r ddwy Adran archwilio'r datblygiad. Mewn achosion eraill, bydd angen i Adran Gynllunio'r Awdurdod wneud eu harchwiliad manwl eu hunain fod y datblygiad yn cydymffurfio â'r cynlluniau a gymeradwyid. Gan hynny gall dyfarniad y Llys Apêl ddwyn goblygiadau ar gyfer trefniadaeth weinyddol y gwaith yn yr awdurdodau hynny nad ydynt eisoes yn cynnal yr archwiliadau hyn fel rhan o'r drefn, ond yn dibynnu yn hytrach ar eraill i roi gwybod neu i gwyno am unrhyw fethiant i gydymffurfio â chynlluniau a gymeradwywyd. Ni fydd methiannau o'r fath o reidrwydd yn ysgogi cwynion, ond gallant olygu bod unrhyw amodau a osodwyd ar y caniatâd yn amhosibl i'w gorfodi.

2.54 Mater o ffaith a gradd ym mhob achos yw a yw gwyriad oddi wrth gynllun a gymeradwywyd yn ddigon arwyddocaol i beri bod y datblygiad cyfan yn torri'r rheolau cynllunio. Yn achos **Handoll**, ac yn achos **Kerrier DC** a gafodd ei wyrdroi ganddo, yr oedd y gwyriadau o'r cynlluniau a gymeradwywyd yn glir i'w gweld o fwrw cipolwg ar y datblygiad.

2.55 Fel a esbonnir yn llawnach yn Atodiad 4, gall **unrhyw** amod a osodir ar ganiatâd cynllunio cael ei orfodi, o fewn y terfynau amser priodol, drwy ddefnyddio naill ai hysbysiad gorfodi (sy'n honni bod amod wedi'i dorri) neu hysbysiad torri amodau neu'r ddau.

Gorfodi rheolau adeilad rhestredig

2.56 Diwygiodd atodlen 3 (paragraffau 2 i 6) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 ("Deddf 1991") y darpariaethau gorfodi adeilad rhestredig yn adrannau 38 i 43 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf Adeiladau Rhestredig"). Cyflwynodd paragraff 8 o Atodlen 3 adran 65(3A) newydd a diwygio adran 65(5) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig i adlewyrchu newidiadau yn y gyfundrefn gorfodi cynllunio yn adran 289(4A) a (6) o Ddeddf 1990 (gweler paragraffau 2.48 - 2.50 uchod). Yn benodol dylid nodi bod Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio (ISBN 0-7504-1839-7, pris £10) a Chylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth" (ISBN 1-85760-097-5), y gellir eu cael o Siopau Hyfrau'r Llyfrfa, yn rhoi canllawiau polisi penodol a chanllawiau eraill ar reolau adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys eu gorfodi. Mae'r prif wahaniaethau rhwng gorfodi rheolau cynllunio a gorfodi rheolau adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth fel a ganlyn: nid yw ceisiadau caniatâd adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, nac apelau o dan adran 39 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn dwyn unrhyw ffi geisiadau; nid oes unrhyw derfynau amser ar gyfer cyflwyno hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig neu ardaloedd cadwraeth; mae cyflawni gwaith heb y caniatâd adeilad rhestredig neu'r caniatâd ardal gadwraeth angenrheidiol, neu fethu â chydymffurfio ag amod sydd wedi'i ychwanegu at y caniatâd hwnnw, yn drosedd o dan adran 9 o'r Ddeddf honno, p'un ai yw hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno gyntaf neu feidio; ac ni threfnir byth bod caniatadau adeiladau rhestredig ac cadwraeth yn ôl-syllol.

Gorfodi rheolau cynllunio mwynau

2.57 Yn ei adroddiad, "Enforcing Planning Control", cydnabu Robert Carnwarth CF, fel yr oedd ar y pryd, fod rheolau cynllunio mwynau wedi hen ymsefydlu fel rhan o'r system gynllunio ac nid argymhellodd ddiwygiadau arbennig i'r darpariaethau gorfodi ynglŷn â mwynau. Ond mae gweithio mwynau'n ddiawdurdod yn peri problemau penodol. Gall niwed i amwynder, sydd weithiau'n ddi-droi'n-ôl, gael ei achosi'n gyflym iawn. Gan hynny mae angen i ACLl allu atal gweithgarwch diawdurdod ar unwaith ar ôl ei weld. Tynnir sylw'r ACLl at adran 184(3) sy'n galluogi hysbysiad stop i ddod i rym ar unwaith lle bo rhesymau arbennig yn cyfiawnhau hynny (gweler paragraff 3.29 o Atodiad 3). Er ei bod yn ddigon posibl y bydd angen camau gorfodi ffurfiol lle bo gwaith mwynau diawdurdod ar y gweill, neu lle bo gwaith awdurdodedig yn cael ei wneud ond nad yw'r amodau cynllunio yn cael eu cadw, mae'n well bod y cysylltiadau a'r trafodaethau arferol rhwng yr ACLl a'r gweithredwyr yn ddigon da i osgoi toriadau o'r rheolau cynllunio. Y ffordd orau o drin unrhyw broblemau yw trafod a chydweithredu yn y lle cyntaf.

Gorchmynion cadw coed: gorfodi Y ddyletswydd i amnewid coed

2.58 O dan adran 206 o Ddeddf 1990, gosodir tirfeddianwyr o dan ddyletswydd i amnewid coed sy'n cael eu diogelu drwy orchmynion diogelu coed (GCC) o dan rai amgylchiadau. Mae'r ddyletswydd yn codi lle gwaredir coeden yn groes i GCC neu am ei bod wedi marw, yn marw, neu am ei bod yn beryglus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r tirfeddiannwr blannu coeden arall o faint a rhywogaeth briodol yn yr un lle cyn gynted ag y bo'n rhesymol iddo wneud hynny. Mae'r ddyletswydd yn trosglwyddo i'r perchennog newydd lle bo'r tir o dan sylw yn newid dwylo. Mae coed sy'n cael eu plannu yn unol â'r ddyletswydd yn cael eu diogelu'n awtomatig gan y GCC gwreiddiol, hyd yn oed os rhywogaethau gwahanol ydynt.

2.59 Mewn perthynas â choed ar goetiroedd, dim ond lle gwaredir y coed yn groes i'r GCC y mae'r ddyletswydd yn codi. Gellir cydymffurfio â hi drwy blannu'r un nifer o goed amnewid ar y tir yr oedd y coed gwreiddiol yn sefyll arno neu wrth ei ymyl, neu ar dir arall y cytunir arno rhwng yr ACLl a'r tirfeddiannwr, ac yn y lleoedd y mae'r ACLl yn eu dynodi.

2.60 Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys lle bo'r ACLl, ar gais y tirfeddiannwr, yn ei hanwybyddu. Wrth ymdrin â cheisiadau i anwybyddu'r ddyletswydd, dylai'r ACLl roi eu penderfyniad yn ysgrifenedig, gan nodi eu rhesymau.

Gorfodi'r ddyletswydd

2.61 Os yw'n ymddangos i'r ACLl na chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd, gallant, cyn pen 4 blynedd ar ôl dyddiad y methiant honedig â chydymffurfio, ei gwneud yn ofynnol i goed amnewid gael eu plannu drwy gyflwyno hysbysiad i'r tirfeddiannwr o dan adran 207 o Ddeddf 1990 ("hysbysiad amnewid coeden"). Yn gyffredinol, dylai hysbysiad amnewid coeden ddweud wrth y tirfeddiannwr yr hyn sydd ym marn yr ACLl wedi arwain at y ddyletswydd a'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i gydymffurfio â hi. Dylai bennu maint a rhywogaeth y coed amnewid a chyfnod y mae'n rhaid cyflawni'r gwaith plannu o'i fewn. Rhaid iddo hefyd bennu cyfnod y bwriedir i'r hysbysiad ddod i rym ar ei ddiwedd; rhaid i'r cyfnod hwn beidio â bod yn llai na 28 diwrnod gan ddechrau o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad.

2.62 Pŵer disgresiynol yw'r pŵer i gyflwyno hysbysiad amnewid coed. Wrth benderfynu a ddylid ei ymarfer (ac wrth benderfynu sut i ymdrin â cheisiadau i anwybyddu'r dyletswydd), bydd yr ACLl am ystyried y materion amwynder, gan gynnwys yr effaith y mae gwaredu'r coed wedi'i chael ar yr amgylchedd lleol ac ar y ffordd y mae'r cyhoedd yn ei fwynhau. Bydd angen iddynt ystyried hefyd a fyddai'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i fynnu bod y tirfeddiannwr yn eu hamnewid. Dylent ystyried hefyd, yn achos coetiroedd, a fyddai eu hamnewid yn cyd-fynd ag arferion da coedwigaeth.

2.63 Nid trosedd yw methiant â chydymffurfio â hysbysiad amnewid coed. Os na phlennir coeden newydd o fewn y cyfnod penodedig (y gall yr ACLl ei estyn) gall yr ACLl fynd i mewn i'r tir, plannu'r goeden ac adennill oddi wrth y tirfeddiannwr unrhyw gostau rhesymol a dynnir. Bydd unrhyw un sy'n fwriadol yn atal person sy'n ymarfer y pŵer hwn yn euog o drosedd ac yn agored, o gael eu collfarnu'n ddiannod o drosedd hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).

Amodau caniatâd sy'n ei gwneud yn ofynnol amnewid coed

2.64 O dan delerau'r ffurf enghreifftiol o'r GCC, gall yr ACLl, wrth roi caniatâd i gwympo coeden, gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol ei hamnewid ag un neu ragor o goed ar y safle neu yn y cyffiniau agos. Os yw'n ymddangos i'r ACLl na chydymffurfiwyd ag amod o'r fath, gallant ei orfodi hefyd drwy gyflwyno hysbysiad amnewid coed o dan adran 207.

2.65 Nid yw Deddf 1990 yn darparu bod coed a blannwyd yn unol ag amod amnewid yn cael eu diogelu'n awtomatig drwy'r GCC y rhoddwyd y caniatâd odano. Lle bo'r coed a gwympwyd yn cynnwys y cyfan neu ran o goetir, a bod y coed amnewid wedi'u plannu o fewn y man coetir a ddiffinnir gan y GCC, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried eu bod yn cael eu diogelu gan y GCC. Mewn achosion eraill, gall y bydd angen GCC newydd i ddiogelu'r coed amnewid.

Gorfodi amnewid coed mewn ardaloedd cadwraeth

2.66 Mae dyletswydd debyg i'r un a ddisgrifiwyd uchod yn gymwys lle gwaredir coed mewn ardaloedd cadwraeth yn groes i'r rheolau sy'n ymwneud â'r ardaloedd hynny (gweler adran 211 a 212 o'r Ddeddf) neu am eu bod wedi marw, yn marw neu'n beryglus. Gall y ddyletswydd honno gael ei gorfodi hefyd drwy gyflwyno hysbysiad amnewid coed o dan adran 207.

Apelau

2.67 Gall person apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn hysbysiad amnewid coed. Mae adran 208 o Ddeddf 1990, fel y'i diwygiwyd, yn rhoi pum sail dros apelio, sef:

(1) nad yw darpariaethau'r ddyletswydd o dan adran 206 neu, fel y bo'n briodol, amod y caniatâd yn gymwys neu y cydymffurfiwyd â hwy;
(2) y dylid anwybyddu'r ddyletswydd o dan holl amgylchiadau'r achos;
(3) bod gofynion yr hysbysiad yn afresymol mewn perthynas â'r cyfnod neu faint neu rywogaeth y coed sydd wedi'u henwi ynddo;
(4) nad oes angen plannu yn unol â'r hysbysiad er lles yr amwynder neu y byddai'n groes i arferion da coedwigaeth;
(5) bod y lle y mae angen plannu'r goeden neu'r coed ynddo yn anaddas at y diben hwnnw.

2.68 Rhaid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig **cyn bod yr hysbysiad amnewid coed yn dod i rym. Terfyn amser di-amod yw hwn; nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddisgresiwn i dderbyn apelau hwyr.** Cynghorir ACLl, wrth iddynt gyflwyno hysbysiad amnewid coed, i'w gwneud yn glir i'r tirfeddiannwr fod rhaid postio unrhyw apêl a *anfonir* at yr Ysgrifennydd Gwladol (nid at yr Arolygwyr Cynllunio) mewn pryd, drwy'r post arferol, cyn y dyddiad y dywedir y bydd yr hysbysiad yn dod i rym.

2.69 Mae gan yr apelydd a'r ACLl yr hawl i ymddangos gerbron person a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a chael eu gwrando ganddo. Serch hynny, yn y mwyafrif o achosion bydd y Swyddfa yn awgrymu y dylid ymdrin â'r apêl drwy gyfnewid sylwadau ysgrifenedig, ac ymweliad â'r safle ar ôl hynny.

2.70 Fel yn achos hysbysiadau gorfodi cynllunio, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer, yn yr adran 208(7) ddiwygiedig, i gywiro diffygion, camgymeriadau neu gamddisgrifiadau mewn hysbysiad amnewid coed neu i amrywio ei ofynion, os caiff ei fodloni fod modd iddo wneud hynny heb achosi anghyfiawnder i'r naill barti neu'r llall. Nid yw ei bŵer yn ymestyn at gywiro hysbysiad sydd mor sylfaenol ddiffygiol fel y byddai ei gywiro yn arwain at hysbysiad a fyddai'n sylweddol wahanol. Mae dilyn y dylid drafftio'r hysbysiad â gofal. Gwelir ffurf enghreifftiol ar hysbysiad amnewid coed yn Atodiad 4.

2.71 Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol roi penderfyniad ar yr apêl, gall y naill barti neu'r llall geisio caniatâd i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn y penderfyniad ar bwynt cyfreithiol. Mae Rheolau'r Llys yn darparu bod rhaid i'r apêl gael ei wneud cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad, er y gall y Llys ganiatáu cyfnod hwy yn ôl eu disgresiwn.

Costau

2.72 Fel rheol, er y disgwylir i'r partïon mewn apêl dalu eu costau eu hunain, gall y naill barti neu'r llall gyflwyno cais am gostau, p'un ai ymdriniwyd â'r apêl drwy sylwadau ysgrifenedig ynteu gwrandawiad/ymchwiliad lleol. Er hynny, dim ond os dangosir bod y naill barti wedi ymddwyn yn afresymol yn y broses apelio, gan achosi costau diangen i'r llall, y dyfernir costau yn ei erbyn.

Gorchmynion cadw coed: cosbau

2.73 Mae unrhyw un sydd, yn groes i GCC:

(1) yn torri coeden i lawr, yn ei dadwreiddio neu'n ei difrodi'n fwriadol, neu

(2) yn fwriadol yn difrodi, brigdorri, neu'n tocio coeden mewn ffordd a fyddai'n debygol o'i difrodi, yn euog o drosedd o dan adran 210(1) o Ddeddf 1990 ac yn agored, ar ôl ei gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy o hyd at £20,000. Gellir rhoi'r drosedd ar brawf drwy ddditiad hefyd fel y gellir traddodi person i'w dreialu yn Llys y Goron mewn achosion difrifol ac, ar ôl cael ei gollfarnu, gall fod yn agored i ddirwy anghyfyngedig. Trosedd ddiamod yw hon y gellir ei chyflawni heb wybodaeth am fodolaeth y GCC. Nid oes rhaid i goeden gael ei difodi er mwyn cael ei "difrodi". Ym marn yr Uchel Lys yn **Barnet London Borough Council v Eastern Electricity Board** [1973] 1 WLR 430 dyfarnwyd y gellid dweud bod coeden wedi'i "difrodi" os, o ganlyniad i'r hyn a wnaed iddi, ei bod yn peidio â bod o ddefnydd fel amwynder, fel rhywbeth sy'n werth ei gadw.

2.74 Wrth benderfynu swm unrhyw ddirwy, mae'n ofynnol yn benodol i'r Llys roi sylw i unrhyw fudd ariannol a fydd wedi deillio o ganlyniad i'r drosedd, neu, a fyddai'n debyg o ddeillio, i'r person sydd wedi'i gollfarnu.

2.75 Mae'n drosedd lai o dan adran 210(4) o Ddeddf 1990 i dorri darpariaethau GCC mewn ffordd heblaw'r hyn y soniwyd amdano ym mharagraff 2.73 uchod. Er enghraifft, mae unrhyw un sy'n brigdorri coeden yn groes i GCC ond mewn ffordd sy'n annhebyg o arwain at ddifrodi'r goeden yn euog o'r drosedd hon ac yn agored, ar ôl ei gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

2.76 Mae paragraffau 60 a 63 o Gylchlythyr 64/78 Swyddfa Gymreig wedi'u dileu.

Gorfodi rheolau sylweddau peryglus

2.77 Mae Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau caniatâd sylweddau peryglus ar gyfer presenoldeb sylwedd peryglus mewn swm rheoledig ar dir. At ei gilydd mae'r darpariaethau ar gyfer gorfodi yn erbyn torri'r rheolau yn dilyn darpariaethau gorfodi cynllunio, cyn belled ag y bo'n briodol. Mae torri rheolau sylweddau peryglus ynddo'i hun yn drosedd. Ceir cyngor llawnach ar ddarpariaethau gorfodi sylweddau peryglus yng Nghylchlythyr 20/92 y Swyddfa Gymreig.

Asesiad amgylcheddol

2.78 Yn ôl Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Amgylcheddol a Datblygu Diawdurdod) 1995 (OS 1995/2258) mae'n ofynnol darparu datganiad amgylcheddol (DA) ar gyfer datblygiad diawdurdod honedig sydd o fewn Atodlen 1 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 1988 (OS 1988/1199) neu o fewn Atodlen 2 ac sy'n debyg o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd yn rhinwedd ei natur, ei faint neu ei leoliad. Mae'r gofynion hyn eisoes yn gymwys i geisiadau ac apelau cynllunio. Wrth roi hysbysiad gorfodi, dylai'r ACLl ystyried a yw'r datblygiad diawdurdod yn gofyn am asesiad amgylcheddol. Os yw'n ymddangos bod angen asesiad amgylcheddol, cyflwynir hysbysiad "rheoliad 4" sy'n pennu'r disgrifiad o'r datblygiad. Mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r person sy'n hysbysu apêl o dan adran 174 o Ddeddf 1990 gyflwyno 4 copi o DA. Bydd yr ACLl yn anfon copi o'r hysbysiad "rheoliad 4" at yr Ysgrifennydd Gwladol a chyrff statudol eraill sydd wedi'u rhestru yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau. Gall derbynnydd yr hysbysiad "rheoliad 4" geisio cyfarwyddyd pellach ynglŷn â'r angen am asesiad amgylcheddol o dan reoliad 5. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau bod angen AS a bod yr apelydd yn methu â darparu un o fewn yr amserlen benodedig, bydd y cais tybiedig a'r apêl ar sail (a), os oes un, yn dod i ben.

2.79 Rhoddir canllawiau manwl ar weithredu'r Rheoliadau yng Nghylchlythyr 39/95 y Swyddfa Gymreig: The Town and Country Planning (Environmental Assessment and Unauthorised Development) Regulations 1995. Rhoddir canllawiau ar baratoi datganiadau amgylcheddol yn "Preparation of Environmental Statements for Planning Projects that Require Environmental Assessment: A Good Practice Guide" a gyhoeddwyd gan Y Llyfrfa, ISBN 0-11-753207-X.

Dehongli "substantially completed" yn adran 171B(1) o Ddeddf 1990

2.80 Rhoes y term "substantially completed" yn adran 171B(1) o Ddeddf 1990 ddehongliad y Llysoedd o ddarpariaethau adran 172(4)(a), fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, ynghylch y dyddiad pryd y mae'r cyfnod o bedair blynedd y gellir cymryd camau gorfodi o'i fewn mewn perthynas â datblygiad gweithrediadol diawdurdod yn dechrau, a hynny er mwyn osgoi amheuaeth. Sefydlodd yr awdurdod barnwrol yn achos **Ewen Developments Cyf v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd** [1980] JPL 404 nad yw'r cyfnod o bedair blynedd, yn achos un gweithrediad, megis codi tŷ, yn dechrau nes bod y gweithrediad cyflawn wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Mater o ffaith a gradd bob amser yw beth sydd wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Felly nid oes modd diffinio'i union beth yw ystyr y term "substantially completed". Yn achos tŷ, gellir dadlau nad yw wedi'i gwblhau i raddau helaeth nes bod yr holl waliau allanol, y teiliau ar y to, y gwaith coed, y landeri a'i ffenestri wedi'u gorffen;

ond gellid cymryd ei fod wedi'i chwblhau i raddau helaeth os nad oes ond rhywfaint o waith plastro neu addurno mewnol, neu waith addurno allanol, ar ôl i'w wneud, yn arbennig os dechreuwyd defnyddio'r adeilad at ei ddiben arfaethedig. Rhaid ystyried yr amgylchiadau perthnasol ym mhob achos.

Dehongli "use as a single dwelling house"

2.81 Mae'n bwysig gwahaniaethu'r term "use as a single dwelling house", yn adran 171B(2), o'r hyn y gellid edrych arno fel rheol fel *bod* yn un tŷ annedd. Mae profiad wedi awgrymu y gall pobl, ar adegau, addasu, neu ddefnyddio, adeiladau neu strwythurau annhebygol neu anarferol fel eu cartref neu eu tŷ annedd er hynny, ac er nad oes diffiniad o beth yw tŷ annedd, mae'r Llysoedd wedi dyfarnu eu bod yn bosibl i'r person rhesymol adnabod un pan fydd yn ei weld. Os na fyddai person rhesymol yn edrych ar y strwythur penodol sy'n cael ei ddefnyddio fel tŷ annedd a'i adnabod fel un, gellir cyfiawnhau dod i'r casgliad, fel mater o ffaith, nad tŷ annedd mohono. O dan yr amgylchiadau hyn, er y gallai ei *ddefnydd* fel tŷ annedd fod yn imwn rhag camau gorfodi, nid t annedd fel y cyfryw mohono ac, felly, ni fyddai byth yn mwynhau manteision hawliau "datblygu a ganiateir" o dan Erthygl 3 o Rhan I o Atodlen 2 o'r GPDO. Mae'r Swyddfa o'r farn y gall fflat gael ei defnyddio fel un tŷ annedd o dan rai amgylchiadau, heb ennill hawliau "datblygu a ganiateir" o dan y GPDO fel y cyfryw, am fod Erthygl 1(1) o'r GPDO yn eu hepgor yn benodol o'r diffiniad o "dŷ annedd" at ddibenion y GPDO. At ddibenion Deddf 1990, lle bo adran 336(1) yn diffinio "adeilad" fel pe bai'n cynnwys unrhyw ran o adeilad, cymerir y farn y gellir *defnyddio* fflat fel un tŷ annedd, p'un a edrychid arni fel *pe bai* yn un tŷ annedd ai peidio (gweler **Doncaster MBC v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Dunhill** [1993] JPL 565). Bernir bod y meini prawf ar gyfer penderfynu defnydd fel un tŷ annedd yn cynnwys cyflwr ffisegol yr adeilad a dull y defnydd. Lle bo un rhan hunan-gynhwysol o adeilad yn uned o feddiannaeth, y gellir edrych arni fel "uned gynllunio" ar wahân i unrhyw ran arall o'r adeilad sy'n ei chynnwys; lle bo wedi'i dylunio neu wedi'i haddasu at ddibenion preswyl, gan gynnwys y cyfleusterau arferol ar gyfer coginio, bwyta a chysgu sy'n gysylltiedig â defnydd fel tŷ annedd; a lle caiff ei defnyddio fel annedd, yn barhaol neu dros dro, gan un person neu fwy nag un person yn bwy gyda'i gilydd fel, neu yn debyg i un teulu, mae'n briodol edrych ar yr adeilad hwnnw fel pe bai'n cael ei ddefnyddio fel un tŷ annedd at ddibenion y Ddeddf. Ni fyddai'r dehongliad hwn yn cynnwys dibenion megis ystafelloedd byw-a-chysgu, lle bo'r deiliaid yn rhannu rhai cyfleusterau cymunol o fewn yr adeilad, megis ystafell ymolchi neu d bach, pan fo'n debyg mai'r adeilad cyfan yw'r "uned gynllunio", yn cael eu defnyddio at ddibenion meddiannaeth breswyl lluosog, yn hytrach na phob uned unigol o lety.

Cosbau am droseddau hysbysiadau gorfodi

2.82 Os nad oes unrhyw gam sy'n angenrheidiol o dan yr hysbysiad wedi'i gymryd ar unrhyw adeg ar ôl cyfnod ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad gorfodi, mae adran 179 o Ddeddf 1990 yn darparu bod trosedd wedi'i gyflawni. Gellir cyhuddo o drosedd drwy gyfeirio at unrhyw ddiwrnod neu gyfnod hirach, a gellir collfarnu person am ail drosedd neu drosedd dilynol drwy gyfeirio at unrhyw gyfnod o amser. Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy nag £20,000, neu ar gollfarniad ar ddiddiad i ddirwy ddiderfyn. Wrth benderfynu swm unrhyw ddirwy, rhaid i'r Llys roi sylw i unrhyw fantais ariannol sydd wedi cronni neu sy'n ymddangos yn debygol o gronni o ganlyniad i'r trosedd. Gan hynny, dylai'r awdurdodau sy'n erlyn bob amser fod yn barod i roi unrhyw fanylion sydd ar gael ynghylch yr elw sy'n deillio, neu sy'n debygol o ddeillio, o'r trosedd, er mwyn i'r Llys cael eu cymryd i ystyriaeth.

Rhybuddio troseddwyr honedig

2.83 Wrth ymchwilio i'r ffeithiau cyn cychwyn unrhyw achos, dylai ACLl roi sylw i ddarpariaethau adrannau 66 a 67(9) o Ddeddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 o ran rhybuddio troseddwyr honedig.

Pwerau "diofynnu" yr ACLl

2.84 Mae diwygiadau, a wnaed gan adran 7 o Ddeddf 1991, i adran 178 o Ddeddf 1990 yn ymestyn yn sylweddol ar bwerau "diofynnu" yr ACLl i fynd i fewn i dir hysbysiad gorfodi a chyflawni gofynion yr hysbysiad eu hunain; a darparu ar gyfer trosedd newydd o atal yn fwriadol unrhyw un sy'n ymarfer y pwerau hynny ar ran yr ACLl. Fel yn achos y diwygiadau a wnaed drwy Atodlen 3 i Ddeddf 1991 mewn perthynas â'r pwerau cyfatebol yn adran 42 o'r

Ddeddf Adeiladau Rhestredig, mae'r pŵer diwygiedig yn galluogi'r ACLl i gyflawni *unrhyw* gamau angenrheidiol o dan yr hysbysiad gorfodi, gan gynnwys y cyfryw gamau i roi'r gorau i ddefnydd ar y tir (sydd yn rhinwedd rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 (OS 1995/2863) yn cynnwys rhoi'r gorau i weithrediadau mwyngloddio) a'r cyfryw gamau i beri bod y datblygiad yn cydymffurfio â thelerau unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd mewn perthynas â'r tir, neu i ddileu neu liniaru unrhyw niwed i amwynder a barwyd gan y datblygiad.

2.85 Gallai'r cyfeiriad blaenorol, yn adran 178(1), at gamau heblaw rhoi'r gorau i ddefnydd ar dir, gyfyngu ar ymdrechion ACLl i atal defnydd anghyfreithlon ar dir. Nid yw'r ddarpariaeth ddiwygiedig yn golygu y gall yr ACLl ei hunan atal y defnydd anghyfreithlon (oherwydd dim ond y person sydd mewn gwirionedd yn cyflawni'r defnydd a all ei atal yn llwyr). Ond, er enghraifft, lle bo'n rhaid rhoi'r gorau i ddefnydd at ddibenion storio, a ph'un a yw'r hysbysiad yn mynnu symud yr eitemau a storiwyd yn benodol ai peidio, mae bellach yn agored i'r ACLl symud yr eitemau hynny fel cam tuag at roi'r gorau i'r defnydd a pharhau i symud eitemau o'r fath a fydd yn ymddangos ar y tir. Lle bo hysbysiad, yn lle ei gwneud yn ofynnol bod adeilad diawdurdod cyfan yn cael ei dynnu, yn ei gwneud yn ofynnol addasu'r adeilad, er mwyn dileu neu liniaru niwed i amwynder, neu beri bod yr adeilad yn cydymffurfio â thelerau caniatâd cynllunio a roddwyd i godi adeilad tebyg ar y tir, bellach gall yr ACLl gwneud y gwaith hwnnw eu hunain. (O'r blaen, cyfyngid pwerau diofynnu yr ACLl i gymryd camau a fynnid gan yr hysbysiad er mwyn adfer y toriad yn y rheolau cynllunio).

2.86 Bwriad y diwygiadau hyn oedd dileu unrhyw amheuaeth ynghylch cwmpas pwerau diofynnu yr ACLl, ac annog a hwyluso eu defnydd, pan fo dulliau eraill, gan gynnwys erlyn am drosedd, wedi methu â pherswadio perchennog neu ddeiliad y tir i gyflawni unrhyw un o'r camau sy'n angenrheidiol yn yr hysbysiad gorfodi er boddhad yr ACLl. Gall yr ACLl adennill oddi ar y person sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir, unrhyw gostau a dynnwyd yn rhesymol ganddynt wrth wneud hynny. Mae rheoliad 14(2) o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (OS 1992/1492) yn darparu bod unrhyw gostau o'r fath, nes eu hadennill yn arwystl ar y tir sy'n rhwymo'r perchnogion olynol. Bernir y gellir cofrestru arwystl o'r fath fel pridiant dir lleol o dan adran 11a o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975; ac yn rhinwedd adran 7 o'r Ddeddf honno, mae arwystl o'r fath wedyn yn rhoi i'r ACLl bwerau morgeisiai-mewn-meddiant, i orchymyn gwerthu'r tir ei hunain, neu i benodi derbynnydd er mwyn adennill eu costau o'r elw, os bydd angen hynny. Mae ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan y Swyddfa wedi awgrymu bod y mwyafrif o awdurdodau wedi llwyddo i adennill costau o'r fath yn llawn, fel dyled seml o dan y gyfraith gyffredin, heb yr angen i ddefnyddio'r pwerau hyn. Mae rheoliad 14(1) o Reolidau Cyffredinol 1992 yn darparu'r pwerau, y cyfyngiadau a'r hawliau eraill y cyfeirir atynt yn adran 178(3) a (4).

2.87 Mae llawer o ACLl wedi canfod bod ymarfer eu pwerau yn adran 178, os methir â chydymffurfio â gofynion hysbysiad gorfodi, yn ffordd gyflymach a mwy cost-effeithiol o adfer toriad mewn rheolau cynllunio na chychwyn erlyniadau dilynol o dan adran 179 yn unig, a all lyncu llawer o amser. Mae ACLl â phrofiad o weithredu'r darpariaethau hyn wedi tynnu sylw at yr angen achlysurol i drefnu bod yr heddlu yn bresennol, i atal unrhyw dor-heddwch ar ran perchnogion neu ddeiliaid a dramgwyddir neu i drafod hynny, ac i sicrhau na chaiff eu swyddogion a'u contractwyr eu hatal na'u hymosod arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Yn dibynnu ar amgylchiadau penodol bob achos, gall fod yn ddoeth hefyd darparu rhyw fath o ddillad amddiffynnol i swyddogion a pheidio â rhoi cyhoeddusrwydd ymlaen llaw i unrhyw gynnig i weithredu pwerau diofynnu adran 178. Mae'n ddigon posibl y bydd cyhoeddusrwydd addas ar **ôl y digwyddiad** yn rhybudd iach o benderfyniad yr ACLl i eraill a all fod yn ystyried torri'r rheolau cynllunio.

2.88 Mae rhai ACLl wedi rhoi gwybod am enghreifftiau o fygythiadau wedi'u cyfeirio at swyddogion ac aelodau unigol sy'n gyfrifol am orfodi neu benderfynu gorfodi rheolaeth gynllunio. Prin yw'r achosion hyn. Lle gwneir bygythiadau, neu lle ceir trais yn erbyn swyddogion, aelodau unigol, eu teuluoedd neu eu heiddo, gall ACLl ystyried ymarfer eu pwerau o dan adrannau 111 neu 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'u diwygiwyd gan adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, i dynnu'r gwariant sy'n angenrheidiol i dalu iawndal i'r swyddogion neu'r aelodau hynny y mae angen iddynt ddwyn erlyniadau preifat neu ofyn am waharddeb yn erbyn y gweithredwyr, os nad yw'n briodol i'r ACLl gychwyn achos o'r fath yn eu henw eu hunain, drwy ymarfer eu pwerau yn adran 222 o Ddeddf 1972.

Cyfrifoldeb yr ACLl, drwy ymgynghori â'u hymgynghorwyr cyfreithiol, yw penderfynu a fyddai deddfwriaeth adran 111, 137 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall yn briodol yn amgylchiadau unrhyw achos penodol. Lle dygir achos yn erbyn swyddog neu aelod, bwriedir i adran 265 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875, fel y'i diwygiwyd ac fel y'i hestynnwyd, eu diogelu rhag atebolrwydd personol wrth weithredu mewn swyddogaeth bona fide dros yr awdurdod.

Y ffi sy'n daladwy am gais cynllunio tybiedig yn codi o apêl orfodi

2.89 Trafodir y darpariaethau ynghylch ffioedd am geisiadau tybiedig mewn apelau gorfodi yn Atodiadau 1 a 2 yng Nghylchlythyr 73/92 y Swyddfa Gymreig. Dylid nodi bod y symiau penodol y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 o'r Atodiad hwnnw wedi'u codi ac maent wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) 1997 (OS 1997/37) sydd mewn grym ar hyn o bryd, a'u bod yn dibynnu ar adolygiadau pellach o'r Rheoliadau Ffioedd o bryd i'w gilydd.

HYSBYSIAD GORFODI ENGHREIFFTIOL - DATBLYGIAD GWEITHREDIADOL

PWYSIG - MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

HYSBYSIAD GORFODI

RHODDWYD GAN: [*enw'r Cyngor*]

1. **RHODDWYD YR HYSBYSIAD** hwn gan y Cyngor am ei fod yn ymddangos iddynt fod y rheolau cynllunio wedi'u torri, o fewn paragraff (a) o adran 171A(1) o'r Ddeddf uchod, ar y tir a ddisgrifir isod. Maent o'r farn ei bod yn fanteisiol rhoi'r hysbysiad, gan roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu ac i ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Mae'r Atodiad ar ddiwedd yr hysbysiad a'r papurau amgaeedig y cyfeirir atynt yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol bwysig.

2. **Y TIR Y MAE'R HYSBYSIAD YN CYFEIRIO ATO**
Tir yn [*cyfeiriad y tir*], a ddangosir ag ymylon coch ar y plan amgaeedig.

3. **Y MATERION Y MAE'N YMDDANGOS MAI HWY YW'R TORIAD RHEOLAU CYNLLUNIO**

Heb ganiatâd cynllunio, codi adeilad un-llawr o friciau, ac adeiladu dreif yn arwain ato, yn fras yn y fan a nodir â chroes ar y plan amgaeedig.

4. **Y RHESYMAU DROS ROI'R HYSBYSIAD HWN**

Mae'n ymddangos i'r Cyngor fod y toriad uchod o'r rheolau cynllunio wedi digwydd o fewn y pedair blynedd diwethaf. Cafodd yr adeilad o dan sylw ei gwblhau i raddau helaeth llai na phedair blynedd yn ôl. Mae'r adeilad yn edrych yn debyg i dŷannedd, ac mae'n ymddangos ei fod wedi'i ddylunio fel tŷannedd. Mae'r safle o fewn y llain las a gymeradwywyd â chyda rhai eithriadau nad ydynt yn gymwys yn yr achos hwn, ceir rhagdybiaeth gref yn erbyn unrhyw ddatblygiad yno. Mae'r adeilad yn ymddangos fel ymyriad yn y tirlun gwledig hwn sydd fel arall yn agored yn bennaf. Mae'n mynd yn groes i bolisïau yn y cynllun datblygu ac yn amharu ar amwynderau gweledol yr ardal. Nid yw'r Cyngor o'r farn y dylid rhoi caniatâd cynllunio, am na allai amodau cynllunio goresgyn y gwrthwynebiadau hyn i'r datblygiad.

5. **YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD**

(i) Dileu'r adeilad a'r dreif.
(ii) Symud oddi ar y tir yr holl ddeunyddiau adeiladu a rwbel yn sgil cydymffurfio â gofyniad (i) uchod, ac adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r rheol gael ei thorri drwy wastatáu'r tir a'i ail-hadu â glaswellt.

6. **AMSER AR GYFER CYDYMFFURFIO:**
(i) 12 wythnos ar ôl i'r hysbysiad hwn ddod i rym.
(ii) 24 wythnos ar ôl i'r hysbysiad hwn ddod i rym.

7. **PRYD Y DAW'R HYSBYSIAD I RYM**

Daw'r hysbysiad hwn i rym ar [*dyddiad penodol, heb fod yn llai nag 28 diwrnod clir ar ôl y dyddiad rhoi*] , oni chaiff apêl ei gwneud yn ei erbyn cyn hynny.

Dyddiad: [*dyddiad rhoi*]

Llofnodwyd: [*swyddog awdurdodedig y Cyngor*]

ar ran: [*enw a chyfeiriad y Cyngor*]

EICH HAWL I APELIO

ATODIAD

Gallwch apelio yn erbyn yr hysbysiad hwn, ond rhaid i unrhyw apêl **ddod i law**, neu gael ei bostio mewn pryd i ddod i law, yr Ysgrifennydd Gwladol **cyn** y dyddiad a bennwyd ym mharagraff 7 o'r hysbysiad. Nodir eich hawliau yn y llyfryn amgaeedig "Enforcement Notice Appeals - A Guide to Procedure". Cewch ddefnyddio'r ffurflenni apelio amgaeedig.

(a) Mae un i chi ei hanfon i'r Ysgrifennydd Gwladol os penderfynwch apelio, ynghyd â chopi o'r hysbysiad gorfodi hwn.

(b) Dylid anfon yr ail gopi o'r ffurflen apelio a'r hysbysiad i'r Cyngor.

(c) I'ch cofnodion chi y mae'r trydydd copi.

BETH SY'N DIGWYDD OS NA FYDDWCH YN APELIO

Os na fyddwch yn apelio yn erbyn yr hysbysiad gorfodi hwn, bydd yn dod i rym ar y dyddiad a bennwyd ym mharagraff 7 o'r hysbysiad ac yna rhaid i chi sicrhau y cymerir y camau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio ag ef, y gellir eich dal chi'n gyfrifol amdanynt, o fewn y cyfnod[au] a bennwyd ym mharagraff 6 o'r hysbysiad. Gall methu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi sydd wedi dod i rym arwain at erlyniad a/neu gamau adferol gan y Cyngor.

HYSBYSIAD GORFODI ENGHREIFFTIOL - NEWID DEFNYDD SYLWEDDOL

PWYSIG - MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

HYSBYSIAD GORFODI

RHODDWYD GAN: *[enw'r Cyngor]*

1. **RHODDWYD YR HYSBYSIAD HWN** gan y Cyngor am ei bod yn ymddangos iddynt fod y rheolau cynllunio wedi'u torri, o fewn paragraff (a) o adran 171A(1) o'r Ddeddf uchod, yn y tir a ddisgrifir uchod. Maent o'r farn ei bod yn fanteisiol rhoi'r hysbysiad hwn, gan roi sylw i'r darpariaethau yn y cynllun datblygu ac i ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Mae'r Atodiad ar ddiwedd yr hysbysiad a'r papurau amgaeedig y cyfeirir atynt yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol bwysig.

2. **Y TIR Y MAE'R HYSBYSIAD YN CYFEIRIO ATO**

Tir yn [*cyfeiriad y tir*], a ddangosir ag ymylon coch ar y plan amgaeedig.

3. **Y MATERION Y MAE'N YMDDANGOS MAI HWY YW'R TORIAD O REOLAU CYNLLUNIO**

Heb ganiatâd cynllunio, newid defnydd tir o ddefnydd ar gyfer amaethyddiaeth i ddefnydd cymysg ar gyfer amaethyddiaeth ac fel canolfan cludiant ffyrdd.

4. **Y RHESYMAU DROS ROI'R HYSBYSIAD HWN**

Mae'n ymddangos i'r Cyngor fod y toriad uchod o'r rheolau cynllunio wedi digwydd yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Nid yw'r defnydd diawdurdod fel canolfan cludiant ffyrdd yn ffordd briodol o ddefnyddio'r tir, sydd o fewn ardal wledig ac yn rhan o'r Llain Las a gymeradwywyd yn y cynllun datblygu. Eir at y safle ar hyd lonydd gwledig cul sy'n anaddas i'w defnyddio gan y math a'r nifer o gerbydau a ddenir gan y defnydd. Nid yw'r Cyngor o'r farn y dylid rhoi caniatâd cynllunio, am na allai amodau cynllunio goresgyn y gwrthwynebiadau hyn.

5. **YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD**

Rhoi'r gorau i ddefnyddio unrhyw ran o'r tir fel canolfan cludiant ffyrdd a symud o'r tir yr holl gerbydau ac offer a ddygwyd i'r tir at ddibenion y defnydd hwnnw.

(Cewch gadw ar y tir unrhyw offer a ddefnyddir gennych at ddibenion cynnal-a-chadw cerbydau ac offer fferm a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth ar y tir hwnnw yn unig).

6. **AMSER AR GYFER CYDYMFFURFIO**

(i) 8 wythnos ar ôl i'r hysbysiad hwn ddod i rym.

7. **PRYD Y DAW'R HYSBYSIAD HWN I RYM**

Daw'r hysbysiad hwn i rym ar [*dyddiad penodol, heb fod yn llai nag 28 diwrnod clir ar ôl y dyddiad rhoi*], oni chaiff apêl ei gwneud yn ei erbyn cyn hynny.

Dyddiad: [*dyddiad rhoi*]

Llofnodwyd: [*swyddog awdurdodedig y Cyngor*]

ar ran: [*enw a chyfeiriad y Cyngor*]

EICH HAWL I APELIO

ATODIAD

Gallwch apelio yn erbyn yr hysbysiad hwn, ond rhaid i unrhyw apêl **ddod i law**, neu gael ei bostio mewn pryd i ddod i law, yr Ysgrifennydd Gwladol **cyn** y dyddiad a bennwyd ym mharagraff 7 o'r hysbysiad. Nodir eich hawliau yn y llyfryn amgaeedig "Enforcement Notice Appeals - A Guide to Procedure". Cewch ddefnyddio'r ffurflenni apelio amgaeedig.

(a) Mae un i chi ei hanfon i'r Ysgrifennydd Gwladol os penderfynwch apelio, ynghyd â chopi o'r hysbysiad gorfodi hwn.

(b) Dylid anfon yr ail gopi o'r ffurflen apelio a'r hysbysiad i'r Cyngor.

(c) I'ch cofnodion chi y mae'r trydydd copi.

BETH SY'N DIGWYDD OS NA FYDDWCH YN APELIO

Os na fyddwch yn apelio yn erbyn yr hysbysiad gorfodi hwn, bydd yn dod i rym ar y dyddiad a bennwyd ym mharagraff 7 o'r hysbysiad ac yn rhaid i chi sicrhau y cymerir y camau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio ag ef, y gellir eich dal chi'n gyfrifol amdanynt, o fewn y cyfnod[eu] a bennwyd ym mharagraff 6 o'r hysbysiad. Gall methu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi sydd wedi dod i rym arwain at erlyniad a/neu gamau adferol gan y Cyngor.

HYSBYSIAD GORFODI ENGHREIFFTIOL - METHIANT Â CHYDYMFFURFIO AG AMOD

PWYSIG - MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

HYSBYSIAD GORFODI

RHODDWYD GAN: *[enw'r Cyngor]*

1. **RHODDWYD YR HYSBYSIAD** hwn gan y Cyngor am ei bod yn ymddangos iddynt fod y rheolau cynllunio wedi'u torri, o fewn paragraff (b) o adran 171A(1) o'r Ddeddf uchod, ar y tir a ddisgrifir isod. Maent o'r farn ei bod yn fanteisiol rhoi'r hysbysiad hwn, gan roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu ac i ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Mae'r Atodiad ar ddiwedd yr hysbysiad a'r papurau amgaeedig y cyfeirir atynt yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol bwysig.

2. **Y TIR Y MAE'R HYSBYSIAD YN CYFEIRIO ATO**

Tir yn [*cyfeiriad y tir*], a ddangosir ag ymylon coch ar y plan amgaeedig.

3. **Y TORIAD HONEDIG O REOLAU CYNLLUNIO**

Ar [*dyddiad y caniatâd cynllunio*] rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer codi adeilad i'w ddefnyddio fel siop fanwerthu, o dan amodau. Un o'r amodau oedd na ddylid agor y safle i werthu nwyddau ar y Sul nac ar ôl 1900 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod arall. Mae'n ymddangos i'r Cyngor na chydymffurfiwyd â'r amod, a hynny am fod y safle wedi bod ar agor i werthu nwyddau ar y Sul ac ar ôl 1900 o'r gloch ar rai dyddiau eraill.

4. **Y RHESYMAU DROS ROI'R HYSBYSIAD HWN**

Mae'n ymddangos i'r Cyngor fod y toriad uchod o'r rheolau cynllunio wedi digwydd o fewn y deng mlynedd diwethaf. Mae'r adeilad yn cyffinio ag ardal breswyl. Yn union gyfagos i'r adeilad ceir nifer o fflatiau preswyl uwchben siopau ac adeiladau busnes eraill. Mae gwerthu nwyddau o'r safle ar y Sul ac yn hwyr y nos yn denu niferoedd mawr o bobl i'r ardal ar droed ac mewn cerbydau ac mae'n peri aflonyddwch sylweddol i breswylwyr cyfagos, ar adegau pan fyddai'n rhesymol disgwyl i'r ardal fod yn gymharol dawel. Nid yw'r Cyngor o'r farn y dylid llacio ar yr amod o dan sylw, sydd eisoes yn caniatáu oriau agor rhesymol o hir i'r siop.

5. **YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD**

Rhoi'r gorau i agor y siop i werthu nwyddau ar y Sul ac ar ddyddiau eraill ar ôl 1900 o'r gloch.

6. **AMSER AR GYFER CYDYMFFURFIO**

7 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad hwn ddod i rym.

6. **PRYD Y DAW'R HYSBYSIAD HWN I RYM**

Daw'r hysbysiad hwn i rym ar [*dyddiad penodol, heb fod yn llai nag 28 diwrnod clir ar ôl y dyddiad rhoi*], oni chaiff apêl ei gwneud yn ei erbyn cyn hynny.

Dyddiad: [*dyddiad rhoi*]

Llofnodwyd: [*swyddog awdurdodedig y Cyngor*]

ar ran: [*enw a chyfeiriad y Cyngor*]

EICH HAWL I APELIO

Gallwch apelio yn erbyn yr hysbysiad hwn, ond rhaid i unrhyw apêl **ddod i law**, neu gael ei bostio mewn pryd i ddod i law, yr Ysgrifennydd Gwladol **cyn** y dyddiad a bennwyd ym mharagraff 7 o'r hysbysiad. Nodir eich hawliau yn y llyfryn amgaeedig "Enforcement Notice Appeals - A Guide to Procedure". Cewch ddefnyddio'r ffurflenni apelio amgaeedig.

(a) Mae un i chi ei hanfon i'r Ysgrifennydd Gwladol os penderfynwch apelio, ynghyd â chopi o'r hysbysiad gorfodi hwn.

(b) Dylid anfon yr ail gopi o'r ffurflen apelio a'r hysbysiad i'r Cyngor.

(c) I'ch cofnodion chi y mae'r trydydd copi.

BETH SY'N DIGWYDD OS NA FYDDWCH YN APELIO

Os na fyddwch yn apelio yn erbyn yr hysbysiad gorfodi hwn, bydd yn dod i rym ar y dyddiad a bennwyd ym mharagraff 7 o'r hysbysiad ac yna rhaid i chi sicrhau y cymerir y camau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio ag ef, y gellir eich dal chi'n gyfrifol amdanynt, o fewn y cyfnod[au] a bennwyd ym mharagraff 6 o'r hysbysiad. Gall methu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi sydd wedi dod i rym arwain at erlyniad a/neu gamau adferol gan y Cyngor.

HYSBYSIAD ENGHREIFFTIOL AMNEWID COED

PWYSIG - MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

HYSBYSIAD AMNEWID COED

GORCHYMYN CADW COED: *[teitl]*

[enw'r Cyngor]

1. **RHODDIR YR HYSBYSIAD HWN** gan y Cyngor o dan adran 207 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") am ei bod yn ymddangos iddynt -

[nad ydych wedi cydymffurfio â dyletswydd i blannu [coeden/coed] o dan adran 206 o'r Ddeddf].

[nad ydych wedi cydymffurfio ag amod caniatâd a roddwyd o dan y gorchymyn cadw coed uchod [i blannu coeden/coed newydd].

[nad ydych wedi cydymffurfio â dyletswydd i blannu [coeden/coed] mewn ardal gadwraeth o dan adran 213 o'r Ddeddf].

2. Y TIR YR EFFEITHIR ARNO

Tir yn [*cyfeiriad y tir*], a ddangosir gydag ymyl goch ar y plan amgaeedig.

3. Y RHESYMAU DROS ROI'R HYSBYSIAD HWN

[Oddeutu [dyddiad], cwympwyd ffawydden a ddiogelwyd gan y gorchymyn cadw coed uchod ar y sail ei bod yn beryglus. O dan adran 206 o'r Ddeddf mae perchennog y tir o dan ddyletswydd i blannu coeden arall. Mae'n ymddangos i'r Cyngor na chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd hon.]

[Ar [dyddiad], rhoes y Cyngor ganiatâd i gwympo derwen a ddiogelwyd gan y gorchymyn cadw coed uchod ar yr amod bod [coeden neu goed amnewid] [*rhowch fanylion y cyflwr*] yn cael ei phlannu/eu plannu. Mae'n ymddangos i'r Cyngor na chydymffurfiwyd â'r amod hwn.]

[Oddeutu [dyddiad], symudwyd onnen a oedd wedi'i leoli yn [*teitl yr ardal gadwraeth*] yn groes i adran 211 o'r Ddeddf. O dan adran 213 o'r Ddeddf mae perchennog y tir o dan ddyletswydd i blannu coeden arall. Mae'n ymddangos i'r Cyngor na chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd hon.]
[*Yna nodwch unrhyw gefndir perthnasol sy'n arwain at benderfyniad y Cyngor i gyflwyno'r hysbysiad (ee. cyfeiriadau at ohebiaeth gyda'r tirfeddiannwr).*

4. YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD

Mae'n ofynnol i chi blannu [*nifer, rhywogaeth a maint y goeden neu'r coed sydd i'w plannu*] yn y lle(oedd) a ddangosir ar y plan amgaeedig.

5. AMSER AR GYFER CYDYMFFURFIO:

X mis ar ôl y dyddiad a nodwyd ym mharagraff 5 isod

5. PRYD Y DAW'R HYSBYSIAD HWN I RYM

Daw'r hysbysiad hwn i rym ar [dyddiad penodol (heb fod yn llai nag 28 diwrnod clir ar ôl y dyddiad cyflwyno)], oni bai bod apêl yn cael ei gwneud yn ei erbyn ymlaen llaw.

Dyddiad: *[dyddiad yr hysbysiad]*

Llofnodwyd: *[Swyddog awdurdodedig y Cyngor]*

ar ran *[Enw a chyfeiriad y Cyngor]*

EICH HAWL I APELIO

Gallwch apelio yn erbyn yr hysbysiad hwn, ond rhaid i unrhyw apêl **ddod i law'r** Ysgrifennydd Gwladol, neu gael ei bostio mewn pryd i ddod i law, **cyn y dyddiad** a bennwyd yn yr hysbysiad (yn 5 uchod)]. Gallwch apelio ar un neu ragor o'r seiliau canlynol -

(1) nad yw darpariaethau'r ddyletswydd i amnewid coed neu, fel y bo'n briodol, amodau'r caniatâd sy'n ei gwneud yn ofynnol amnewid coed, yn gymwys neu eich bod wedi cydymffurfio â hwy;

(2) y dylid anwybyddu'r ddyletswydd i amnewid coed o dan holl amgylchiadau'r achos mewn perthynas ag unrhyw goeden;

(3) bod gofynion yr hysbysiad yn afresymol mewn perthynas â'r cyfnod neu faint neu rywogaeth y coed sydd wedi'u henwi ynddo;

(4) nad oes angen plannu coeden neu goed yn unol â'r hysbysiad er lles amwynder neu y byddai'n groes i arferion da coedwigaeth;

(5) bod y lle y mae angen plannu'r goeden neu goed ynddo yn anaddas at y diben hwnnw.

Rhaid i chi ddatgan y ffeithiau hefyd y mae'ch apêl yn seiliedig arnynt.

METHIANT Â CHYDYMFFURFIO

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r hysbysiad hwn, gall y Cyngor fynd i mewn i'r tir, plannu'r goeden/coed ac adennill oddi wrthych unrhyw gostau rhesymol a dynnir.

CYNGOR

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad hwn neu os hoffech gael rhywfaint o gyngor ar sut i gydymffurfio ag ef, cysylltwch â [*enw, cyfeiriad a rhif ffôn swyddog priodol y Cyngor*].

YR HYSBYSIAD STOP

Y prif ddarpariaethau statudol

3.1 Mae darpariaethau adran 183 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn galluogi'r awdurdod cynllunio lleol (ACLl) i gyflwyno hysbysiad stop, o dan rai amgylchiadau, pan fyddant yn cyflwyno copi o hysbysiad gorfodi, neu wedyn. Diwygiwyd adran 183 yn sylweddol gan adran 9 o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 ("Deddf 1991"). Gan fod y pŵer i gyflwyno hysbysiad stop yn deillio o roi hysbysiad gorfodi cynllunio, nid yw'r Atodiad hwn yn gymwys i reolau adeiladau rhestredig neu ardaloedd cadwraeth, rheolau sylweddau peryglus neu reolau coed gwarchodedig.

Y pŵer i gyflwyno hysbysiad stop

3.2 Lle bo'r ACLl o'r farn ei bod yn fanteisiol y dylai unrhyw "weithgarwch perthnasol" beidio cyn i'r cyfnod cydymffurfio a bennwyd mewn hysbysiad gorfodi dod i ben, mae adran 183(1) yn galluogi'r ACLl i gyflwyno hysbysiad stop sy'n gwahardd cyflawni'r gweithgarwch hwnnw ar dir yr hysbysiad gorfodi, neu unrhyw ran o'r tir hwnnw. "Gweithgarwch perthnasol" yw unrhyw weithgarwch y mae'n ofynnol iddo beidio o dan yr hysbysiad gorfodi, ac unrhyw weithgarwch a gyflawnir fel rhan o'r gweithgarwch hwnnw neu'n gysylltiedig ag ef. Ni ellir cyflwyno hysbysiad stop ar ôl i'r hysbysiad gorfodi cysylltiedig ddod i rym.

3.3 Gellir cyflwyno hysbysiad stop i unrhyw berson yr ymddengys bod ganddo fuddiant yn y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, neu yr ymddengys ei fod yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch a waherddir gan yr hysbysiad. Rhaid i'r ACLl amgáu gyda'r hysbysiad stop gopi o'r hysbysiad gorfodi cysylltiedig.

Hysbysu'r cyhoedd bod hysbysiad stop wedi'i gyflwyno

3.4 Gall yr ACLl roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod hysbysiad stop wedi'i gyflwyno drwy arddangos "hysbysiad safle", yn unol ag adran 184(6), ar y tir y mae'r hysbysiad stop yn ymwneud ag ef. Os caiff hysbysiad safle ei arddangos, mae'n estyn effaith yr hysbysiad stop i unrhyw berson sy'n ei dorri.

3.5 Rhaid i hysbysiad safle, yn rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiad stop, ddatgan:

(1) bod hysbysiad stop wedi'i gyflwyno;

(2) y gall unrhyw berson sy'n torri'r hysbysiad stop gael ei erlyn am drosedd o dan adran 187; a

(3) y dyddiad y daw'r hysbysiad stop i rym a gofynion yr ACLl yn yr hysbysiad.

Cwmpas y gwaharddiad mewn hysbysiad stop

3.6 Gyda'r eithriadau a nodir ym mharagraff 3.7 isod, gall hysbysiad stop wahardd unrhyw un, neu'r cyfan, o'r gweithgareddau sy'n ffurfio'r toriad honedig o reolau cynllunio yn yr hysbysiad gorfodi cysylltiedig. Felly gellir cyfeirio'r gwaharddiad at y canlynol -

(1) defnydd tir sy'n atodol, neu'n ategol, i brif ddefnydd y tir a bennir yn yr hysbysiad gorfodi fel toriad rheolau; neu

(2) gweithgarwch penodol sy'n digwydd ar ran yn unig o'r tir a bennir yn yr hysbysiad gorfodi; neu

(3) gweithgarwch sy'n digwydd ar y tir yn achlysurol neu'n dymhorol.

Gellir defnyddio hysbysiad stop i wahardd defnyddio'r tir fel safle ar gyfer carafan a feddiannir gan unrhyw berson fel ei unig neu ei brif breswylfa.

3.7 *Ni* all hysbysiad stop wahardd y canlynol:

(1) defnyddio unrhyw adeilad fel tŷannedd;

(2) cyflawni unrhyw weithgarwch nad yw'n "ddatblygiad gweithredol", neu ollwng sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff, os cyflawnwyd y gweithgarwch (yn barhaol neu beidio) am gyfnod o fwy na phedair blynedd gan ddod i ben gyda chyflwyno'r hysbysiad stop. (At y diben hwn, ni chymerir i ystyriaeth unrhyw gyfnod pan awdurdodwyd y gweithgarwch gan ganiatâd cynllunio.)

Pŵr i dynnu hysbysiad stop yn ôl

3.8 Gall yr ACLl dynnu hysbysiad stop yn ôl ar unrhyw adeg (heb ragfarnu eu pŵer i gyflwyno hysbysiad arall) trwy hysbysu pawb y cyflwynwyd yr hysbysiad stop iddynt ei fod wedi'i dynnu'n ôl. Os cafodd hysbysiad safle ei arddangos ar y tir a bennir yn yr hysbysiad stop, rhaid arddangos hysbysiad ei fod wedi'i dynnu'n ôl yn lle'r hysbysiad safle.

Dirwyn effaith hysbysiad stop i ben

3.9 Bydd grym hysbysiad stop yn dod i ben -

(1) pan dynnir yr hysbysiad gorfodi cysylltiedig yn ôl gan yr ACLl, neu pan gaiff ei ddiddymu;

(2) pan ddaw'r cyfnod a ganiatawyd gan yr ACLl ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad gorfodi cysylltiedig i ben (bryd hynny, yn lle bod yn drosedd torri'r gwaharddiad yn yr hysbysiad stop, bydd yn drosedd peidio â chydymffurfio â'r gofynion a bennwyd gan yr ACLl yn yr hysbysiad gorfodi);

(3) pan hysbysir penderfyniad yr ACLl i dynnu'r hysbysiad stop yn ôl gyntaf.

3.10 Pan gaiff hysbysiad gorfodi ei amrywio (er enghraifft, ar apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 174), fel nad yw'r toriad honedig o'r rheolau cynllunio bellach yn cynnwys gweithgarwch penodol a waherddir yn yr hysbysiad stop cysylltiedig, bydd y gwaharddiad yn yr hysbysiad stop yn peidio â bod mewn grym cyn belled â'i fod yn ymwneud â'r gweithgarwch penodol hwnnw.

Cosbau am dorri hysbysiad stop

3.11 Mae adran 187(1), fel y'i diwygiwyd, yn darparu, pan fydd person yn torri hysbysiad stop ar ôl i'r hysbysiad safle gael ei arddangos neu ar ôl i'r hysbysiad stop gael ei gyflwyno iddynt, y byddant yn euog o drosedd. Gellir eu cyhuddo o'r trosedd drwy gyfeirio at unrhyw ddiwrnod neu gyfnod hwy o amser a gellir collfarnu person o ail drosedd, neu drosedd dilynol drwy gyfeirio at unrhyw gyfnod o amser yn dilyn y gollfarn flaenorol am drosedd o'r fath. Mae person sy'n euog o'r trosedd hwn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy nag £20,000; ac, o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy ddiderfyn. Wrth benderfynu swm unrhyw ddirwy sydd i'w gosod, rhaid i'r Llys roi sylw i unrhyw fantais ariannol a gronnwyd, neu sy'n ymddangos yn debygol o gronni, o ganlyniad i'r trosedd.

3.12 Mae'n amddiffyniad i unrhyw berson a erlynir am drosedd o dan adran 187 brofi na chyflwynwyd yr hysbysiad stop iddynt ac na wyddent, ac na ellid disgwyl yn rhesymol iddynt wybod, am ei fodolaeth. Felly mae'n bwysig i ACLl barchu'r canllawiau ym mharagraffau 3.16 i 3.18 o'r Atodiad hwn.

Herio'r gwaharddiad mewn hysbysiad stop

3.13 Nid oes unrhyw hawl i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn y gwaharddiad mewn hysbysiad stop. Ni ellir archwilio rhagoriaethau penderfyniad yr ACLl i gyflwyno hysbysiad stop yn ystod apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan adran 174, yn erbyn yr hysbysiad gorfodi cysylltiedig. Gellir herio dilysrwydd hysbysiad stop, a phriodoldeb penderfyniad yr ACLl i

gyhoeddi hysbysiad, drwy geisio caniatâd yr Uchel Lys i wneud cais am arolwg barnwrol, yn unol â Rheolau'r Goruchaf Lys; ond nid, mae'n debyg, fel amddiffyniad i erlyniad a ddygir gan yr ACLl o dan adran 187 os yw'r hysbysiad yn ddilys ar ei wyneb, drwy gydweddiad â dyfarniad y Llys Apêl (Adran Droseddol) yn **R v Wicks** [1995] 93 LGR 377.

Rhwymedigaeth yr ACLl i dalu iawndal o ganlyniad i hysbysiad stop

3.14 Nid oes dim iawndal yn daladwy mewn perthynas â'r gwaharddiad mewn hysbysiad stop ar unrhyw weithgarwch sydd, *ar unrhyw adeg pan fo'r hysbysiad mewn grym*, yn gyfystyr â thorri rheol gynllunio neu'n cyfrannu at ei thorri, a hynny yn rhinwedd adran 186(5) o Ddeddf 1990.

3.15 Mae adran 186(5) (b) yn darparu, lle bo hysbysiad torri rheolau cynllunio, neu hysbysiad o dan adran 330 o Ddeddf 1990 neu adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, wedi'i gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r ACLl, nad oes dim iawndal yn daladwy am unrhyw golled neu ddifrod y mae'r ceisydd wedi'u dioddef y gellid bod wedi'u hosgoi pe baent wedi darparu'r wybodaeth honno, neu wedi cydweithredu fel arall â'r ACLl wrth ymateb i'r hysbysiad.

Gweithdrefnau gweinyddol ar gyfer ymdrin â hysbysiadau stop

3.16 Pan fydd yr ACLl wedi penderfynu cyflwyno hysbysiad stop, mae'n hanfodol gweithredu'r penderfyniad yn gyflym ac yn effeithiol. Dylid bob amser sicrhau dealltwriaeth glir (wedi'i datgan mewn cyfarwyddiadau gweinyddol, os oes modd) am wahanol gyfrifoldebau Adran Gynllunio ac Adran Gyfreithiol yr awdurdod lleol ar gyfer y gwaith paratoi angenrheidiol, llunio telerau'r hysbysiad stop, y trefniadau ar gyfer ei gyflwyno a sut yr asesir ei effaith ymarferol (gan gynnwys yr angen i ddwyn erlyniad yn gyflym os torrir yr hysbysiad). Gan mai yn gymharol anaml y cyflwynir hysbysiad stop yn achos llawer o ACLl, y peth gorau fel rheol yw cadw'r wybodaeth a'r profiad hanfodol o weithdrefnau hysbysiadau stop mewn grp bach o swyddogion cynllunio a swyddogion cyfreithiol.

3.17 Dylai cyflwyniad hysbysiad stop bob amser gael ei gofnodi ar unwaith yn y gofrestr o hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop y mae'n ofynnol i ACLl ei chynnal, o dan adran 188.

3.18 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau, a bennir yn adran 329 o Ddeddf 1990, yn gymwys i gyflwyno hysbysiad stop. Yn benodol, dylai'r derbynnydd bob amser allu adnabod hysbysiad stop fel gohebiaeth o'r pwys mwyaf. Os cyflwynir yr hysbysiad drwy'r post, dylai'r amlen sy'n ei gynnwys nodi'n glir ei fod yn ohebiaeth frys a phwysig; a dylid ei anfon drwy'r gwasanaeth cofnodi dosbarthiad.

Defnyddio pwerau i gyflwyno hysbysiad stop

3.19 Effaith cyflwyno hysbysiad stop, fel arfer, fydd rhoi terfyn ar dorri'r rheol, neu ar y gweithgarwch penodedig, bron ar unwaith. Dylai'r ACLl sicrhau felly fod asesiad cyflym ond trylwyr o ganlyniadau tebygol cyflwyno hysbysiad stop ar gael (os oes modd, pan na ddirprwyir y penderfyniad i swyddogion, ar ffurf adroddiad a gyflwynir gan Swyddogion Cynllunio neu Swyddogion Gorfodi sy'n hollol gyfarwydd â'r ardal a'r toriad honedig o'r rheol) i'r Pwyllgor neu'r swyddog a fydd yn awdurdodi cyflwyno'r hysbysiad stop. Dylai'r asesiad archwilio'r costau a'r manteision y gellir eu rhag-weld sy'n debyg o godi yn sgil hysbysiad stop.

Asesiad cost/budd ar gyfer hysbysiadau stop

3.20 Fel arfer, cyfyngir y costau sy'n codi o gyflwyno hysbysiad stop i'r cwmni, y gweithredwr neu'r tirfeddiannwr a rwystrir trwy'r hysbysiad rhag cyflawni'r gweithgarwch a waherddir gan yr hysbysiad. Yn achlysurol mae'n bosibl y bydd rhai costau i'r economi lleol. Gall y costau i'r cwmni amrywio o orfod diwygio proses gynhyrchu, ar ychydig neu ddim cost ychwanegol (yn y naill begwn), i derfynu busnes yn gyfan gwbl (yn y pegwn arall), gyda cholled swyddi, methiant i gwblhau contractau, neu fethdaliad o ganlyniad. Dylid archwilio effaith gwahardd gweithgarwch penodol yn ofalus bob amser. Er enghraifft, gall rhwystro storio defnyddiau crai neu gynhyrchion gorffenedig yn yr awyr agored gael effaith uniongyrchol a difrifol ar broses gynhyrchu sy'n dibynnu ar y deunyddiau crai hynny neu argaeledd y man storio i'r cynnyrch gorffenedig. Hyd yn oed os bydd effaith ymarferol yr hysbysiad stop yn

llai nag amharu ar broses gynhyrchu, fe all serch hynny ychwanegu'n sylweddol at gostau'r cwmni, gan fod pris y cynnyrch gorffenedig yn ormod ar gyfer ei farchnad gartref, neu am na all y cwmni gystadlu'n effeithiol â chwmnïau eraill mwyach mewn marchnad ehangach. Gan fod modd cyfeirio hysbysiad stop at unrhyw weithgarwch a bennir yn yr hysbysiad gorfodi, neu unrhyw ran o weithgarwch, neu unrhyw weithgarwch cysylltiedig, dylai'r ACLl sicrhau nad yw gofynion yr hysbysiad stop yn gwahardd ond yr hyn sy'n hanfodol er mwyn diogelu amwynder neu ddiogelwch y cyhoedd yn y gymdogaeth; neu er mwyn rhwystro niwed difrifol neu ddiwrthdro i'r amgylchedd yn yr ardal gyfagos.

3.21 Cyn penderfynu cyflwyno hysbysiad stop, dylai cynrychiolydd yr ACLl drafod, lle bynnag y bo'n ymarferol, gyda'r person sy'n cyflawni'r gweithgarwch a oes unrhyw ddull arall o gynhyrchu neu weithredu a fyddai'n goresgyn y gwrthwynebiadau iddo mewn modd sy'n dderbyniol i'r amgylchedd. Os byddai dulliau eraill derbyniol o gynhyrchu neu weithredu yn ei gwneud yn ofynnol rhoi caniatâd cynllunio, er mwyn ei gyflawni'n gyfreithlon, dylai'r ACLl gymryd y cam cyntaf drwy wahodd cais cynllunio. Serch hynny, am mai gorfodi'r gweithgareddau a bennir ynddo i beidio yw diben hysbysiad stop, dylid cadw unrhyw oedi i'r lleiaf posibl.

3.22 Fel arfer bydd manteision cyflwyno hysbysiad stop yn amlwg fel gwelliant yn amwynder y gymdogaeth. Dylai'r ACLl ystyried faint o bobl sy'n debyg o elwa, a pha mor andwyol yr effeithir ar eu hamwynderau os na chyflwynir hysbysiad stop (ar y rhagdybiaeth y bydd yr hysbysiad gorfodi yn dod i rym yn y pen draw wrth i'r cyfnod cydymffurfio a bennir ynddo ddod i ben).

3.23 Yn nyfarniad yr Uchel Lys, ar 12 Hydref 1994, yn achos **R v Cyngor Bwrdeistref Elmbridge ex parte Wendy Fair Markets Cyf** ([1995] JPEL, p.B36), ystyriodd y Llys yr angen am asesiad cost/budd o dan amgylchiadau lle gohiriwyd penderfyniad apêl Arolygydd Cynllunio i gadarnhau hysbysiad gorfodi, yn rhwystro parhad marchnad Sul ar dir yn y Llain Las, gan apêl bellach gan yr apelydd i'r Uchel Lys (o dan adran 289 o Ddeddf 1990). Ymhlith pethau eraill, dyfarnodd y Llys **yn yr achos hwn** nad oedd yn briodol cynnal asesiad cost/budd manwl iawn: ei bod yn ddigon, fel mater o synnwyr cyffredin, fod yr ACLl wedi sylweddoli y byddai'r hysbysiad stop i bob pwrpas yn rhwystro'r gweithredwyr a'r masnachwyr rhag parhau â'r farchnad Sul. Ar y llaw arall, yr oedd yr ACLl hefyd wedi cymryd i ystyriaeth ddifrifoldeb y gwrthwynebiad yngln â'r Llain Las. Daeth y Llys i'r casgliad fod gan yr ACLl hawl i beidio â chynnal asesiad cost-budd manylach na'r ymarfer syml yr oeddent wedi'i gynnal **yn yr achos hwn**.

3.24 Esbonnir sut y gall yr ACLl orfod talu iawndal o ganlyniad i hysbysiad stop ym mharagraffau 3.14 a 3.15 o'r Atodiad hwn.

Cyflwyno'r hysbysiad stop yn effeithiol

3.25 Ni ellir herio dilysrwydd hysbysiad stop ar y sail nad yw wedi'i gyflwyno i rywun y dylid bod wedi'i gyflwyno iddo. Mae adran 183(6) yn galluogi'r ACLl i gyflwyno hysbysiad stop i unrhyw berson yr ymddengys iddynt fod ganddo fuddiant yn y tir, neu ei fod yn ymwneud ag unrhyw weithgarwch a waherddir gan yr hysbysiad. Felly, er enghraifft, pan gyfeirir hysbysiad stop at doriad rheol gynllunio sy'n ymwneud â gweithrediadau i ail-adeiladu tŷ annedd wledig diffaith, ac na ellir cysylltu â pherchennog y tir, gall yr ACLl gyflwyno'r hysbysiad stop i unrhyw un sydd wrthi'n cyflawni'r gwaith adeiladu a waherddir gan yr hysbysiad. Dylai'r arferion gweinyddol arferol gynnwys olrhain unrhyw berchennog neu ddeiliad tir a threfnu i'r hysbysiad stop gael ei gyflwyno iddynt hwythau hefyd.

3.26 Nid yw hysbysiad stop yn annilys am na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi cysylltiedig fel sy'n ofynnol o dan adran 172(2) a (3), os dangosir bod yr ACLl wedi cymryd yr holl gamau hynny a oedd yn rhesymol ymarferol i'w gyflwyno'n briodol.

3.27 Amlinellir y darpariaethau ar gyfer hysbysu'r cyhoedd fod yr hysbysiad stop wedi'i gyflwyno neu wedi'i dynnu'n ôl ym mharagraffau 3.4 ac 3.8 o'r Atodiad hwn.

Y cyfnod pryd y gellir cyflwyno hysbysiad stop

3.28 Mae adran 183(3) yn darparu na ellir cyflwyno hysbysiad stop lle bo'r hysbysiad gorfodi cysylltiedig wedi dod i rym. (Mae adran 173(8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLl bennu'r dyddiad y daw'r hysbysiad gorfodi i rym.) Serch hynny, os ceir apêl orfodi i'r

Ysgrifennydd Gwladol, mae adran 175(4) yn gohirio effaith yr hysbysiad gorfodi nes i'r apêl yn ei erbyn cael ei benderfynu'n derfynol neu ei dynnu'n ôl. Pan geir apêl yn erbyn yr hysbysiad gorfodi cysylltiedig, mae'n dilyn o'r darpariaethau hyn y gall yr ACLl gyflwyno hysbysiad stop ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod yr apêl orfodi, gan gynnwys unrhyw apêl bellach o dan adran 289, i'r Uchel Lys.

Y dyddiad y daw'r hysbysiad stop i rym

3.29 Rhaid i'r ACLl bennu yn yr hysbysiad stop y dyddiad pan fydd yn dod i rym. Mae adran 184(3) (fel y'i diwygiwyd) yn pennu bod rhaid i'r dyddiad gweithredol fel rheol beidio â bod yn gynharach na 3 diwrnod (nac yn fwy nag 28 diwrnod) ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad stop ond, lle ceir rhesymau arbennig dros bennu dyddiad cynharach, gall hysbysiad stop ddod i rym cyn pen 3 diwrnod, neu ar unwaith. Os bwriedir i'r hysbysiad ddod i rym cyn pen tri diwrnod, rhaid cyflwyno datganiad o'r rhesymau gydag ef. Er enghraifft, mae'n bosibl y bernir ei bod yn hanfodol diogelu ardal o werth tirlun arbennig, neu ardal gadwraeth, rhag datblygiad gweithredol (megis adeiladau, ffyrdd neu wynebau caled eraill) a fyddai, pe bai'n parhau, yn arbennig o niweidiol.

Erlyn am drosedd

3.30 Pan fydd hysbysiad safle wedi'i arddangos ar gyfer hysbysiad stop, mae'n drosedd ar unwaith i rywun dorri, neu beri neu ganiatáu torri, y gwaharddiad yn yr hysbysiad stop, pan fydd yr hysbysiad stop wedi dod i rym. Pan nad yw hysbysiad safle wedi'i arddangos a bod yr hysbysiad stop wedi'i gyflwyno i berson, mae'n drosedd i'r person hwnnw dorri, neu beri neu ganiatáu torri, y gwaharddiad yn yr hysbysiad stop yn union ar ôl i'r hysbysiad stop gael ei gyflwyno iddynt. Fel arfer, yn Llys yr Ynadon yr erlynir am drosedd o dan adran 187, ond fe ellir erlyn yn Llys y Goron os yw'r trosedd yn ddigon difrifol.

3.31 Dylai awdurdodau sy'n erlyn bob amser fod yn fodlon rhoi manylion, os ydynt ar gael, am yr enillion sy'n deillio o'r trosedd, er mwyn i'r Llys eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar swm y ddirwy.

Rhybuddio troseddwyr honedig

3.32 Wrth ymchwilio i'r ffeithiau, cyn cychwyn unrhyw achos, dylai ACLl roi sylw i ddarpariaethau adrannau 66 a 67(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 o ran rhybuddio troseddwyr honedig.

Hysbysiad stop enghreifftiol

3.33 Mae hysbysiad stop enghreifftiol ynghlwm wrth yr Atodiad hwn.

HYSBYSIAD STOP ENGHREIFFTIOL

PWYSIG - MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
(Fel y'i diwygiwyd gan ddeddf cynllunio ac iawndal 1991)

HYSBYSIAD STOP

CYFLWYNWYD GAN: *[enw'r Cyngor]*

I: *[enw derbynnydd arfaethedig yr hysbysiad]*

1. Ar *[dyddiad]*, rhoes y Cyngor hysbysiad gorfodi (yr amgaeir copi ohono gyda'r hysbysiad hwn) yn honni bod rheolau cynllunio wedi'u torri ar *[disgrifiad o'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef]*.

2. **RHODDIR YR HYSBYSIAD HWN** gan y Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 183 o Ddeddf 1990, am eu bod o'r farn ei bod yn fanteisiol y dylai'r gweithgarwch a bennir yn yr hysbysiad hwn beidio cyn i'r cyfnod a ganiateir i gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad gorfodi dod i ben [ar y tir a ddisgrifir ym mharagraff 3 isod]. Mae'r Cyngor bellach yn gwahardd cyflawni'r gweithgarwch a bennir yn yr hysbysiad hwn. Rhoddir gwybodaeth ychwanegol bwysig yn Atodiad yr hysbysiad hwn.

3. **Y TIR Y MAE'R HYSBYSIAD HWN YN CYFEIRIO ATO**

Tir yn *[cyfeiriad y tir, neu ddisgrifiad o'r rhan berthnasol o'r tir y mae'r hysbysiad gofnodi'n cyfeirio ato]*, a ddangosir ag ymylon coch ar y plan amgaeedig.

4. **Y GWEITHGARWCH Y MAE'R HYSBYSIAD HWN YN CYFEIRIO ATO**

[Noder y gweithgaredd y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo beidio, ac unrhyw weithgaredd a gyflawnir fel rhan o'r gweithgaredd hwnnw, neu sy'n gysylltiedig ag ef].

5. **YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD**

Rhoi'r gorau i'r holl weithgareddau a bennir yn yr hysbysiad hwn.

6. **PRYD BYDD YR HYSBYSIAD HWN YN DOD I RYM**

Daw'r hysbysiad hwn i rym ar *[dyddiad]* pan fydd rhaid i'r holl weithgareddau a bennir yn yr hysbysiad hwn beidio.

Dyddiad: *[dyddiad yr hysbysiad]*
Llofnod: *[swyddog awdurdodedig y Cyngor]*
Ar ran: *[enw a chyfeiriad y Cyngor]*

RHYBUDD

ATODIAD

DAW'R HYSBYSIAD HWN I RYM AR Y DYDDIAD A BENNIR YM MHARAGRAFF 6

NID OES HAWL I APELIO AT YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU YN ERBYN YR HYSBYSIAD HWN

Mae'n drosedd torri hysbysiad stop ar ôl i hysbysiad safle gael ei arddangos neu ar ôl i'r hysbysiad stop gael ei gyflwyno i chi. (Adran 187(1) o Ddeddf 1990). Os byddwch yn methu â chydymffurfio â'r hysbysiad stop byddwch mewn perygl o **erlyniad ar unwaith** yn y Llys Ynadon, gyda chosb uchaf o £20,000 o'ch collfarnu'n ddiannod am y trosedd cyntaf ac am unrhyw drosedd dilynol. O'ch collfarnu ar dditiad, nid oes terfyn ar y ddirwy. Os oes gennych amheuaeth ynglŷn â'r hyn y mae'r Cyngor yn gofyn i chi ei wneud, dylech gysylltu **ar unwaith** â [*swyddog enwebedig y Cyngor i ymdrin ag ymholiadau, cyfeiriad a rhif ffôn*].

Os oes arnoch angen cyngor annibynnol am yr hysbysiad hwn, fe'ch cynghorir i gysylltu ar fyrder â chyfreithiwr, ymgynghorydd cynllunio neu gynghorydd proffesiynol arall sy'n arbenigo ar faterion cynllunio. Os hoffech herio dilysrwydd yr hysbysiad, yr unig ffordd i chi wneud hynny yw cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

GORFODI AMODAU CYNLLUNIO: YR HYSBYSIAD TORRI AMOD

Cyflwyniad

4.1 Mae adran 187A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn darparu ar gyfer gorfodi amod cynllunio drwy'r hysbysiad torri amod. Mae'r Atodiad hwn yn esbonio sut y bwriedir i'r hysbysiad weithredu fel ffordd wahanol o ymdrin â'r math hwn o dorri rheolau; neu, os yw'n briodol, yn ogystal â hysbysiad gorfodi. Nid yw'n gymwys i achosion torri rheolau adeiladau rhestredig neu ardaloedd cadwraeth, rheolau sylweddau peryglus neu reolau coed gwarchodedig.

Y darpariaethau statudol

4.2 Mae'r darpariaethau statudol perthnasol ar gyfer hysbysiad torri amod fel a ganlyn:-

(1) adran 187A o Ddeddf 1990 (wedi'i mewnosod gan adran 2 o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 ("Deddf 1991");

(2) adrannau 171A a 171B o Ddeddf 1990 (wedi'u mewnosod gan adran 4 o Ddeddf 1991);

(3) adran 4(2) o Ddeddf 1991;

(4) adran 180 o Ddeddf 1990 (wedi'i disodli gan baragraff 26 o Atodlen 7 o Ddeddf 1991); a

(5) adran 188 o Ddeddf 1990 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 30 o Atodlen 7 o Ddeddf 1991).

4.3 Nid oes hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn hysbysiad torri amod.

Lle gellir defnyddio hysbysiad torri amod

4.4 Mae gweithdrefn hysbysiad torri amod yn gymwys lle mae caniatâd cynllunio (gan gynnwys rhoi caniatâd, ar apêl, gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Arolygydd Cynllunio) i gyflawni unrhyw ddatblygiad ar dir wedi'i roi o dan amodau.

4.5 Yn rhinwedd adran 187A(13) (a) a (b) o Ddeddf 1990 -

(1) mae'r cyfeiriad at amodau yn cynnwys cyfeiriad at "gyfyngiadau" a osodir yn statudol gan rai o'r darpariaethau ar gyfer hawliau "datblygu a ganiateir" yn Erthygl 3, ac Atodlen 2, o'r Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (OS 1995/418);

(2) mae'r ymadrodd "cyflawni unrhyw ddatblygiad" yn cynnwys peri neu ganiatáu i berson arall gyflawni datblygiad.

4.6 Bwriedir yr hysbysiad torri amod yn bennaf fel dewis arall yn lle hysbysiad gorfodi i adfer toriad rheolau sy'n deillio o fethiant i gydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad cynllunio. Ond gellir ei gyflwyno hefyd yn ychwanegol at roi hysbysiad gorfodi, hwyrach fel dewis arall yn lle hysbysiad stop, lle bydd yr ACLl o'r farn y byddai'n fanteisiol rhoi terfyn ar y toriad yn gyflym a chyn y caiff unrhyw apêl yn erbyn yr hysbysiad gorfodi ei phenderfynu, er enghraifft, am ei fod yn achosi niwed amgylcheddol difrifol, neu'n niweidiol i amwynder neu ddiogelwch y cyhoedd. Mae'n arbennig o addas i'w ddefnyddio lle mae'n amlwg bod amod cynllunio dilys wedi'i dorri a'i fod yn debyg y byddai'r profiad llesol o erlyniad diannod (neu'r bygythiad o erlyn) yn gorfodi'r person sy'n gyfrifol i gydymffurfio â'r amod. Os oes unrhyw amheuaeth gyfreithiol ynghylch dilysrwydd amod, ni fyddai'n ddoeth defnyddio'r weithdrefn hysbysiad torri amod.

"Imwnedd" rhag hysbysiad torri amod

4.7 Mae adran 171B(3) yn darparu na ellir cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn (ymhlith achosion eraill) torri amod cynllunio ar ôl i'r cyfnod o ddeng mlynedd o'r dyddiad pan ddigwyddodd y toriad gyntaf ddod i ben. I bob pwrpas, mae yna reol "imwnedd" o ddeng mlynedd yn gymwys i gyflwyno hysbysiad torri amod (ac eithrio amod sy'n ymwneud â defnydd fel un tŷannedd lle mae'r cyfnod o "imwnedd" yn bedair blynedd). Felly, a bwrw bod y toriad wedi bod yn barhaol, mae gan unrhyw doriad amod a ddigwyddodd gyntaf fwy na deng mlynedd calendr cyn y dyddiad y mae'r ACLl yn cydnabod yn ffurfiol ei fod wedi digwydd (ee drwy hysbysu perchennog neu ddeiliad y tir ynglŷn â'u barn y cafwyd toriad) imwnedd parhaol. (Mae hyn yn cymryd yn ganiataol na chafodd unrhyw gamau gorfodi eu cymryd gynt yn ei erbyn). Rhoddir esboniad o hyn ac eithriadau eraill i'r rheol deng mlynedd, fel y mae'n gymwys i hysbysiadau torri amod, ym mharagraffau 2.4 a 2.5 o Atodiad 2 i'r Cylchlythyr hwn.

4.8 Yn ychwanegol, mae adran 180 o Ddeddf 1990 yn darparu, lle rhoddir caniatâd cynllunio wedyn er mwyn awdurdodi unrhyw weithgarwch sydd wedi'i nodi mewn hysbysiad torri amod fel gweithgarwch sy'n mynd yn groes i amod cynllunio, neu lle bo amod a bennir yn yr hysbysiad wedi'i ollwng, mae'r hysbysiad yn peidio â bod mewn grym cyn belled â'i fod yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sicrhau cydymffurfiad â'r amod hwnnw. Ond mae adran 180(3) yn darparu'n benodol hefyd, pan fydd hysbysiad torri amod yn peidio â bod mewn grym, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o dan yr amgylchiadau hyn, nad effeithir ar atebolrwydd unrhyw berson am drosedd o fethu â chydymffurfio o'r blaen, neu o beidio â sicrhau cydymffurfiad, â'r hysbysiad. Mewn geiriau eraill gellir erlyn person am dorri hysbysiad torri amod sy'n digwydd yn ystod unrhyw gyfnod cyn y dyddiad pan roddir y caniatâd cynllunio dilynol neu pan ollyngir yr amod perthnasol.

Drafftio hysbysiad torri amod

4.9 Diben hysbysiad torri amod yw ei gwneud yn ofynnol i'w dderbynnydd sicrhau cydymffurfiad â thelerau amod, neu amodau, cynllunio a bennir gan yr ACLl yn yr hysbysiad. Felly gellir cyfeirio un hysbysiad at dorri dau neu ragor o amodau cynllunio. Ond mae'r darpariaethau ynglŷn â'r trosedd (adran 187A(8) a (9)) yn ymwneud ag unrhyw fethiant i gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad ar ôl diwedd y cyfnod cydymffurfio a bennir gan yr ACLl. Yn unol â hyn, lle bydd un hysbysiad i'w gyfeirio at dorri dau neu ragor o amodau cynllunio a lle byddai hynny'n golygu pennu mwy nag un cyfnod cydymffurfio yn yr un hysbysiad, gall fod yn fwy boddhaol cyflwyno hysbysiad torri amod am bob toriad, fel na fydd unrhyw amheuaeth ynglŷn â pha gyfnod cydymffurfio sy'n gymwys ymhob achos.

4.10 Mae adran 187A(5) yn darparu bod rhaid i hysbysiad torri amod bennu'r camau y mae'r ACLl yn credu y dylid eu cymryd neu'r gweithgareddau y credant y dylent ddod i ben, er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r amodau a bennir yn yr hysbysiad. Felly gall hysbysiad -

(1) fod yn orfodol (ee i'w gwneud yn ofynnol cyflawni a chwblhau cynllun tirlunio yn unol â thelerau amod tirlunio a osodwyd wrth roi caniatâd); neu

(2) yn waharddol (ee ei gwneud yn ofynnol i d bwyta, neu siop prydau parod, beidio ag agor i gwsmeriaid ar ôl yr amser cau a bennwyd mewn amod cynllunio).

4.11 Darperir enghraifft o hysbysiad torri amod yn yr Ychwanegiad i'r Atodiad hwn.

Cyflwyno hysbysiad torri amod

4.12 Mae Adran 187A (2) yn darparu mai'r person y gellir cyflwyno hysbysiad torri amod iddo -

(a) yw unrhyw berson sy'n cyflawni neu wedi cyflawni'r datblygiad; neu

(b) unrhyw berson sy'n rheoli'r tir.

Ond mae adran 187A(4) i bob pwrpas yn cyfyngu cyflwyno hysbysiad torri amod i unrhyw berson sy'n rheoli'r tir i'r achos lle mae'r amod (neu'r amodau) a dorrwyd yn rheoleiddio defnydd y tir. Felly, er enghraifft, lle mae datblygwr wedi cyflawni datblygiad preswyl yn ddarostyngedig i amod (ymhlith eraill) y dylid codi wal sgrin neu ffens ardd, a bod yr amod hwnnw wedi'i dorri ond bod pob un o'r tai annedd unigol wedi'u meddiannu gan berchnogion sydd bellach yn rheoli'r tir sy'n ffurfio cwrtil pob annedd, ni ellir defnyddio'r hysbysiad torri amod yn eu herbyn hwy. Am nad yw amod sy'n mynnu bod waliau neu ffensiau'n cael eu codi yn rheoleiddio defnydd y tir, dim ond yn erbyn y datblygwr gwreiddiol y gellir defnyddio'r hysbysiad torri amod. (Nid yw hynny'n golygu mai dim ond yn erbyn y person a gyflawnodd y datblygiad y gellir cymryd y camau gorfodi hyn pan geir y math yma o dorri amod: ar yr amod nad yw'r toriad amod wedi sicrhau imwnedd rhag camau gorfodi, mae'n dal yn bosibl rhoi hysbysiad torri amod er mwyn adfer y toriad honedig.)

4.13 Yn rhinwedd adran 187A(3), diffinnir unrhyw berson y mae'r ACLl yn cyflwyno hysbysiad torri amod iddo fel "y person cyfrifol". Prif effaith y ddarpariaeth hon yw y byddai unrhyw un sy'n cael hysbysiad wedi mynd yn groes i'r hysbysiad os na chydymffurfiwyd ag unrhyw amod sydd wedi'i nodi ynddo ac os nad yw'r camau a bennwyd wedi'u cymryd neu os nad yw'r gweithgareddau a bennwyd wedi dod i ben, ar ôl y cyfnod cydymffurfio (adran 187A(8)); ac y byddai'r person hwnnw yn euog o drosedd (adran 187A(9)). Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn hanfodol i'r ACLl, ar y dechrau, ystyried a phenderfynu ymhob achos pwy y dylid edrych arno fel y "person cyfrifol" am doriad honedig o amod cynllunio. Fel rheol, dim ond un derbynnydd y dylai hysbysiad torri amod ei gael.

Y cyfnod cydymffurfio

4.14 Rhaid i'r hysbysiad torri amod bennu cyfnod cydymffurfio y mae'n rhaid i'r person sy'n gyfrifol gydymffurfio ag ef, neu sicrhau cydymffurfio, â'r amod y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef. Mae'r cyfnod a ganiateir ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad fel a ganlyn -

(1) cyfnod o nid llai nag 28 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad; neu

(2) y cyfnod cychwynnol o 28 diwrnod neu fwy, wedi'i ymestyn gan pa gyfnod pellach bynnag y gall yr ACLl ei ganiatáu drwy gyflwyno hysbysiad pellach i'r person cyfrifol.

Bydd ACLl yn dymuno sicrhau bod y cyfnod cydymffurfio yn gymesur â gofynion yr hysbysiad.

Tynnu'r hysbysiad yn ôl

4.15 Mae adran 187A(6) yn darparu y gall yr ACLl dynnu hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno hysbysiad tynnu'n ôl i'r "person cyfrifol". Ond, yn rhinwedd darpariaethau "ail-gyfle" adran 171B(4) (gweler Atodiad 2 paragraff 2.5), nid yw'r ffaith bod yr ACLl yn tynnu hysbysiad yn ôl yn effeithio ar eu pŵer i gyflwyno i'r person cyfrifol hysbysiad torri amod pellach sydd wedi'i gyfeirio at yr amodau a bennwyd yn yr hysbysiad cynharach, neu at unrhyw amodau eraill (ar yr amod nad yw'r toriad wedi cael "imwnedd" rhag camau gorfodi yn y cyfamser). Gall tynnu hysbysiad yn ôl ddigwydd ar unrhyw bryd, gan gynnwys ar ôl i'r cyfnod cydymffurfio ddod i ben.

Torri'r hysbysiad

4.16 Yn dilyn diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad, os nad yw'r "person cyfrifol" -

(1) wedi cydymffurfio â phob un o'r amodau a bennwyd yn yr hysbysiad; a

(2) a'i fod heb sicrhau bod unrhyw gamau penodedig wedi'u cymryd, neu fod unrhyw weithgareddau penodedig wedi dod i ben.

mae adran 187A(8) a (a) yn darparu ei fod wedi torri'r hysbysiad ac yn euog o drosedd (adran 187A(9)).

Erlyn troseddau

4.17 Gellir dwyn erlyniad diannod yn y Llys Ynadon am y drosedd o dorri hysbysiad torri amod. Dirwy nad yw'n fwy na "lefel 3" ar y raddfa safonol (sef £1,000 ar hyn o bryd) yw'r gosb uchaf ar ôl collfarn. Gan y gellir mynd â'r drosedd hon i brawf diannod, mae darpariaethau adran 127(1) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 yn gymwys. Ceir cyfnod cyfyngu o chwe mis, sy'n rhedeg o'r amser pan gyflawnwyd y trosedd, y mae'n rhaid cyflwyno hysbysiaeth gerbron y Llys ynddo. Mae'r cyfnod hwn yn rhedeg, nid o'r dyddiad pan gyflawnwyd y trosedd gyntaf, ond ar sail barhaol, fel na ellir cyhuddo ond o gymaint o'r trosedd ag sy'n dod o fewn y cyfnod o chwe mis. Er enghraifft, os digwyddodd y toriad o'r hysbysiad dros gyfnod o dri mis, a bod hysbysiaeth yn cael ei chyflwyno bum mis ar ôl y diwrnod olaf i'r toriad hwnnw ddigwydd, dim ond y trydydd mis (a'r un olaf) o gyfnod y toriad a fydd yn dod o fewn y cyfnod cyfyngu ac a fydd felly'n gyhuddadwy. Dylid cyflwyno hysbysiaeth felly cyn gynted â phosibl bob amser. Mae pob trosedd, i bob pwrpas, yn drosedd unigol sy'n gyhuddadwy drwy gyfeirio at unrhyw ddiwrnod neu gyfnod hwy. Gellir cyhuddo o drosedd canlynol drwy gyfeirio at gyfnod diweddarach.

4.18 Mae adran 187A(10) yn darparu y gellir cyhuddo o drosedd drwy gyfeirio at unrhyw ddiwrnod neu gyfnod amser hwy; ac y gall person gael ei gollfarnu o ail drosedd, neu un dilynol. Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu dwyn erlyniadau pellach lle bo'r person cyfrifol wedi'i erlyn a'i ddirwyo ond yn dal yn methu â chydymffurfio â'r hysbysiad. Rhaid profi achos yr erlyniad bob amser yn ôl y safon brawf troseddol, sef "y tu hwnt i amheuaeth resymol".

4.19 Mae'n amddiffyniad yn erbyn erlyniad i berson sy'n cael ei gyhuddo o drosedd o dan adran 187A(9) brofi -

(1) ei fod wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau cydymffurfio â'r amodau a bennwyd yn yr hysbysiad; neu

(2) lle cyflwynwyd yr hysbysiad iddo fel person â rheolaeth ar y tir, nad oedd ganddo reolaeth arno fwyach pan gyflwynwyd yr hysbysiad iddo, yn rhinwedd adran 187A(2) (b).

Herio dilysrwydd hysbysiad

4.20 Er nad oes hawl i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn hysbysiad torri amod, gellir herio dilysrwydd yr hysbysiad, neu ddilysrwydd penderfyniad yr ACLl i'w gyflwyno, drwy wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol; ond nid mae'n debyg fel amddiffyniad i erlyniad a ddygir gan yr ACLl os yw'r hysbysiad yn ddilys ar ei wyneb, drwy gydweddiad â dyfarniad y Llys Apêl (Adran Droseddol) yn **R v Wicks** [1995] 93 LGR 377. Mae hyn yn pwysleisio ei bod yn ddoeth peidio â defnyddio'r hysbysiad torri amod ond lle bo'r amod cynllunio a dorrwyd yn ddilys yn ôl y gyfraith; lle mae'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gorfodi'r amodau sydd wedi'u datgan yng nghylchlythyr 35/95 y Swyddfa Gymreig; a'i bod yn amlwg, yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod wedi'i dorri. Gall methu â sicrhau bod yr amod o dan sylw'n ddilys ac yn amod y gellir ei orfodi, cyn cyflwyno hysbysiad torri amod, arwain at gyfreithiad hirfaith, gan ddirymu felly brif bwrpas y weithdrefn hon o sicrhau cydymffurfiad cyflym ag amodau a chyfyngiadau cynllunio. Lle bo'r ACLl yn rhag-weld bod lle i ddadlau yngln â dehongliad, dilysrwydd neu allu i orfodi amod, ond er hynny yn credu y byddai'n fuddiol cymryd camau gorfodi, gall cyflwyno hysbysiad gorfodi fod yn weithdrefn fwy priodol.

Cofnod yn y gofrestr hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop

4.21 Mae darpariaethau adran 188(1) (c) o Ddeddf 1990 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 30 Atodlen 7 o Ddeddf 1991) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLl gofnodi manylion pob hysbysiad torri amod y maent yn ei gyflwyno mewn cofrestr (ynghyd â gwybodaeth am hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop). Mae erthygl 26 Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995 (OS 1995/419) yn pennu'r manylion y mae'n rhaid eu cofnodi yn y gofrestr mewn perthynas â hysbysiad torri amod.

4.22 Nid yw hysbysiad torri amod yn arwystl cyfreithiol ar y tir, ac nid oes angen felly ei gofnodi yn y Gofrestr Pridiannau Tir lleol. Yn ymarferol, mae bodolaeth yr amod eisoes wedi'i chofnodi wrth gofrestru'r caniatâd cynllunio y cafodd ei orfodi arno. Gan fod yr hysbysiad wedi'i gyfeirio at unigolyn (y "person cyfrifol"), mae'n gymwys i'r person hwnnw yn hytrach na'r tir, ac ni ellir ei orfodi yn erbyn unrhyw berson arall.

HYSBYSIAD TORRI AMOD ENGHREIFFTIOL

PWYSIG:- MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

HYSBYSIAD TORRI AMOD

CYFLWYNIAD GAN: *[enw'r Cyngor]*

I: *[enw[au] y person[au] sy'n gyfrifol am y toriad amod honedig]*

1. **RHODDIR YR HYSBYSIAD HWN** a gyflwynir gan y Cyngor, o dan adran 187A o'r Ddeddf uchod, am eu bod o'r farn na chydymffurfiwyd ag *[amod] [amodau]* a osodwyd ar ganiatâd cynllunio a roddwyd, ynglŷn â'r tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 isod. Mae'r Cyngor o'r farn y dylid ei gwneud yn ofynnol i chi *[gydymffurfio] [sicrhau y cydymffurfir] â'r amod[au]* a bennir yn yr hysbysiad hwn. Ceir gwybodaeth ychwanegol bwysig yn yr Atodiad ar ddiwedd yr hysbysiad hwn.

2. **Y TIR Y MAE'R HYSBYSIAD HWN YN CYFEIRIO ATO**

Tir yn *[cyfeiriad y tir]*, a ddangosir gydag ymyl goch ar y plan amgaeedig.

3. **Y CANIATÂD CYNLLUNIO PERTHNASOL**

Y caniatâd a roddwyd gan y Cyngor ar *[dyddiad rhoi'r caniatâd]* ar gyfer *[disgrifiad o'r datblygiad]* yw'r caniatâd cynllunio perthnasol y mae'r hysbysiad hwn yn cyfeirio ato *[cyfeirnod y Cyngor]*.

4. **YR AMOD SYDD WEDI'I DORRI**

Ni chydymffurfiwyd â'r amod*[au]* canlynol:

(1)

(2) *[Nodwch delerau pob amod na chydymffurfiwyd ag ef.]*

(3)

5. **YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD**

Fel y person sy'n gyfrifol am dorri'r amod*[au]* sydd wedi'u pennu ym mharagraff 4 o'r hysbysiad hwn, mae'n ofynnol i chi *[gydymffurfio] [sicrhau y cydymffurfir]* â'r amod*[au]* a nodwyd drwy gymryd y camau canlynol:-

(1) *[Nodwch yn glir y camau sydd i'w*
(2) *cymryd er mwyn sicrhau y cydymffurfir*
(3) *â'r amod[au] ym mharagraff 4 uchod.]*

[*a*] [*rhoi'r gorau i'r gweithgareddau canlynol:-]*

(1) *[Nodwch yn glir y gweithgareddau y mae'n*
(2) *rhaid rhoi'r gorau iddynt er mwyn sicrhau y*
(3) *cydymffurfir â'r amod[au] ym mharagraff 4 uchod.]*

Cyfnod ar gyfer cydymffurfio: 30 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod pan gyflwynwyd yr hysbysiad hwn i chi. *Gellir pennu cyfnodau gwahanol ar gyfer pob gofyniad.*

Dyddiad: *[dyddiad yr hysbysiad]*

Llofnodwyd: *[Swyddog awdurdodedig y Cyngor]*

Ar ran: *[enw a chyfeiriad y Cyngor]*

RHYBUDD

DAW'R HYSBYSIAD HWN I RYM *YN UNION* PAN GAIFF EI GYFLWYNO I CHI YN BERSONOL NEU AR Y DIWRNOD PAN DDAW I LAW DRWY'R POST.

NID OES HAWL I APELIO AT YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU YN ERBYN YR HYSBYSIAD HWN.

Mae'n drosedd torri'r gofynion sydd wedi'u datgan ym mharagraff 5 o'r hysbysiad hwn ar ôl diwedd y cyfnod cydymffurfio. Byddwch wedyn mewn perygl o gael eich **erlyn ar unwaith** yn Llys yr Ynadon. £1,000 yw'r gosb uchaf am drosedd cyntaf neu am unrhyw drosedd canlynol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth yngln â'r hyn y mae'r hysbysiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ei wneud, dylech gysylltu **ar unwaith** â *[swyddog enwebedig y Cyngor i ymdrin ag ymholiadau, cyfeiriad a rhif ffôn].*

Os oes arnoch angen cyngor annibynnol ynglŷn â'r hysbysiad hwn, fe'ch cynghorir i gysylltu ar frys â chyfreithiwr, ymgynghorydd cynllunio neu unrhyw gynghorydd proffesiynol arall sy'n arbenigo mewn materion cynllunio. Os ydych yn dymuno herio dilysrwydd yr hysbysiad, ni allwch wneud hynny ond drwy gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

ATODIAD 5

GWAHARDDEB I ATAL TORRI RHEOLAU CYNLLUNIO

Cwmpas achos gwaharddol

5.1. Mae adran 187B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ("Deddf 1990") (a fewnosodwyd gan adran 3 o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 ("Deddf 1991") yn galluogi'r ACLl, lle bônt o'r farn ei bod yn fanteisiol i unrhyw doriad gwirioneddol neu ddisgwyliedig o reolau cynllunio cael ei atal drwy waharddeb, i wneud cais i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol am waharddeb. Gellir gwneud cais *p'un a yw'r* ACLl wedi ymarfer, neu'n bwriadu ymarfer, unrhyw un o'u pwerau eraill i orfodi'r rheolau cynllunio *neu beidio.*

5.2. Yn yr un modd, o dan adran 214A o Ddeddf 1990 gall yr ACLI wneud cais am waharddel i atal trosedd wirioneddol neu ddisgwyliedig o dan adran 210 (gwaith ar goed sy'n torri gorchymyn cadw coed) neu adran 211 (gwaith gwaharddedig ar goed mewn ardaloedd cadwraeth).

5.3. Mewnosododd Paragraff 7 o Atodlen 3 o Ddeddf 1991 adran 44A yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r adran hon yn cyfateb â darpariaethau adran 187B at ddibenion gorfodi rheolau adeiladau rhestredig. Mae'r cyngor yn yr Atodiad hwn yr un mor gymwys i waharddebau a geisir o dan adran 44A.

Gwaharddebau o dan adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

5.4 Nid yw'n debyg y bydd angen i ACLl ddefnyddio adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 am fod adran 187B ar gael bellach; gweler hefyd **City of London Corporation v Bovis** [1992] 3 AllER 697

Gweithredu achos gwaharddol

5.5 Mater i'r ACLl yw penderfynu a ddylid dwyn achos gwaharddol. Gall y bydd o gymorth i'r ACLl ystyried -

(i) a ydynt wedi cymryd i ystyriaeth yr hyn sy'n ymddangos yn ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys amgylchiadau personol y rhai o dan sylw, wrth benderfynu ei bod yn angenrheidiol neu'n fanteisiol dwyn achos gwaharddol;

(ii) a oes tystiolaeth glir bod rheolau cynllunio, rheolau adeiladau rhestredig neu reolau coed eisoes wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, ar dir o fewn ardal yr ACLl;

(iii) a yw rhyddhad drwy waharddeb yn rhwymedi cymesur o dan amgylchiadau'r achos penodol;

(iv) yn achos gwaharddeb a geisir yn erbyn person anhysbys, a yw'n ymarferol i'r gorchymyn llys gael ei gyflwyno ar y person neu'r personau y bydd yn gymwys iddynt.

5.6 Dechreuir y mwyafrif o geisiadau drwy gyfrwng Grŵp Gychwynnol yn Adran Mainc y Frenhines o'r Uchel Lys. Gall yr ACLl ofyn am waharddeb yn absenoldeb y person y'i ceisir yn eu herbyn ("*ex parte*"); neu gellir dwyn achos lle cynrychiolir y partïon ("*inter partes*").

5.7 Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o dynnu costau sy'n wastraff ar achos seithug, bydd angen i'r ACLl wneud eu hasesiad gorau eu hunain (drwy gael barn Cwnsel os bydd angen), o'r canlyniad tebygol cyn penderfynu cychwyn achos. Wrth asesu'r costau posibl, bydd yr ACLl am gofio y gallai'r Llys ei gwneud yn ofynnol os caiff gwaharddeb dros dro ei rhoi, i'r awdurdod roi ymrwymiad o iawndal a all gael ei wireddu os bydd yr ACLl yn aflwyddiannus yn y treial yn y pen draw lle bo'r ACLl yn gofyn am waharddeb barhaol). Er hynny, yng ngoleuni ymagwedd Tŷ'r Arglwyddi yn **Kirklees MBC v Wickes Building Supplies Cyf** [1993] AC 227, mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai'r Llys yn ei gwneud yn ofynnol i ACLl roi ymrwymiad o'r fath lle bo'r ACLl yn gweithredu ei swyddogaethau gorfodi cyfreithlon.

5.8. Mewn dyfarniad a roddwyd ar 7 Chwefror 1994, yn achos **Runnymede Borough Council v. Harwood** [1994] 1 PLR 22, dyfarnodd y Llys Apêl fod adran 187B o Ddeddf 1990 yn rhoi pŵer i'r Llys lesteirio toriad rheolau drwy gyfrwng gwaharddeb dros dro. Wrth roi gwaharddeb dros dro, gall y Llys benderfynu caniatáu cyfnod ar gyfer cydymffurfio, neu, fel yn **Hambleton v Bird** [1995] EGCS 67, ohirio'r waharddeb (yn yr achos hwnnw i ganiatáu i'r sipsiwn, sef yr ymatebwyr, wneud trefniadau eraill).

5.9. Mewn dyfarniad ar wahân a roddwyd ar 7 Chwefror 1994, yn **Croydon London Borough Council v Gladden** [1994] 1 PLR 30, dyfarnodd y Llys Apêl fod y pŵer a roddwyd gan adran 187B o Ddeddf 1990 yn caniatáu rhoi gwaharddeb orfodol ac nad oedd yn gyfyngedig i waharddebau gwaharddol (rhoes y Llys waharddeb orfodol yn yr achos hwnnw).

5.10 Mater i ddisgresiwn absoliwt y Llys bob amser yw a ddylid caniatáu gwaharddeb. Yn **Bovis** (a ddyfynnwyd ym mharagraff 5.4) y "sylfaen hanfodol" a fynegwyd gan y Llys ar gyfer ymarfer disgresiwn oedd a ellid casglu y byddai gweithrediadau anghyfreithlon yr ymatebydd yn parhau hyd nes ac oni chaent eu rhwystro'n effeithiol gan y gyfraith ac na fyddai dim byd llai na gwaharddeb yn effeithiol i rwystro'r gweithrediadau hynny. Ategwyd y "prawf" hwn yn achos **Hambleton** a ddyfynnwyd ym mharagraff 5.8.

Personau nad yw eu henw'n hysbys

5.11. Effaith Adran 187B(3) (sy'n gymwys hefyd i'r adran 214A newydd, gyda'r darpariaethau cyfatebol yn adran 44A o Ddeddf Adeiladu Rhestredig) yw galluogi'r Llys i roi gwaharddeb yn erbyn person nad yw eu henw'n hysbys. Serch hynny, bydd angen i ACLl, hyd eithaf eu gallu, enwi'r person y ceisir y waharddeb yn ei erbyn. Gellir defnyddio'r canlynol i ategu sylwadau'r awdurdod i'r Llys:-

(1) tystiolaeth ffotograffig o'r personau perthnasol;

(2) tystiolaeth affidafid wedi'i thyngu gan swyddogion yr ACLl;

(3) cyfeiriad at declynnau ar y tir, y gwyddys eu bod yn perthyn i'r person hwnnw, neu'n cael eu defnyddio ganddo (ee cerbyd modur cofrestredig);neu

(4) tystiolaeth berthnasol arall (megis enw a elwir yn gyffredin ar y person, er nad dyna eu henw priodol).

Wrth wneud cais i'r Llys, bydd rhaid i'r ACLl ddarparu tystiolaeth affidafid o'u hanallu i ddarganfod enw'r person, o fewn yr amser sydd ar gael yn rhesymol, a'r camau sydd wedi'u cymryd wrth ymdrechu i wneud hynny.

HAWLIAU MYNEDIAD I DIR AT DDIBENION GORFODI

Y darpariaethau statudol

6.1. Mae adrannau 196A, 196B a 196C o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1990"), yn galluogi ACLl ac Ynadon Heddwch i awdurdodi swyddogion a enwir i gael mynediad i dir yn unswydd at ddibenion gorfodi. Cyfyngir yr hawl hon i'r hyn y bernir ei fod yn hanfodol, o dan yr amgylchiadau penodol, ar gyfer gorfodi rheolau cynllunio yn effeithiol. Nid yw darpariaethau adrannau 324 a 325 o Ddeddf 1990 ar gael mwyach at ddibenion gorfodi.

6.2. Mae adran 196A(1) yn pennu'r dibenion y gellir awdurdodi mynediad i dir ar eu cyfer, sef -

(a) darganfod *a oes, neu a fu*, unrhyw doriad ar y rheolau cynllunio ar y tir, neu ar unrhyw dir arall;

(b) penderfynu a *ddylid* ymarfer unrhyw un o bwerau gorfodi'r ACLl mewn perthynas â'r tir, neu unrhyw dir arall;

(c) penderfynu *sut* y dylid ymarfer unrhyw ber o'r fath; a

(d) darganfod a *gydymffurfiwyd* ag unrhyw ofyniad sy'n deillio o gamau gorfodi cynharach mewn perthynas â'r tir, neu unrhyw dir arall.

Mae cynnwys y geiriau " . . . neu unrhyw dir arall" yn golygu, os bydd angen, y gellir cael mynediad i dir cyfagos, p'un yw o dan yr un berchnogaeth neu beidio, neu p'un a yw wedi'i feddiannu gan y person yr ymchwilir i'w dir neu beidio.

6.3. Mae darpariaethau adran 196A yn datgan bod rhaid cael "... reasonable grounds for entering [the land] for the purpose in question". Dehonglir mai ystyr hyn yw mai cael mynediad i'r tir yw'r dull rhesymegol o gael y wybodaeth y mae ar yr ACLl ei hangen.

Cael mynediad i'r tir

6.4. Mae adran 196C(1) yn darparu bod rhaid i berson awdurdodedig, wrth gael mynediad i unrhyw dir yn unol â'r hawl mynediad:-

(a) cyflwyno tystiolaeth o'i awdurdodiad, os gofynnir, a datgan diben cael mynediad cyn iddo gael mynediad i'r tir;

(b) bod yng nghwmni y cyfryw bersonau eraill ag y gall fod eu hangen.

Ymadael â'r tir

6.5. Mae adran 196C(1)(c) yn darparu bod rhaid i'r person awdurdodedig, wrth ymadael â'r tir, os nad yw'r perchennog neu'r deiliad yn bresennol bryd hynny, ei adael wedi'i ddiogelu mor effeithiol yn erbyn tresmaswyr ag y daethpwyd o hyd iddo.

Rhwystro bwriadol ar yr hawl i gael mynediad

6.6. Mae adran 196C(2) yn darparu y bydd unrhyw berson sy'n rhwystro person awdurdodedig yn fwriadol wrth weithredu i ymarfer hawl fynediad yn euog o drosedd. Mae'r gosb ddiannod uchaf am y drosedd hon ar "lefel 3" ar y raddfa safonol o gosbau, sef £1,000 ar hyn o bryd.

Difrod i dir neu declynnau wrth ymarfer hawl fynediad

6.7. Os caiff unrhyw ddifrod ei achosi i dir (sy'n cynnwys adeilad), neu declynnau (er enghraifft, peiriannau, offer neu dda byw), mae adran 196C(3) yn darparu y caiff unrhyw berson sy'n dioddef y difrod adennill iawndal oddi ar yr awdurdod a roes yr awdurdod ysgrifenedig ar gyfer y mynediad. Rhaid i ddadl ynghylch maint unrhyw iawndal gael ei chyfeirio at y Tribiwnlys Tiroedd, a'i phenderfynu ganddynt yn unol â darpariaethau adran 118 o Ddeddf 1990, fel y'u cymhwysir gan adran 196C(4) o Ddeddf 1990, fel y'u cymhwyssir gan adran 196C(4) ol Ddeddf 1990.

6.8. Fel awdurdodau cyhoeddus, disgwylir i ACLI gymryd pob mesur diogelwch i sicrhau nad achosir unrhyw ddifrod i dir neu declynnau o ganlyniad i ymarfer yr hawl i gael mynediad. Gan y caiff eu hymchwiliadau at ddibenion gorfodi eu cyfyngu fel rheol i archwiliad gweledol, dylai unrhyw ddifrod o ganlyniad iddynt fod yn eithriadol iawn.

Mynediad i dir amaethyddol

6.9. Atgoffir ACLI fod mesurau diogelwch arbennig yn hanfodol, er lles iechyd anifeiliaid a phlanhigion, lle caiff yr hawl i gael mynediad i dir amaethyddol ei ymarfer. Mae'r mesurau diogelwch ychwanegol y mae'n *rhaid* eu cymryd cyn, ac wrth gael mynediad i dir amaethyddol, wedi'u datgan yn Ychwanegiad yr Atodiad hwn.

Datgelu gwybodaeth a geir wrth gael mynediad i dir

6.10. Mae adran 196C(5) yn darparu y bydd unrhyw berson sy'n cael mynediad i dir, wrth ymarfer hawl fynediad, ac sy'n datgelu i unrhyw berson unrhyw wybodaeth a geir tra bu ar y tir, ynghylch unrhyw broses gweithgynhyrchu neu gyfrinach fasnachol, yn euog o drosedd. Y gosb ddiannod uchaf am y drosedd hon yw £5,000 ar hyn o bryd. Ar gollfarn am y drosedd hon, ar ddiddiad yn Llys y Goron, y gosb yw cyfnod o garchar heb fod yn fwy na dwy flynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

6.11. Nid yw'n drosedd o dan adran 196C(5) os caiff y wybodaeth ei datgelu gan berson awdurdodedig wrth iddynt berfformio eu dyletswydd mewn cysylltiad â'r diben y cawsant eu hawdurdodi i gael mynediad i'r tir ar ei gyfer.

Hawl i gael mynediad i dŷ annedd

6.12. Ni ellir mynnu cael mynediad i adeilad a ddefnyddir fel tŷ annedd fel hawl oni bai fod 24 awr o rybudd o'r mynediad arfaethedig wedi'i roi i'r deiliad. Yn achos adeilad diwydiannol neu fasnachol (megis ffatri neu siop), lle bo llety preswyl ar gael hefyd (megis fflat gofalwr), nid yw'r gofyniad i roi rhybudd 24 awr ymlaen llaw yn gymwys ond i ran breswyl yr adeilad. Er hynny, nid yw'r gofyniad hwn i rybuddio ymlaen llaw yn gymwys i'r adeiladau allanol nac i dir yr ardd yng nghwrtil tŷ annedd, oni bai na ellir cael mynediad iddynt ond drwy fynd drwy'r tŷ annedd.

Mynediad a awdurdodir drwy warant a roddir gan Ynad Heddwch

6.13. Os caiff mynediad ei wrthod, neu os yw'n rhesymol disgwyl y caiff ei wrthod, neu os yw'r achos yn achos brys, mae'r adran 196B(1) yn darparu bod mynediad drwy warant a roddir gan Ynad Heddwch yn bosibl, lle bo seiliau rhesymol dros gael mynediad i dir at ddibenion gorfodi. Dyfernir bod mynediad i'r tir wedi'i wrthod os na ddaw unrhyw ateb i gais am fynediad i law o fewn cyfnod rhesymol (adran 196B(2). Ceir tri chyfyngiad ar ddefnyddio gwarant:-

(1) dim ond ar un achlysur y mae'n awdurdodi mynediad;

(2) rhaid sicrhau mynediad cyn pen mis ar ôl rhoi'r warant; a

(3) rhaid sicrhau mynediad ar amser rhesymol, oni bai fod yr achos yn achos brys.

Mynediad i adeiladau rhestredig

6.14. Effaith adrannau 88, 88A a 88B o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (fel y'i diwygiwyd) yw darparu hawliau mynediad at ddibenion gorfodi adeilad rhestredig sy'n cyfateb â phwerau gorfodi cynllunio.

Mynediad i dir at ddibenion gorfodi cadw coed

6.15. O dan adrannau 214B, 214C a 214D Deddf 1990 (a fewnosodwyd gan adran 23 Deddf 1991) mae darpariaethau gweddol debyg ynglŷn â'r hawl fynediad yn gymwys mewn perthynas â choed sydd wedi'u diogelu, gan ddisodli darpariaethau blaenorol adrannau 324 a 325 o Ddeddf 1990.

6.16 Mae adran 214B(1) yn pennu'r tri diben canlynol y gellir awdurdodi mynediad i dir gan yr ACLl ar eu cyfer heb warant:

(a) arolygu'r tir mewn cysylltiad â gwneud neu gadarnhau gorchymyn cadw coed;

(b) cael gwybod a oes trosedd o dan adran 210 neu 211 wedi'i chyflawni; neu

(c) penderfynu a ddylai hysbysiad amnewid coed o dan adran 217 gael ei gyflwyno i berchennog y tir,

os oes yna seiliau rhesymol dros gael mynediad felly. Rhaid i'r mynediad ddigwydd ar adeg resymol. Nid oes rhaid rhoi hysbysiad o 24 awr ynglŷn â'r mynediad arfaethedig at y dibenion hyn i'r deiliad. Ond mae angen hysbysiad o'r fath os bwriedir mynd i mewn i dŷ annedd wrth ymarfer y pwerau hyn.

6.17 Mae mynediad yr ACLl i dir heb warant at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â choed gwarchodedig, a'u pŵer i awdurdodi eraill i gael mynediad mewn perthynas ag ymarfer eu swyddogaethau (megis penderfynu ar gais am ganiatâd o dan orchymyn cadw coed, neu gyflawni gwaith yn dilyn methiant â chydymffurfio â gorchymyn amnewid coed) o fewn yr hawl gyffredinol a ddarperir o dan adran 214B(3) o'r Ddeddf. Rhaid rhoi hysbysiad o 24 awr bob amser at y dibenion hyn mewn perthynas ag unrhyw dir sydd wedi'i feddiannu.

6.18 Lle bo angen mynediad o dan adran 214B(1) (gweler paragraff 6.17 uchod) a bod yr achos yn achos brys neu fod mynediad wedi'i wrthod (neu ei bod yn rhesymol disgwyl gwrthodiad), gellir awdurdodi mynediad trwy warant a roddir gan ynad o dan adran 214C(1). Mae gwarant yn awdurdodi mynediad ar un achlysur yn unig o fewn un mis ar ôl dyddiad ei roi. Ymhellach, rhaid i'r mynediad ddigwydd ar adeg resymol, oni bai bod yr achos yn achos brys.

6.19 Mae darpariaethau atodol o dan 214D yn cynnwys trosedd o atal yn fwriadol rywun sy'n ymarfer yr hawl i gael mynediad, a phŵer i gymryd samplau o unrhyw goeden a'r pridd.

MYNEDIAD I DIR AMAETHYDDOL

Iechyd Anifeiliaid

1. Pan geir achos o glefyd difrifol mewn anifeiliaid (megis clwy'r traed a'r genau neu anthracs), caiff hysbysiadau yn rhoi rhybudd am y clefyd eu gosod yn strategol gan Arolygwyr Clefydau Anifeiliaid wrth ymyl y ffermdir. Byddai hyn yn rhybuddio unrhyw ymwelwyr annisgwyl neu achlysurol (megis Swyddog Gorfodi yr awdurdod lleol) am y peryglon ac i bob pwrpas dylai eu hatal rhag mynd ar y tir a bod yn gyfrifol felly am ledu'r afiechyd. Er hynny, ceir achosion eraill (megis yn ystod achos o TB/brwselosis) lle nad oes unrhyw ofyniad i godi hysbysiadau yn rhybuddio am y peryglon, ond lle gallai mynd ar y tir beri i'r clefyd ledu. Dylai swyddogion o'r ACLl gysylltu felly â Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol MAFF yn y Swyddfa Iechyd Anifeiliaid lleol i sicrhau nad oes unrhyw orchmynion iechyd anifeiliaid mewn grym i wahardd symudiadau (neu broblemau iechyd anifeiliaid eraill) ar y fferm y maent yn bwriadu ymweld â hi.

Iechyd Planhigion

2. Yn yr un modd, lle mae plâu ac afiechydon sy'n bodoli yn effeithio'n ddifrifol ar blanhigion, gall mynediad i dir gael ei reoli yn llym o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993. O ran afiechydon a ddygir gan y pridd, mae yna risg penodol y gallai pridd heintiedig gael ei ledaenu ar esgidiau i ran o'r fferm sydd heb ei heffeithio neu hyd yn oed i leoliad arall. *Ni ddylai* swyddogion o'r ACLl ddibynnu ar weld arwydd ar dir o'r fath ac yn hytrach dylent holi Swyddfa Ranbarthol AASG neu MAFF lleol, er mwyn gofyn i'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau lleol a oes gwaharddiad iechyd planhigion mewn grym ar y tir y bwriedir ymweld ag ef.

RHEOLI DATBLYGU AR DIR Y GORON

Cyflwyniad

7.1 Nid yw Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991 ("Deddf 1991") wedi diwygio darpariaethau adrannau 294 a 295 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") sy'n gymwys i ddatblygu ar Dir y Goron, heblaw gan neu ar ran y Goron, ar adeg pan nad oes gan unrhyw berson hawl i'w feddiannu yn rhinwedd buddiant preifat. Enghraifft o ddatblygiad o'r fath yw lleoli bar byrbrydau symudol neu fan luniaeth ar gilfan cefnffordd.

"Hysbysiad gorfodi arbennig"

7.2 Lle'r ymddengys bod datblygiad o'r fath wedi digwydd ar neu ar ôl 12 Ebrill 1984 (y dyddiad y daeth y darpariaethau hyn i rym yn rhinwedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1984), mae gan yr ACLl bŵer o dan ddarpariaethau adran 294(3) o Ddeddf 1990 i gyhoeddi "hysbysiad gorfodi arbennig", os byddant o'r farn ei bod yn hwylus gwneud hynny, gan roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu ac i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Mae'n ofynnol sicrhau caniatâd yr awdurdod priodol (a ddiffinnir yn adran 293) o dan adran 294(4) cyn cyhoeddi'r hysbysiad. Nid yw adrannau o'r Llywodraeth a chyrff eraill y Goron yn dal eu caniatâd yn ôl yn afresymol lle meddiannir y tir heb eu caniatâd ysgrifenedig.

Yr hyn y mae'n rhaid i'r hysbysiad ei bennu

7.3 Mae Adran 294(5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad bennu'r materion yr honnir eu bod yn gyfystyr â datblygu a'r camu y mae'n ofynnol i'r ACLl eu cymryd ar gyfer adfer y tir i'w gyflwr blaenorol, neu i ddirwyn i ben unrhyw ddefnydd a gychwynnwyd gan y datblygiad. Mae Adran 294(6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad bennu'r dyddiad y bydd yn dod i rym a'r cyfnod pryd y bydd yn ofynnol cymryd camau angenrheidiol. Gellir pennu cyfnodau gwahanol ar gyfer cymryd camau gwahanol (adran 294(7)).

Cyflwyno'r hysbysiad

7.4 Rhaid cyflwyno copi o'r hysbysiad i'r person yr honnir eu bod wedi cyflawni'r datblygiad (oni bai, yn sgil ymholiadau rhesymol, nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn gallu eu hadnabod neu eu holrhain), i unrhyw berson sy'n meddiannu'r tir pan roddir yr hysbysiad, ac i gorff y Goron. Rhaid cyflwyno'r copïau heb fod yn hwyrach nag 28 diwrnod ar ôl rhoi'r hysbysiad a heb fod yn hwyrach nag 28 diwrnod cyn iddo ddod i rym (adran 295(1) a (2)).

Hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad

7.5 Mae Adran 295(3) yn rhoi hawl i'r person yr honnir eu bod wedi cyflawni'r datblygiad ac unrhyw berson sy'n meddiannu'r tir - p'un a gyflwynwyd copi o'r hysbysiad iddynt neu beidio (adran 295(4)) - apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ni ellir gwneud apêl ond ar sail nad yw'r materion a honnir yn yr hysbysiad wedi digwydd, neu nad ydynt yn gyfystyr â datblygiad y mae adran 294 yn gymwys iddo. Er enghraifft, gallai'r apelydd ddadlau bod y datblygiad wedi digwydd cyn 12 Ebrill 1984; nad tir y Goron yw'r tir; bod yna fuddiant preifat yn y tir; neu nad oedd y materion a honnir yn yr hysbysiad yn golygu datblygu'r tir. Nid yw rhinweddau cynllunio't datblygiad yn berthnasol mewn apêl o'r fath.

Gweithdrefnau

7.6 Mae Adran 295(5) yn darparu y bydd y darpariaethau a gynhwysir yn adrannau 174(3) i (5), 175(1) i (4) a 176(1) i (4), neu sydd mewn grym o dan y rhain, yn gymwys i hysbysiadau gorfodi arbennig ac apelau yn eu herbyn; ac mae is-adran (6) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, trwy Reoliadau, i gymhwyso darpariaethau eraill Deddf 1990. Y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi Arbennig) 1992 (OS 1992/1562).

7.7 Yng ngoleuni'r seiliau cyfyngedig ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi arbennig, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu cymhwyso'r darpariaethau perthnasol yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) 1991 (OS 1991/2804) a Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1992 (OS 1992/1903), sy'n ymdrin â hysbysiadau gorfodi cyffredin a roddir o dan adran 172 o Ddeddf 1990 ac apelau gorfodi yn ffurfiol at hysbysiadau ac apelau gorfodi arbennig. Yn hytrach, bydd y Swyddfa yn prosesu apelau yn unol â'r darpariaethau hynny, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fel pe baent yn gymwys i hysbysiadau gorfodi arbennig, a bydd yn disgwyl i'r ACLl a'r apelwyr ymateb yn unol â hynny. Yn benodol, gofynnir i'r ACLl amgáu ffurflenni apêl a "Nodiadau i Apelwyr" gyda phob copi o hysbysiad gorfodi arbennig a gyflwynir ganddynt.

7.8 Darperir enghraifft o hysbysiad gorfodi arbennig a thestun y "Nodiadau i Apelwyr" yn Ychwanegiad 1 i'r Atodiad hwn. Mae copïau o'r Nodiadau a'r ffurflenni apêl ar gael, os oes eu hangen, oddi wrth yr Arolygwyr Cynllunio, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ, ffôn 01222 825670 neu ffacs 01222 825150.

7.9 Ceir siart llif, sy'n dangos llwybrau gorfodi posibl i'r ACLl eu hystyried mewn perthynas â datblygu ar dir y Goron, yn Ychwanegiad 2 i'r Atodiad hwn.

HYSBYSIAD GORFODI ARBENNIG ENGHREIFFTIOL

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

HYSBYSIAD GORFODI ARBENNIG

RHODDWYD GAN: *[enw'r Cyngor]*

I: *[Enw'r person yr honnir ei fod wedi cyflawni'r datblygiad]*
[Enw[au] y person[au] sy'n meddiannu'r tir pan roddir yr hysbysiad]
[Enw'r awdurdod priodol]

1. **RHODDIR YR HYSBYSIAD** hwn gan y Cyngor drwy ymarfer eu pwerau yn Adran 294 o'r Ddeddf uchod [gyda chaniatâd yr awdurdod priodol] am ei bod yn ymddangos iddynt fod datblygiad ar dir y Goron wedi'i gyflawni, o fewn paragraff (2) o adran 294 o'r Ddeddf, ar y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 isod. Maent o'r farn ei bod yn fanteisiol rhoi'r hysbysiad hwn ("hysbysiad gorfodi arbennig"), o roi sylw i ddarpariaethau'r cynlluniau datblygu ac i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Ceir gwybodaeth ychwanegol bwysig yn yr Atodiad ar ddiwedd yr hysbysiad.

2. Y TIR Y MAE'R HYSBYSIAD YN CYFEIRIO ATO

Tir yn [*cyfeiriad y tir*], a ddangosir ag ymyl goch ar y plan amgaeedig.

3 Y MATERION YR HONNIR MAI HWY YW'R DATBLYGIAD AR Y TIR

Datblygu, sef *[disgrifiad y datblygiad sydd wedi digwydd]*, heblaw gan neu ar ran y Goron, ar adeg ar ôl 11 Ebrill 1984 pan nad oes gan neb hawl i feddiannu'r tir yn rhinwedd buddiant preifat (gan gynnwys trwydded ysgrifenedig).

4. RHESYMAU DROS ROI'R HYSBYSIAD

[Rhesymau pam mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn fanteisiol rhoi'r hysbysiad gorfodi arbennig]

5. YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD

[Nodwch y camau sy'n ofynnol er mwyn [adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r datblygiad ddigwydd] [rhoi'r gorau i unrhyw ddefnydd ar y tir y mae'r datblygiad wedi'i ddechrau]]

Amser ar gyfer cydymffurfio: *[Noder y nifer o ddyddiau/misoedd ar ôl y dyddiad y daw'r hysbysiad i rym]*

6. PRYD Y DAW'R HYSBYSIAD HWN I RYM (DYDDIAD PENODEDIG)

Daw'r hysbysiad hwn i rym, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 175(4), fel y'i cymhwysir yn adran 295(5) o'r Ddeddf, ar *[dyddiad penodol, heb fod yn llai nag 28 diwrnod clir ar ôl y dyddiad cyflwyno]*, oni bai bod apêl yn cael ei gwneud yn ei erbyn ymlaen llaw.

Dyddiedig: *[Dyddiad rhoi]*

Llofnodwyd: *[Swyddog awdurdodi i'r Cyngor]*

Ar ran: *[Enw a chyfeiriad y Cyngor]*

NODIADAU ENGHREIFFTIOL I APELWYR

Tynnir eich sylw at y ffaith y gall unrhyw berson:-

(a) a gyflawnodd y datblygiad a honnir yn yr hysbysiad hwn, neu

(b) a oedd meddiannu'r tir ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad hwn,

(p'un a gyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi arbennig hwn iddynt ai peidio), ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad hwn fel y dyddiad y bydd yn dod i rym, apelio yn erbyn yr hysbysiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y sail nad yw'r materion a honnir yn yr hysbysiad:-

(a) wedi digwydd, neu

(b) yn gyfystyr â datblygiad y mae adran 294 yn gymwys iddo.

Dyma'r unig sail apêl sydd ar gael. Er ei bod yn bosibl bod datganiad o resymau'r awdurdod cynllunio lleol pam y maent o'r farn ei bod yn gyfleus rhoi'r hysbysiad ynghlwm wrth yr hysbysiad gorfodi arbennig, sef rhesymau a fydd yn gysylltiedig â "rhagoriaethau cynllunio" y datblygiad (megis niwed i amwynder, llif traffig neu ddiogelwch y briffordd), er gwybodaeth yn unig y cynigir hwnnw. Nid yw materion o ragoriaethau gynllunio neu galedi ariannol yn berthnasol mewn unrhyw apêl yn erbyn yr hysbysiad ac ni chânt eu cymryd i ystyriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yr unig faterion perthnasol mewn unrhyw apêl yw:

(1) ai tir y Goron yw'r tir mewn gwirionedd nad oes gan unrhyw berson hawl i'w feddiannu yn rhinwedd buddiant preifat (gan gynnwys trwydded ysgrifenedig oddi wrth yr awdurdod priodol);

(2) a yw'r materion a honnir yn yr hysbysiad wedi digwydd, mewn gwirionedd;

(3) os yw'r manteision wedi digwydd, a ddigwyddasant cyn 12 Ebrill 1984; a

(4) a yw'r materion yn gyfystyr â datblygu'r tir.

Diffinnir y termau "Tir y Goron", "buddiant preifat" a'r "awdurdod priodol" yn adran 293 y Ddeddf.

Diffinnir "Datblygiad" yn adran 55.

MAE'N BWYSIG IAWN, os ydych yn dymuno apelio yn erbyn yr hysbysiad ar y sail sydd ar gael, eich bod yn sicrhau bod eich apêl yn dod i law yn yr Adran, neu ei fod yn cael ei bostio mewn pryd i ddod i law gyda'r post arferol, **CYN** y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y bydd yn dod i rym. Nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw ddisgresiwn o gwbl i dderbyn apêl a gyflwynir ar neu ar ôl y dyddiad a bennir.

Y ffordd orau i apelio yw llenwi'r ffurflen apêl a ddylai fod wedi ei hamgáu gan yr awdurdod cynllunio lleol wrth iddynt gyflwyno copi o'r hysbysiad i chi. Os nad oes ffurflen gennych, ac nad oes modd i chi gael un yn gyflym, dylech apelio trwy gyfrwng llythyr, gan ddatgan eich enw a'ch cyfeiriad llawn, enw a chyfeiriad yr awdurdod cynllunio lleol o dan sylw, a chan roi disgrifiad byr o'r tir. Ar ôl i chi lenwi'ch ffurflen apêl, neu os ydych yn apelio drwy lythyr, anfonwch drwy'r post dosbarth cyntaf at:-

Arolygwyr Cynllunio
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF1 3NQ
Ffacs: 01222 825150

Marciwch yr amlen "Apêl hysbysiad gorfodi arbennig".

Atgynhyrchir testun llawn adrannau 294 a 295 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 isod. Mae copïau o'r Ddeddf ar gael oddi wrth Siopau Llyfrau Gwasg Ei Mawrhydi. Fel arall, gallwch eu gweld yn swyddfeydd eich Cyngor lleol neu mewn llyfrgell gyhoeddus.

294. -

(1) No enforcement notice shall be issued under section 172 in respect of development carried out by or on behalf of the Crown after 1st July 1948 on land which was Crown land at the time when the development was carried out.

(2) The following provisions of this section apply to development of Crown land carried out otherwise than by or on behalf of the Crown at a time when no person is entitled to occupy it by virtue of a private interest.

(3) Where -

(a) it appears to a local planning authority that development to which this subsection applies has taken place in their area, and

(b) they consider it expedient to do so having regard to the provisions of the development plan and to any other material considerations,

they may issue a notice under this section (a "special enforcement notice").

(4) No special enforcement notice shall be issued except with the consent of the appropriate authority.

(5) A special enforcement notice shall specify -

(a) the matters alleged to constitute development to which this section applies; and

(b) the steps which the authority issuing the notice require to be taken for restoring the land to its condition before the development took place or for discontinuing any use of the land which has been instituted by the development.

(6) A special enforcement notice shall also specify -

(a) the date on which it is to take effect ("the specified date"), and

(b) the period within which any such steps as are mentioned in subsection (5)(b) are to be taken.

(7) A special enforcement notice may specify different periods for the taking of different steps.

295. -

(1) Not later than 28 days after the date of the issue of a special enforcement notice and not later than 28 days before the specified date, the local planning authority who issued it shall serve a copy of it -

(a) on the person who carried out the development alleged in the notice;

(b) on any person who is occupying the land when the notice is issued; and

(c) on the appropriate authority.

(2) The local planning authority need not serve a copy of the notice on the person mentioned in subsection (1)(a) if they are unable after reasonable enquiry to identify or

trace him.

(3) Any such person as mentioned in subsection (1)(a) or (b) may appeal against the notice to the Secretary of State on the ground that the matters alleged in the notice:-

(a) have not taken place, or

(b) do not constitute development to which section 294 applies.

(4) A person may appeal against a special enforcement notice under subsection (3) whether or not he was served with a copy of it.

(5) The provisions contained in or having effect under sections 174(3) to (5), 175(1) to (4) and 176(1) to (4) shall apply to special enforcement notices issued by local planning authorities and to appeals against them under subsection (3) as they apply to enforcement notices and to appeals under section 174.

(6) The Secretary of State may by regulations apply to special enforcement notices and to appeals under subsection (3) such other provisions of this Act (with such modifications as he thinks fit) as he thinks necessary and expedient.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau o dan adran 295(6) (adran 3(8) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a thref 1984 gynt) o dan y teitl Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi Arbennig) 1992, OS 1992/1562. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gymwys, gyda'r diwygiadau angenrheidiol, i adrannau 173(1), 173A, 175(5), 179, 180, 181, 183, 184, 186, 187, 188, 285(1) a (2), 289 a 322 Deddf 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, i hysbysiadau gorfodi arbennig ac apelau yn erbyn hysbysiadau o'r fath.

TIR Y GORON - Ilwybrau gorfodi posibl o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad A Thref 1990



ATODIAD 8

CYFREITHLONDEB A'R DYSTYSGRIF DATBLYGU CYFREITHLON

Cyflwyniad

8.1 Yn yr Atodiad hwn ystyr "Deddf 1990" (ac eithrio lle caiff ei amodi gan "fel y'i deddfwyd yn wreiddiol") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 ("Deddf 1991").

8.2 Mae adrannau 191 a 192 o Ddeddf 1990 yn darparu i unrhyw un (ac nid person sydd â buddiant cyfreithiol yn y tir yn unig) wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol (ACLl) am dystysgrif datblygu cyfreithlon (TDC). Dogfen statudol yw'r dystysgrif sy'n ardystio:-

(1) yn achos cais o dan adran 191, fod datblygiad gweithredol neu ddefnydd tir neu ryw weithrediadau **presennol** sy'n cael eu cyflawni yn groes i amod cynllunio yn gyfreithlon at ddibenion cynllunio; neu

(2) yn achos cais o dan adran 192, fod datblygiad gweithredol neu ddefnydd tir **arfaethedig** yn gyfreithlon.

Nid oes gan ACLI unrhyw swyddogaeth o ran penderfynu a all fod angen caniatâd o dan ddeddfwriaeth arall megis Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Cyfreithlondeb at ddibenion cynllunio

8.3 Yn rhinwedd adran 191(2), mae *dibenion a gweithrediadau* yn "gyfreithlon" os na ellir cymryd unrhyw gamau gorfodi yn eu herbyn ac nad ydynt yn torri unrhyw hysbysiad gorfodi sydd mewn grym. Ac, yn rhinwedd adran 191(3), *mae methiant i gydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio odanynt* yn "gyfreithlon" os yw'r amser ar gyfer cymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r methiant wedi dod i ben ac os nad yw'n mynd yn groes i unrhyw hysbysiad gorfodi neu hysbysiad torri amodau sydd mewn grym. Mae datblygiad neu weithgarwch arall ar dir yn gyfreithlon at ddibenion cynllunio os bydd o fewn un o'r categorïau canlynol ac nad yw'n cynnwys methiant i gydymffurfio ag amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio odanynt:-

(1) nid yw o fewn y diffiniad o "ddatblygiad" yn adran 55(1) ac (1A) o Ddeddf 1990. (Gall hyn fod am ei fod mor ddibwys nes y gellir ei ddiystyru (gweithrediad, defnydd neu weithgarwch "de minimis"); neu am ei fod yn cynnwys newid defnydd nad yw, fel mater o ffaith a graddfa, yn sylweddol wahanol, at ddibenion cynllunio, i ddefnydd cyfreithlon blaenorol ar y tir); neu

(2) mae wedi'i hepgor yn benodol o'r diffiniad o ddatblygiad gan adran 55(2) (er enghraifft, defnyddio'r tir at ddibenion "amaethyddiaeth"); neu

(3) mae o fewn y diffiniad o "ddatblygiad" yn adran 55, ond wedi'i eithrio o'r angen am ganiatâd cynllunio gan ddarpariaethau adran 57; neu

(4) mae'n manteisio ar ganiatâd cynllunio sydd mewn bodolaeth o dan Ran III o Ddeddf 1990 (neu'r Rhannau cyfatebol o Ddeddfau blaenorol); neu

(5) mae'n manteisio ar ganiatâd cynllunio cyffredinol a roddwyd gan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (OS 1995/ 418), neu gan gynllun parth cynllunio syml neu gynllun parth menter; neu

(6) mae'n manteisio ar ganiatâd cynllunio tybiedig, boed o dan adran 90 neu yn

rhinwedd cydymffurfio â gofynion hysbysiad gorfodi sydd mewn grym; neu

(7) digwyddodd cyn 1 Gorffennaf 1948 (y "diwrnod penodedig" ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947); neu

(8) mae'n ddatblygiad gan neu ar ran y Goron; neu

(9) mae'r amser ar gyfer cymryd camau gorfodi wedi dod i ben.

Diffinnir "cymryd camau gorfodi" yn adran 171A o Ddeddf 1990, sef cyhoeddi hysbysiad gorfodi neu gyflwyno hysbysiad torri amod. Mae'r adran hefyd yn diffinio "torri rheol gynllunio" (y mae'n bosibl cymryd camau gorfodi yn ei erbyn) fel cyflawni datblygiad heb y caniatâd cynllunio angenrheidiol, neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio odanynt.

8.4 Daw toriad rheol cynllunio yn "imiwn" rhag camau gorfodi cynllunio os na chymerwyd camau o'r fath o fewn terfynau amser penodol. Yn rhinwedd adran 191(2) a (3) o Ddeddf 1990, daw toriad rheol gynllunio sydd wedi cael imwnedd oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio hefyd yn "gyfreithlon" at ddibenion cynllunio, fel yr esbonnir ym mharagraff 8.3 uchod.

8.5 Fel yr esbonnir ym mharagraffau 2.4 a 2.5 o Atodiad 2 i'r Cylchlythyr hwn, mae adran 171B o Ddeddf 1990 yn pennu'r terfynau amser ar gyfer cymryd camau gorfodi.

8.6 Ceir canllawiau ar ddehongli'r termau "wedi'i gwblhau'n sylweddol" a "defnyddio fel un tŷannedd", lle cânt eu defnyddio mewn perthynas â'r terfynau amser, ym mharagraffau 2.80 a 2.81 o Atodiad 2 o'r Cylchlythyr hwn.

8.7 Effaith gyfun y darpariaethau hyn yw os oedd y datblygiad neu'r gweithgarwch yn imwn, ar neu ar ôl 27 Gorffennaf 1992, rhag camau gorfodi, daeth yn gyfreithlon hefyd at ddibenion cynllunio. Mae hyn yn gymwys ni waeth a roddwyd TDC neu beidio o dan adrannau 191 neu 192 o Ddeddf 1990. Nid oes unrhyw reidrwydd i wneud cais am TDC, er bod sicrhau tystysgrif neu sicrhau caniatâd cynllunio yn rhagofyniad i wneud cais am unrhyw un o'r trwyddedau y cyfeirir atynt ym mharagraff 8.24 isod.

Gwneud cais am TDC

8.8 Mae erthygl 24(1) i (4) o'r Gorchymyn Datblygu Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995, OS 1995/419, ("y GDPO"), yn pennu cynnwys cais a sut y dylid ei gyflwyno. Rhaid cyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig i'r ACLl. Er na phennir unrhyw ffurflen gais yn y GDPO, ceir ffurflenni cais enghreifftiol, y gallai'r ACLl ddymuno'u defnyddio, ynghlwm wrth yr Atodiad hwn.

8.9 Ceir dau fath o gais:

(1) mae is-adran (1) o adran 191 yn darparu ar gyfer cais i benderfynu a yw defnydd neu weithrediad presennol penodedig, neu fethiant presennol penodedig â chydymffurfio ag amod neu gyfyngiad cynllunio, sydd eisoes wedi'i gyflawni ar dir, yn gyfreithlon at ddibenion cynllunio; a

(2) mae is-adran (1) o adran 192 yn darparu ar gyfer cais i benderfynu a fyddai unrhyw ddefnydd neu weithrediadau arfaethedig yn gyfreithlon at ddibenion cynllunio.

Y ffi am y cais

8.10 Mae ffi a bennir yn statudol yn daladwy i'r ACLl mewn perthynas â'r mwyafrif o geisiadau am TDC. Y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n hwyluso hyn yw adran 303 o Ddeddf 1990. Pennir lefel y ffi gan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989 (OS 1989 Rhif 193) fel y'i diwygiwyd gan OS 1992 Rhif 1817, OS 1993 Rhif 3170 ac OS 1997/37. Nid oes disgresiwn ynghylch y swm a godir, er bod yna rai consesiynau. Gwelir gwybodaeth bellach yn Ychwanegiad 2 o'r Atodiad i Gylchlythyr 73/92 y Swyddfa Gymreig. Tynnwyd un consesiwn interim yn ôl (hanner y ffi berthnasol) am gais mewn perthynas â defnydd presennol a ategir gan "dystysgrif defnydd sefydledig".

Penderfynu ceisiadau - cyffredinol

8.11 Mae'n bwysig cadw diben y darpariaethau mewn cof. Maent yn galluogi perchnogion ac eraill i ddarganfod a fyddai defnyddiau, gweithrediadau neu weithgareddau *penodol* yn gyfreithlon. Ond nid ydynt yn galluogi unrhyw un i ofyn y cwestiwn cyffredinol, "beth sy'n gyfreithlon neu beth fyddai'n gyfreithlon?" Oherwydd hynny, rhaid i'r ceisydd ddisgrifio'n fanwl yr hyn y mae'n gwneud cais amdano - fel sy'n ofynnol o dan adran 191(1) neu 192(1) o Ddeddf 1990 ac Erthygl 24(1) o'r GDPO. Mae'n annigonol i'r ceisydd roi manylion un yn unig o'r "dosbarthiadau defnydd" yn yr Atodlen i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 ("yr UCO"). Yn achlysurol gall y sawl sy'n gwerthu eiddo wneud cais adran 192 a cheisio disgrifio'r gweithgaredd arfaethedig fel hyn. Er enghraifft, gellir defnyddio adeilad fel swyddfeydd (heblaw Dosbarth A2) ac mae'r cais yn disgrifio'r cynnig fel "defnydd fel swyddfeydd o fewn dosbarth B1". Yn ddieithriad, wrth i'r ACLl ei archwilio'n gyntaf, ceir mai'r angen i ddarganfod a yw'r defnydd presennol yn gyfreithlon yw'r gwir reswm am y cais: ac fe ddaw'n glir y dylai'r cais fod wedi'i gyflwyno o dan adran 191 . Er hynny, os oedd gwybodaeth sy'n ofynnol o dan Erthygl 24(1) mewn perthynas â chais adran 191 yn cyd-fynd â'r cais, gellir ei benderfynu felly, er y dylid wrth gwrs roi gwybod gyntaf i'r ceisydd fod yr ACLl yn cynnig ymdrin â'r cais fel hyn. Pan fyddant wedi'u bodloni bod y cais yn ddilys, yr hyn y mae'n rhaid i'r ACLl fynd i'r afael ag ef wrth ddod i'w penderfyniad yw a yw'r mater penodedig yn gyfreithlon neu a fyddai'n gyfreithlon ar sail ffeithiau'r achos a Chyfraith Gynllunio berthnasol.

Y baich prawf mewn cais

8.12 Yn nwylo'r ceisydd yn bendant y mae'r baich prawf mewn cais am TDC. Er y dylai'r ACLl bob amser gydweithredu gyda cheisydd sy'n ceisio gwybodaeth sydd ganddynt am statws cynllunio'r tir, trwy drefnu bod cofnodion ar gael yn rhwydd, nid oes angen iddynt fynd i drafferth fawr i ddangos nad yw'r defnydd, y gweithrediadau, neu'r methiant â chydymffurfio ag amod, a bennir yn y cais yn gyfreithlon. Er ei bod yn ofynnol yn statudol i ACLl gynnal y gofrestr gynllunio, nid yw hon yn gofnod cyflawn o statws cynllunio'r holl dir yn eu hardal. Mewn llawer o achosion, y ceisydd am dystysgrif fydd yn y sefyllfa orau i gynnig gwybodaeth am y gweithgareddau presennol, ac unrhyw weithgareddau blaenorol, sy'n digwydd ar y tir, gan gynnwys copi o unrhyw ganiatâd cynllunio a ddelir ganddo. Bydd rhywfaint o wybodaeth, yn enwedig ynglŷn â hanes unrhyw weithgarwch diawdurdod ar y tir, o fewn gwybodaeth y ceisydd yn unig. Nid yw'r ffaith y gellir gwrthod TDC am na chyflawnir y baich prawf gan y ceisydd yn rhwystro cyflwyno cais pellach os bydd tystiolaeth well ar gael wedyn. Felly nid yw gwrthod rhoi TDC o reidrwydd yn golygu nad yw rhywbeth yn gyfreithlon: gall olygu cyn lleied ag na chyflwynwyd tystiolaeth ddigonol, hyd yn hyn, i fodloni'r ACLl bod defnydd, gweithrediad neu weithgarwch yn gyfreithlon. Am y rheswm hwn, nid oes diben i drydydd partïon fynd ar drywydd gwrthwynebiadau i weithgareddau drwy wneud ceisiadau am TDC.

Cais am TDC mewn perthynas â gweithrediadau, dibenion neu weithgareddau sy'n bodoli eisoes (adran 191)

8.13 Mae adran 191(1) o Ddeddf 1990 yn galluogi unrhyw un i wneud cais i'r ACLl am benderfyniad a yw defnydd presennol, datblygiad gweithredol presennol, neu fethiant presennol â chydymffurfio ag amod neu gyfyngiad cynllunio, sydd eisoes wedi'i gyflawni ar y tir, yn gyfreithlon at ddibenion cynllunio.

8.14 Pan geir cais o dan adran 191, os rhoddir gwybodaeth i'r ACLl sy'n eu bodloni, adeg y cais, fod y defnydd, y gweithrediadau neu'r mater arall a ddisgrifir yn y cais, neu'r disgrifiad hwnnw fel y'i diwygiwyd gan yr ACLl neu'r disgrifiad a fewnosodir ganddynt (gweler paragraff 8.35 isod) yn gyfreithlon, mae is-adran (4) o adran 191 yn darparu bod rhaid iddynt roi tystysgrif i'r perwyl hwn; ac, mewn unrhyw achos arall, rhaid iddynt wrthod y cais.

Y prawf perthnasol o'r dystiolaeth a gyflwynir

8.15 Mewn apelau at yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n codi "materion cyfreithiol" (er enghraifft, apelau gorfodi ar seiliau (b) i (e) yn adran 174(2)), lle bo'r baich prawf ar yr apelydd, mae'r Llysoedd wedi dyfarnu mai'r prawf perthnasol o'r dystiolaeth ar faterion o'r fath yw "cydbwysedd tebygolrwydd". Gan y cymhwysir y prawf hwn felly gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn unrhyw apêl yn erbyn eu penderfyniad, ni ddylai ACLl wrthod tystysgrif am

fod y ceisydd wedi methu â chyflawni'r baich prawf llymach, troseddol, sef "y tu hwnt i amheuaeth resymol". Ymhellach, mae'r Llys wedi dyfarnu (gweler - **F W Gabbitas v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Newham LBC** [1985] JPL 630) nad oes rhaid i dystiolaeth y ceisydd ei hun gael ei hategu gan dystiolaeth "annibynnol" er mwyn cael ei derbyn. Os nad oes gan yr ACLl unrhyw dystiolaeth eu hunain, nac oddi wrth bobl eraill, i wrth-ddweud neu beri bod fersiwn y ceisydd o ddigwyddiadau fel arall yn llai na thebygol, nid oes unrhyw reswm da dros wrthod y cais, ar yr amod bod tystiolaeth yr ymgeisydd ei hun yn ddigon manwl-gywir a diamwys i gyfiawnhau rhoi tystysgrif "ar gydbwysedd tebygolrwydd". Dylai'r ACLl symud ymlaen ar y sail nad yw enw'r ceisydd (ac eithrio i'r graddau y bydd neu na fydd ef neu hi yn gallu cadarnhau cywirdeb unrhyw honiad a wneir ynghylch hanes y parsel o dir yn bersonol), na rhagoriaethau cynllunio'r gweithrediad, y defnydd neu'r gweithgarwch, yn berthnasol i ystyriaethau ar y materion cyfreithiol pur sydd ynghlwm wrth benderfynu cais.

Cynnwys TDC o dan adran 191

8.16 Mae is-adran (5) o adran 191 yn darparu ar gyfer rhai materion y mae'n rhaid i dystysgrif eu cynnwys. Mae'r TDC yn arbennig o werthfawr am fod ei heffaith yn debyg i roi caniatâd cynllunio. Mae'n hanfodol felly fod y dystysgrif yn nodi'n fanwl-gywir arwynebedd y tir y mae'n ymwneud ag ef (fel rheol trwy amgáu plan o'r safle yn ôl graddfa); union fanylion pa ddefnydd, gweithredoedd neu fethiant â chydymffurfio ag amod sy'n gyfreithlon, pam a phryd. Er enghraifft, os yw'r dystysgrif yn un ar gyfer defnydd tir - oni bai fod y defnydd yn dod o fewn un o'r "dosbarthiadau defnydd" a bennir yn yr UCO sy'n gyfredol ar y pryd, neu os rhoddir y dystysgrif ar y sail bod rhoi caniatâd cynllunio penodol yn rhoi cyfreithlondeb i'r defnydd - mae'n bwysig iddi ddatgan cyfyngiadau'r defnydd ar ddyddiad penodol. Ni fydd y manylion hyn yn gyfartal yn gyfreithiol ag amod neu gyfyngiad cynllunio. Pwynt cyfeirio fyddant, sy'n pennu'r hyn a oedd yn gyfreithlon ar ddyddiad penodol, y gellir asesu unrhyw newid wedyn yn ei erbyn. Os bydd y defnydd yn dwysáu wedyn, neu'n newid mewn rhyw ffordd i'r graddau lle bydd newid "sylweddol" yn y defnydd yn digwydd, gall yr ACLl wedyn gymryd camau gorfodi yn erbyn y toriad o'r rheol gynllunio (y gallai tystysgrif lai fanwl-gywir eu rhwystro). Felly rhaid i'r TDC gael ei llunio'n fanwl-gywir ym mhob peth. (Gweler 8.11 hefyd ynglŷn â'r angen i geisiadau fod yn rhai penodol).

8.17 Yn rhinwedd adran 191(5)(b), rhaid i TDC gynnwys disgrifiad o'r defnydd, y gweithrediadau neu fater arall y mae'n cael ei roi ar eu cyfer ni waeth a yw'r materion yn dod o fewn "dosbarth defnydd" o'r UCO. Ond lle bo'r TDC o fewn "dosbarth defnydd", rhaid iddo bennu'r "dosbarth" perthnasol. Ym mhob achos rhaid i'r disgrifiad fod yn fwy na theitl neu label yn unig, os fwnedir osgoi problemau dehongli yn y dyfodol. Dylai'r TDC felly ddargan nodweddion y mater er mwyn ei ddiffinio yn ddiamwys. Mae hyn yn arbennig o fwysig ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn dod on fewn unrhyw "ddosbarth defnydd" (hynny yw, defnydd "sui generis"). Felly gall TDC ar gyfer safle carafannau gynnwys fel rheol nifer a math neu faint carafan *sy'n gyfreithlon ar ddyddiad y cais* a, lle bo'r defnydd yn ddefnydd tymhorol, dyddiadau'r calendar pan ddigwyddodd y defnydd hwnaw.

8.18 Mae paragraff 8.16 uchod yn esbonio, o ran egwyddor, pam y gall fod angen cymaint o fanylion, yn gyntaf ar y ceisydd wrth wneud cais am y TDC, ac wedyn yn y dystysgrif ei hun. Hwyrach y bydd enghreifftiau pellach yn ddefnyddiol i ACLl ac i ddarpar-geiswyr.

8.19 Un enghraifft amlwg lle byddai manylion o'r fath yn angenrheidiol fyddai achos adeilad diawdurdod a gwblhawyd yn sylweddol mwy na phedair blynedd yn ôl ac y mae tystysgrif yn cael ei cheisio ar ei gyfer. Dylai'r cais, ac unrhyw TDC, enwi lleoliad a ffurf yr adeilad hwnnw (a all fod ar safle gyda nifer o adeiladau tebyg) yn ddigon manwl-gywir i sicrhau na ellir ei gamgymryd am **unrhyw** adeilad arall ar y safle, naill ai ar ddyddiad y cais neu yn y dyfodol. Mae hyn yn lleihau'r posibilrwydd o'i gymysgu ag unrhyw adeilad newydd a fydd yn ei ddisodli wedyn ar yr un lle yn y safle. Fel rheol y ffordd orau o adnabod adeilad yw plan neu blaniau yn ôl graddfa a pha ddeunydd disgrifiadol ychwanegol bynnag sy'n angenrheidiol i ddisgrifio lleoliad, dyluniad a golwg yr adeilad, gan gynnwys lluniadau manwl-gywir o drychiadau'r adeilad.

8.20 Yn yr un modd, dylai TDC ar gyfer parc cerbydau, a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar gyfer parcio ceir modur yn unig, bennu'r cyfyngiad hwnnw (a bwrw bod y TDC yn deillio o

ddefnydd di-awdurdod deng mlynedd yn hytrach nag o ganiatâd cynllunio). Yna, os defnyddir y tir wedyn ar gyfer parcio lorïau cymalog neu goetsys, a all gael y cyfryw effaith ar amwynder yr ardal gyffiniol, o ran termau cynllunio, nes bod newid "sylweddol" yng nghymeriad y defnydd yn digwydd, byddai'r ACLl yn gallu ei reoli.

8.21 Derbynnir yn gyffredinol y gall defnydd "sui generis" nad yw mewn "dosbarth defnydd" yn yr UCO, megis iard adeiladwr neu lawer o ganolfannau cludwyr, fod yn "sylweddol" wahanol yn nhermau cynllunio i ddefnydd arall sydd er hynny yn dod o fewn yr un disgrifiad cyffredinol. Mewn geiriau eraill, fe all fod newid defnydd "sylweddol" y mae'n ofynnol sicrhau caniatâd cynllunio ar ei gyfer, rhwng, er enghraifft, defnydd iard un adeiladwr, neu ddefnydd penodol fel canolfan cludwr, a'r llall. Nid yw newid perchnogaeth neu ddaliadaeth tir ynddo'i hun yn gyfystyr â newid defnydd sylweddol. Serch hynny, lle nad yw iard adeiladwr wedi'i ddefnyddio yn y gorffennol ond gan adeiladwr bach ar gyfer ei swyddfa, fel canolfan i un neu ddau gerbyd ac i storio deunyddiau adeiladu, oni bai fod y manylyn hwnnw ar lefel y defnydd yn cael ei bennu yn y dystysgrif (neu drwy amod neu gyfyngiad yn y caniatâd y seilir y TDC arno), ni fydd gan yr ACLl ddigon o reolaeth yn y dyfodol dros unrhyw ddwysáu sylweddol ar y defnydd (o bosibl gan gontractiwr adeiladu sy'n dechrau storio offer trwm a pheiriannau, cymysgu concrid a gweithgynhyrchu eitemau saernïaeth ar y tir). Ni ellir rheoli dwysáu o'r fath, er y gellid dadlau ei fod yn gyfystyr â newid defnydd "sylweddol" o'r defnydd blaenorol, pe bai'r safle yn manteisio ar dystysgrif defnydd cyfreithlon a oedd yn nodi y gallai fod yn "iard adeiladwr" yn gyfreithlon, heb amodau pellach.

8.22 Lle rhoddir TDC ar gyfer un defnydd ar "uned gynllunio" sydd mewn defnydd cymysg neu ddefnydd cyfansawdd, mae'n bosibl y bydd angen adlewyrchu'r sefyllfa hon yn ofalus yn y dystysgrif. Gall methu â gwneud hynny arwain at golli rheolaeth dros unrhyw ddwysáu canlynol ar y defnydd yn y dystysgrif os yw'n ymestyn i'r cyfan o'r tir yn yr uned gynllunio, gan gau allan y dibenion eraill a oedd yn digwydd ar y tir o'r blaen (gweler **Wipperman v Barking LBC** (1965) 17 P&CR 225).

Effaith TDC o dan adran 191

8.23 Mae is-adran (6) o adran 191 yn darparu bod rhaid rhagdybio cyfreithlondeb unrhyw fater y mae tystysgrif mewn grym ar ei gyfer o dan yr adran hon yn llwyr oherwydd, pan fydd tystysgrif wedi'i rhoi, mae'n bwysig na ddylai neb allu "edrych y tu ôl iddo" er mwyn amau a yw'r hyn sydd ar ei wyneb yn ddilys. **Nid yw'r datganiad mewn TDC o'r hyn sy'n gyfreithlon yn ymwneud ond â'r sefyllfa ar y tir ar ddyddiad y cais am y dystysgrif.** Fel yr esboniwyd uchod, os ceir datblygiad ar y tir sy'n torri rheol gynllunio, ar ôl rhoi tystysgrif, dylai'r ACLl allu cymryd y camau gorfodi hynny sy'n gyfleus.

8.24 Mewn rhai achosion, mae adran 191(7) yn darparu bod rhoi TDC yn cyfateb â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer sicrhau trwydded sy'n ofynnol gan y cyfundrefnau trwyddedu a ddeddfwyd mewn deddfwriaeth arall. Ar hyn o bryd yr achosion hyn yw cais am:-

(1) trwydded safle carafanau o dan adran 3 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960; a

(2) trwydded rheoli gwastraff a roddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd o dan adran 36 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Cais am TDC mewn perthynas â gweithrediadau, dibenion neu weithgareddau arfaethedig (adran 192)

8.25 Diben is-adran (1) o adran 192 yw galluogi unrhyw berson sy'n dymuno darganfod a fyddai defnydd neu weithrediadau arfaethedig yn gyfreithlon i wneud cais i'r ACLl i'r perwyl hwnnw.

8.26 Mae is-adran (2) o adran 192 yn cyfateb, ar gyfer cynigion, ag adran 191(4) a ddisgrifiwyd ym mharagraff 8.14 uchod. Os rhoddir gwybodaeth i'r ACLl sy'n eu bodloni y byddai'r defnydd neu'r gweithrediadau a ddisgrifir yn y cais yn gyfreithlon, pe baent yn cael eu dechrau adeg y cais, mae'n darparu bod rhaid iddynt roi tystysgrif i'r perwyl hwnnw; ac, mewn unrhyw achos arall, bod rhaid iddynt wrthod y cais. Yn nwylo'r ceisydd y mae'r baich prawf yn bendant. Bydd rhaid iddo ddisgrifio'r cynnig yn ddigon clir a manwl-gywir i alluogi'r

ACLl i ddeall (o ddisgrifiad ysgrifenedig a phlaniau) beth yn union y mae'r cais yn ei olygu; a chyflwyno'r wybodaeth ategol honno neu'r cyflwyniad cyfreithiol hwnnw ag y mae'n dymuno ei wneud i fodloni'r ACLl y dylid rhoi tystysgrif datblygu cyfreithlon ar gyfer y cynnig. Lle bydd hynny'n cynnwys newid defnydd, bydd angen disgrifio'r defnydd presennol, neu'r defnydd diweddaraf, ar y tir; a, lle dibynnir ar gyfreithlondeb y defnydd hwnnw i hwyluso gweithredu'r defnydd arfaethedig, bydd angen darparu gwybodaeth ddigonol i fodloni'r ACLl fod y defnydd presennol yn gyfreithlon (gan roi sylw i'r meini prawf ym mharagraff 8.16 uchod ar gyfer penderfynu peth sy'n gyfreithlon).

8.27 Wrth wneud eu penderfyniad ar gais o dan adran 192, bydd yr ACLl yn gofyn iddynt eu hunain y cwestiwn damcaniaethol - "Pe bai'r newid defnydd arfaethedig hwn wedi digwydd, neu pe bai'r gweithrediad arfaethedig hwn wedi dechrau, ar ddyddiad y cais, a fyddai wedi bod yn gyfreithlon at ddibenion cynllunio?". Wrth wneud hynny, byddant yn ystyried nid yn unig a fyddai'r cais yn golygu "datblygiad" y byddai'n ofynnol gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar ei gyfer, ond a fyddai'n golygu torri unrhyw amod neu gyfyngiad presennol a osodwyd wrth roi caniatâd cynllunio sydd wedi'i weithredu, ac sydd felly'n cyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud ar y tir.

TDC a roddir o dan adran 192

8.28 Mae is-adran (3) o adran 192 yn cyfateb, yn achos dibenion neu weithrediadau arfaethedig, ag adran 191(5). Mae'n darparu bod rhaid i TDC a roddir o dan adran 192 bennu'r tir y mae'n ymwneud ag ef; disgrifio'r defnydd neu'r gweithrediadau o dan sylw (lle bo'n briodol, gan adnabod defnydd drwy gyfeirio at y "dosbarth defnydd" perthnasol); rhoi'r rheswm pam y byddai cyflawni'r cynnig yn gyfreithlon; a phennu dyddiad y cais. Er na fyddai'r dystysgrif hon yn cyfateb, yn gyfreithiol, â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig, fe fyddai'n nodi, oni bai fod unrhyw ffactor berthnasol wedi newid ers dyddiad y cais a bennir yn y dystysgrif, y byddai'n gyfreithlon bwrw ymlaen â'r cynnig. Felly mae'n hanfodol sicrhau bod telerau'r dystysgrif yn fanwl-gywir ac nad oes unrhyw le i amau beth sy'n gyfreithlon ar unrhyw ddyddiad penodol.

Effaith TDC a roddir o dan adran 192

8.29 Mae is-adran (4) o adran 192 yn darparu bod rhaid rhagdybio cyfreithlondeb unrhyw ddefnydd neu weithrediadau y mae tystysgrif mewn grym ar eu cyfer yn yr adran hon yn llwyr oni bai fod yna newid sylweddol, cyn i'r defnydd hwnnw gael ei gychwyn neu cyn i'r gweithrediadau ddechrau, mewn unrhyw un o'r materion sy'n berthnasol wrth benderfynu cyfreithlondeb o'r fath.

8.30 Enghreifftiau amlwg o newid o'r fath fyddai cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 y GPDO yn dileu'r hawl benodol "datblygu a ganiateir", yn Atodlen 2 y GPDO y byddai'r cynnig wedi dibynnu arni am ei gyfreithlondeb; neu ddiddymu'r caniatâd cynllunio y mae'r cynnig yn dibynnu arno; neu ddiwygiad statudol i'r hawliau "datblygu a ganiateir" yn y GPDO ei hun. Serch hynny, ar yr amod bod yr amgylchiadau a'r darpariaethau statudol yn aros heb eu newid rhwng dyddiad y cais a bennir yn y dystysgrif a dyddiad cychwyn y defnydd arfaethedig neu ddechrau'r gweithrediadau arfaethedig, mae'r newid defnydd yn aros yn gyfreithlon, neu mae'r gweithrediadau'n gyfreithlon, a gellir eu cwblhau'n gyfreithlon, fel y bo'n wir.

Effaith tystysgrif "defnydd sefydledig" sy'n bodoli eisoes, a roddir o dan adran 194 neu 195 y Ddeddf fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, a'i throsi'n TDC

8.31 Nid oes unrhyw reidrwydd i drosi tystysgrif "defnydd sefydledig" (TDS) sydd eisoes yn bodoli yn dystysgrif datblygu cyfreithlon. Mae'n bosibl bod TDS yn ddogfen lai werthfawr na thystysgrif datblygu cyfreithlon. Serch hynny, mae'n cadw ei gwerth blaenorol, fel y'i disgrifiwyd yn adran 192(4) Deddf 1990 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol. Yn gryno, mae'n derfynol mewn perthynas ag unrhyw faterion a nodir ynddi at ddiben yr apêl yn erbyn unrhyw hysbysiad gorfodi a roddir ar ôl y dyddiad a bennir gan y dystysgrif. Nid yw'n derfynol o ran unrhyw beth sydd wedi digwydd ar y tir ers y dyddiad a bennwyd yn y dystysgrif. Felly, lle cafwyd newid defnydd sylweddol pellach, neu lle rhoddwyd y gorau i'r "defnydd sefydledig" ers y dyddiad hwnnw, mae'n bosibl na fydd y defnydd a ddisgrifir yn y TDS yn "imwn" bellach rhag camau gorfodi, neu nad yw'n gyfreithlon bellach. Am y rheswm hwn, lle nad oes

angen iddynt "edrych y tu ôl" i unrhyw TDS a gyflwynir i ategu cais i "drosi" TDS yn dystysgrif datblygu cyfreithlon (ac yn y mwyafrif o achosion dylai hyn leihau costau gweinyddol yr ACLl yn sylweddol wrth ystyried ceisiadau o'r fath), bydd angen i'r ACLl eu bodloni eu hunain fod y "defnydd sefydledig" a enwir yn y dystysgrif wedi parhau i ddigwydd ar y tir heb unrhyw newid "sylweddol" cyn rhoi tystysgrif datblygu cyfreithlon am yr un defnydd. Yn ogystal, yn yr un modd ag unrhyw gais tystysgrif datblygu cyfreithlon, gall fod yn angenrheidiol, ac yn berffaith briodol, i'r ACLl ddisgrifio'r defnydd yn fwy manwl-gywir yn y dystysgrif datblygu cyfreithlon nag yn y TDS a'i rhagflaenodd.

8.32 Am y rhesymau hyn, er bod effaith a gwerth TDS sy'n bodoli eisoes yn aros heb eu newid, nid oes gan TDS unrhyw effaith "at ddibenion adran 191" o Ddeddf 1990, fel y'i diwygiwyd. Rhaid i gais i "drosi" TDS yn dystysgrif datblygu cyfreithlon gael ei gyflwyno yn yr un modd ag unrhyw gais arall am dystysgrif datblygu cyfreithlon.

Darpariaethau atodol: ceisiadau o dan adrannau 191 a 192

8.33 Fel a nodwyd yn y paragraffau blaenorol, mae erthygl 24 o'r GDPO yn darparu ar gyfer y ffordd y mae ceisiadau am dystysgrifau datblygu cyfreithlon i'w cyflwyno a'u trafod, a'r materion sydd i'w cynnwys mewn ceisiadau a thystysgrifau. Mae adran 193 o Ddeddf 1990 yn pennu'r trefniadau hyn ac yn cynnwys darpariaethau atodol, yn ogystal â'r pŵer hwyluso ar gyfer y GDPO.

8.34 Mae'r GDPO yn darparu i'r ACLl gyfarwyddo'r ymgeisydd i ddarparu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i brosesu a phenderfynu'r cais. Nid oes gofyniad i gynnwys tystysgrif o dan adrannau 66 neu 67 o Ddeddf 1990 ynghlwm wrth gais am TDC, o dan adran 191 neu adran 192. Mae hyn oherwydd bod y materion sydd i'w penderfynu yn y ddau achos yn faterion o ffaith dystiolaethol a'r Gyfraith Gynllunio yn unig, gyda'r baich prawf ar y ceisydd. Gall fod gan unrhyw un heblaw'r ceisydd sydd â buddiant yn y tir neu gymdogion y safle dystiolaeth sy'n berthnasol i'r cais. Os bydd y dystiolaeth honno'n ategu'r cais, mater i'r ceisydd yw ei dangos, os gall wneud hynny, i ategu ei gais. Os bydd y dystiolaeth yn tueddu i wrthbrofi'r achos mae'r ceisydd mewn perygl o gael ei erlyn, a gall unrhyw TDC a roddwyd gael ei diddymu, os yw'n ei dal yn ôl (gweler paragraffau 8.38 a 8.40 isod). Serch hynny, os bydd yr ACLl o'r farn y gall person sydd â buddiant cyfreithiol yn y tir neu gymydog wrthbrofi honiad a wnaed mewn cais, mae'n agored iddynt ganfasio'r dystiolaeth honno os dymunant, cyn penderfynu'r cais. Serch hynny, mae unrhyw sylwadau ar ragoriaethau cynllunio'r achos, neu a oes gan y ceisydd unrhyw hawliau preifat i gynnal y gweithrediad, y defnydd neu'r gweithgarwch o dan sylw, yn amherthnasol. (Fel yr esboniwyd ym mharagraffau 8.15 ac 8.45, nid yw rhagoriaethau cynllunio yn cael eu hystyried ar unrhyw adeg yn y cais am TDC neu'r broses apêl: nid oes unrhyw "gais tybiedig am ganiatâd cynllunio" os na roddir TDC ar apêl).

8.35 Mae is-adran (4) o adran 193 yn darparu i TDC gael ei rhoi mewn perthynas â'r cyfan neu ran o'r tir a bennir yn y cais, a lle bo'r cais yn pennu dau neu ragor o faterion, mewn perthynas â phob un, neu ryw un, neu fwy ohonynt; ac i fod yn y cyfryw ffurf ag a bennir gan orchymyn datblygu. Bwriad hyn, ynghyd â phwer yr ACLl o dan adran 191(4) i roi tystysgrif o ddisgrifiad gwahanol i'r hyn y gwnaed cais amdani, yw rhoi graddfa resymol o hyblygrwydd i'r ACLl mewn achosion lle byddai'n ddefnyddiol i'r ceisydd gael tystysgrif mewn telerau sydd ychydig yn wahanol i delerau ei gais, a gwneud hynny yn lle gwrthod tystysgrif yn gyfan gwbl. Er enghraifft, mae'n bosibl cynnwys arwynebedd llai o dir. Mae'r GDPO yn cynnwys ffurf benodedig ar dystysgrif datblygu cyfreithlon i'w defnyddio o dan adran 191 ac adran 192. Mae'r ffurf benodedig yn esbonio ei heffaith. Lle bo angen, dylai'r ACLl gynnwys yn y ffurflen, ar gyfer pob math o dystysgrif, raddfa'r manylion disgrifiadol y sonnir amdanynt ym mharagraff 8.17 uchod. Lle bo'n briodol, gellid cydategu hyn drwy gynnwys cyfeiriad at delerau'r cais a'r planiau neu'r lluniadau sydd ynghlwm wrtho, er enghraifft drwy roi tystysgrif mewn perthynas â defnydd tir "fel a ddisgrifir yn fwy penodol yn" neu "yn unol â" thelerau'r cais a gyflwynwyd. Neu, gall y disgrifiad yn y dystysgrif fod yn fanylach nag yn y cais.

8.36 Mae is-adran (5) o adran 193 yn darparu na fydd tystysgrif datblygu cyfreithlon a roddir o dan adran 191 neu 192 yn effeithio ar unrhyw fater sy'n gyfystyr â methiant i gydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo, oni bai fod y mater hwnnw yn cael ei ddisgrifio yn y dystysgrif. Mewn

achos lle rhoddir TDC ar y sail bod caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer y datblygiad, mae hynny'n golygu nad yw'r ffaith bod y TDC yn ardystio bod y datblygiad yn gyfreithlon yn golygu y gall ddigwydd yn gyfreithlon heb gydymffurfio yn y dyfodol ag unrhyw amodau neu gyfyngiadau a osodir ar y caniatâd hwnnw, ac eithrio i'r graddau a ddisgrifir yn benodol yn y TDC. Ni fydd toriadau amhenodol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol yn cael eu cynnwys gan y TDC. Er enghraifft, os oedd y caniatâd cynllunio'n ddarostyngedig i nifer o amodau, ni ellid ystyried bod TDC-a roddid mewn perthynas ag un ohonynt yn cyfreithloni unrhyw un arall. Yn ogystal, mae'n bosibl torri rhai amodau unigol mewn ffyrdd gwahanol. Y *mater* sy'n gyfystyr â methiant i gydymffurfio â'r amod, yn hytrach na'r amod ei hun, y dylai'r TDC ei ddisgrifio, lle bo'n briodol. Os oes amod yn gwahardd storio awyr agored ar safle wedi bod yn cael ei dorri ers mwy na deng mlynedd, er enghraifft drwy storio deunyddiau yn yr awyr agored ar ran benodol o'r safle, dylai'r TDC ddisgrifio graddfa'r toriad sydd wedi dod yn gyfreithlon. Wedyn ni fyddai tystysgrif o'r fath yn cynnwys toriad ar yr amod yn y dyfodol mewn perthynas â storio yn yr awyr agored ar ran wahanol o'r safle i'r hyn a ddisgrifir yn y TDC.

Cofnod yn y gofrestr gynllunio

8.37 Yn rhinwedd is-adran (6) o adran 193, gwnaed darpariaeth yn Erthygl 25 o'r GDPO i geisiadau am dystysgrifau datblygu cyfreithlon a phenderfyniadau gael eu cofnodi yn y gofrestr gynllunio yn unol ag adran 69 o Ddeddf 1990.

Diddymu tystysgrifau

8.38 Mae is-adrannau (7) ac (8) o Adran 193 yn darparu y gall ACLl ddiddymu TDC a roddwyd o dan adran 191 neu 192 os gwnaed datganiad ar y cãis, neu os defnyddiwyd dogfen, a oedd yn ffug o ran manylion penodol, neu os daliwyd unrhyw wybodaeth berthnasol yn ôl; ac y gall y gorchymyn datblygu darparu ar gyfer rheoli dull diddymu'r TDC a'r hysbysiad sydd i'w roi o ddiddymiad o'r fath.

8.39 Mae'r pwerau hyn ar gael i'w defnyddio pan ddaw'n glir bod TDC wedi'i seilio'n anghywir ar ddatganiad ffug, neu y daliwyd gwybodaeth berthnasol yn ôl o'r ACLl wrth iddynt ystyried y cais. Am ei bod yn amlwg yn fater difrifol i'r ceisydd fod TDC wedi'i diddymu, mae erthygl 24 (12) i (14) o'r GDPO yn darparu gweithdrefn statudol y dylai ACLl ei dilyn wrth roi hysbysiad am ddiddymu ac wrth gyflawni'r diddymiad. Nid oes dim iawndal yn daladwy yn achos diddymiad. Mater i'r ACLl yn gyfan gwbl yw'r penderfyniad i ddiddymu TDC, hyd yn oed lle rhoddwyd honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Os ydynt yn bwriadu diddymu tystysgrif, rhaid iddynt roi hysbysiad am eu bwriad, ac felly ddarparu cyfle i'r derbynwyr gyflwyno sylwadau cyn i'r ACLl wneud eu penderfyniad. Er y cyfyngir yn statudol gan adran 193 (7) ar yr amgylchiadau lle y gall TDC gael ei diddymu, i'r amgylchiadau hynny a esbonnir ym mharagraff 8.38 uchod, nid yw diddymu o reidrwydd yn dibynnu ar gyflawni trosedd, fel a ddisgrifir ym mharagraff 8.40 isod, am fod y darpariaethau ynglŷn â throsedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau tystiolaeth bod rhywun wedi gweithredu'n fwriadol, yn ddi-hid neu gyda bwriad i dwyllo. Er nad oes hawl i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn penderfyniad ACLl i ddiddymu tystysgrif, gall dilysrwydd y penderfyniad gael ei herio drwy wneud cais i'r Uchel Lys am arolwg barnwrol yn unol â darpariaethau Gorchymyn 53 Rheolau'r Goruchaf Lys. Yn ogystal, nid oes dim i rwystro gwneud cais pellach am TDC, yn sgil diddymu tystysgrif gynharach. Os bydd yr ACLl yn ymddwyn yn "afresymol" wrth ddiddymu tystysgrif ac yn gwrthod rhoi TDC newydd pan gyflwynir ail gais, mae'n bosibl y byddant mewn perygl o gais llwyddiannus am gostau yn eu herbyn os ceir apêl ddilynol i'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan adran 195 (gweler paragraffau 8.432 i 8.48 isod).

Troseddau

8.40 Os bydd unrhyw berson yn fwriadol neu'n ddi-hid yn gwneud datganiad sy'n ffug neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol; neu, gyda'r bwriad i dwyllo, yn defnyddio unrhyw ddogfen sy'n ffug neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu yn dal yn ôl unrhyw wybodaeth berthnasol, er mwyn sicrhau penderfyniad arbennig ar gais (boed gan y ceisydd neu berson arall) am TDC o dan adran 191 neu 192. Mae adran 194 yn darparu bod y person hwnnw'n euog o drosedd a fydd yn "agored i dreial y naill ffordd neu'r llall". Ar gollfarn ddiannod yn y Llys Ynadon, y gosb fydd dirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm

statudol (£5,000 ar hyn o bryd). Ar gollfarn ar dditiad yn Llys y Goron, mae'r person a gollfarnir yn agored i'w garcharu am dymor heb fod yn fwy na dwy flynedd, i ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Rhybuddio troseddwyr honedig

8.41 Wrth ymchwilio i'r ffeithiau cyn cychwyn unrhyw achos, dylai ACLl roi sylw i'r ddarpariaethau adrannau 66 a 67(9) o Ddeddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 o ran rhybuddio tramgwyddwyr honedig.

Yr hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol

8.42 Mae adrannau 195 a 196 o Ddeddf 1990 yn darparu hawl i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn sgil cais aflwyddiannus o dan adran 191 neu 192. Dim ond y ceisydd a all apelio.

8.43 Gellir apelio yn erbyn gwrthodiad, gwrthodiad rhannol neu wrthodiad tybiedig yr ACLl i roi TDC. Yn rhinwedd yr adran 195 (4) a fewnosodwyd, mae gwrthod cais yn rhannol yn cynnwys diwygio neu ddisodli'r disgrifiad yn y cais (gweler yr adran 191 (4) a fewnosodwyd a ddisgrifir ym mharagraff 8.14 uchod).

8.44 Mae ffurflenni apêl ar gael, drwy wneud cais, oddi wrth Adran yr Arolygwyr Cynllunio yn y cyfeiriad a roddir yn llyfryn y Swyddfa Gymreig ac Adran yr Amgylchedd o dan y teitl "Lawful Development Certificates - a user's guide" sy'n cynnwys canllawiau penodol ar gyflwyno ceisiadau i'r ACLl ac apelau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r llyfryn ar gael o swyddfeydd yr ACLl.

8.45 Nid yw'r darpariaethau apêl ynglŷn â TDC yn cynnwys unrhyw "gais tybiedig" am ganiatâd cynllunio na phŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd cynllunio mewn perthynas ag unrhyw fater na roddir tystysgrif ar ei gyfer. Mae hyn yn golygu nad yw'r gweithdrefnau tystysgrifau yn cynnwys ystyriaeth o ragoriaethau cynllunio'r mater o dan sylw. Serch hynny, mae'n agored i ymgeiswyr wneud cais am ganiatâd cynllunio yn y ffordd arferol, heb ragfarn i'w cais am dystysgrif, ac i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn unrhyw benderfyniad andwyol, neu fethiant i roi penderfyniad o fewn y terfyn amser, ar yr un pryd â chyflwyno apêl yngln â thystysgrif o dan yr adran 195 ddiwygiedig. Os bydd yr ACLl o'r farn nad yw caniatâd cynllunio yn ofynnol, dylid dychwelyd y ffi am y cais cynllunio (ond nid unrhyw ffi am gais am TDC), gan esbonio i'r ymgeisydd nad oedd y ffi yn daladwy mewn gwirionedd. Serch hynny, er y gellir ad-dalu'r ffioedd a dalwyd am gais y cafwyd ei fod yn annilys ar unrhyw adeg, nid yw'r Rheoliadau Ffioedd yn darparu ar gyfer ad-dalu ffioedd a dalwyd yn gywir am geisiadau dilys am ganiatâd cynllunio ar ôl i'r rhain gael eu derbyn (ac ni fyddai cais am ganiatâd cynllunio yn annilys os rhoddir TDC).

8.46 Mae apelau TDC a ddaeth i law ar ôl 24 Mawrth 1997 wedi'u cynnwys ymhlith dosbarthiadau apel sy'n cael eu penderfynu gan bersonau a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn hytrach na chan yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun (OS 1997/420).

8.47 Mewn unrhyw apêl ynglŷn â TDC lle ceir amheuaeth neu anghydfod ynghylch tystiolaeth o ran y ffeithiau, fel rheol bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyfarwyddo cynnal ymchwiliad lleol, er mwyn i dystiolaeth gael ei chymryd ar lw, os oes angen, ac er mwyn croesholi tystion ynghylch union natur a graddfa defnydd blaenorol, presennol neu arfaethedig y tir a, lle bo'n berthnasol, ei hanes cynllunio. Serch hynny, lle bydd yr apêl yn ymwneud yn unig â dehongli ffeithiau y cytunwyd arnynt a'r Gyfraith Gynllunio neu awdurdod barnwrol perthnasol, fel rheol bydd y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn ddigonol. Ac, am nad yw'r rhagoriaethau cynllunio o dan ystyriaeth oni bai fod apêl gynllunio yn cael ei hystyried ar yr un pryd, yn aml nid oes angen trefnu bod swyddog o'r Swyddfa Gymreig (neu Adran yr Amgylchedd) yn archwilio'r safle cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ar yr apêl.

8.48 Mae'r Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1992 yn gymwys i ymchwiliadau lleol i mewn i apelau ynglŷn â TDC.

Y gost wrth wneud apêl TDC

8.49 Fel rheol disgwylir i'r partïon i apêl TDC dalu eu costau eu hunain. Yn wahanol i

ymgyfreitha, fel rheol nid yw costau'n "dilyn digwyddiad" yr apêl ac ni chânt eu dyfarnu, ar gais, ond yn erbyn parti sydd wedi ymddwyn "yn afresymol" yn y broses apêl. Mae cylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig yn rhoi canllawiau cynhwysfawr ar y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu costau i bartïon mewn apêl. Yn yr un modd ag apelau hysbysiadau gorfodi, yn rhinwedd adran 196(8) Deddf 1990 (a fewnosodwyd gan baragraff 4 o Atodlen i Ddeddf Cynllunio (Darpariaethau Canlynol) 1990), gellir dyfarnu costau mewn apêl tystysgrif datblygu cyfreithlon ni waeth a yw'r apêl wedi digwydd drwy sylwadau ysgrifenedig neu drwy ymchwiliad lleol.

Apêl i'r Uchel Lys

8.50 Gall penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar apêl TDC gael ei herio o dan adran 288 Deddf 1990, drwy gyflwyno apêl bellach, ar bwynt cyfraith, i'r Uchel Lys.

Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 177(1)(c) i roi TDC o dan adran 191

8.51 Mae adran 177(1) o Ddeddf 1990 yn rhoi rhai pwerau dewisol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar benderfynu apêl hysbysiad gorfodi o dan adran 174(2). Mae adran 177(1)(c), yn ei alluogi i benderfynu a oedd unrhyw ddefnydd presennol ar y tir, ar ddyddiad yr apêl, yn gyfreithlon, a oedd unrhyw weithrediadau a oedd wedi'u cynnal yn gyfreithlon, neu unrhyw fater yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â chyfyngiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo yn gyfreithlon; ac os felly, i roi tystysgrif o dan adran 191. Gall y per dewisol hwn gael ei ymarfer lle bydd yr apêl orfodi yn llwyddo ar seiliau (c) neu (d) yn adran 174(2) Deddf 1990, fel y'i diwygiwyd. Serch hynny, mae ffi yn daladwy i'r ACLl am gais am TDC, ac mae Rheoliad 10(12) o Reoliadau Ffioedd 1989, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diwygio 1992, yn darparu na fydd ffi "cais tybiedig" yn cael ei ad-dalu lle rhoddir tystysgrif o dan adran 177(1)(c).

8.52 Er hynny, pŵer disgresiynol yw hwn ac nid yw'n cael ei ymarfer ond o dan amgylchiadau eithriadol. Ni chaiff ei ymarfer lle bo'r apelydd yn gofyn yn benodol i'w ffi "cais tybiedig" gael ei ad-dalu os bydd ei apêl yn llwyddo ar unrhyw rai o seiliau (b) i (e) yn adran 174(2). Hwyrach y bydd yn well gan apelwyr sydd wedi talu "ffi cais tybiedig" i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r ACLl, mewn perthynas â chais o'r fath sy'n deillio o apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi, gael y ddwy ffi wedi'u had-dalu o dan yr amgylchiadau hyn, ac wedyn talu un ffi drwy'r ACLl am gais canlynol am TDC. Neu, hwyrach y byddant yn penderfynu nad oes angen tystysgrif arnynt, pan fydd eu hapêl orfodi wedi llwyddo. N i chaiff y pŵer ei ymarfer ychwaith mewn perthynas â defnydd presennol sydd y tu allan i gwmpas y materion y dywedir yn yr hysbysiad gorfodi eu bod yn torri rheol gynllunio.

8.53 Felly ni roddir TDC, o dan adran 177(1)(c), oni bai fod yr apelydd wedi gofyn yn benodol am hynny, ac os bydd ei apêl yn llwyddo ar seiliau (c) neu (d) yn adran 174(2) cyn dyddiad penderfynu'r apêl. Hyd yn oed wedyn, gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arolygydd Cynllunio ymatal rhag ymarfer y pŵer dewisol hwn o hyd. Bwriedir i'r weithdrefn TDC gael ei gweinyddu gan yr ACLl yn bennaf. Hwy fel rheol sydd yn sefyllfa orau i adnabod yr holl fanylion perthnasol ynghylch defnydd, gweithrediad neu weithgarwch y gall fod angen eu pennu mewn TDC, fel yr esbonnir ym mharagraffau 8.16 i 8.22 uchod. Hwyrach na fydd y manylion hyn, gan gynnwys planiau addas i'w cynnwys yn y dystysgrif ar gael yn rhwydd i'r Ysgrifennydd Gwladol neu i Arolygydd Gynllunio, hyd yn oed adeg penderfyniad apêl hysbysiad gorfodi. Yn y mwyafrif o achosion lle bydd apêl orfodi yn llwyddo ar seiliau (c) neu (d) yn adran 174 (2), caiff hysbysiad ei ddiddymu, caiff "y ffi am y cais tybiedig" ei ad-dalu gan yr Ysgrifennydd Gwladol (a lle bo'n gymwys, gan yr ACLl) a dywedir wrth yr apelydd ei fod yn agored iddo wneud cais i'r ACLl am dystysgrif datblygu cyfreithlon o dan adran 191.

Ffurf TDC a ffurflenni cais enghreifftiol

8.54 Pennir y ffurf ar gyfer rhoi TDC, o dan adran 191 neu 192, yn Atodlen 6 o'r GPDO. Rhaid cyflwyno ceisiadau am TDC yn ysgrifenedig, ond mae ffurflenni cais enghreifftiol, y bydd ACLl hwyrach am eu defnyddio, ynghlwm wrth yr Atodiad hwn.

Ychwanegiad 1 i Atodiad 8

Ar gyfer y Cyngor yn unig	
Rhif y cais	.....
Dyddiad y daeth i law	.....

Cyngor .....

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: Adran 191
(fel y'i diwygiwyd gan adran 10 o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol) 1995

CAIS AM DYSTYSGRIF CYFREITHLONDEB AR GYFER DEFNYDD NEU WEITHREDIAD NEU WEITHGARWCH *PRESENNOL* SY'N TORRI AMOD CYNLLUNIO

---

1. Ceisydd (mewn priflythrennau)

Enw .....
Cyfeiriad .....
.....
.....
Cod Post .....

Rhif ffôn .....

---

2. Asiant (os oes un)

Enw .....
Cyfeiriad .....
.....
.....
Cod Post .....

Rhif ffôn .....

---

3. (1) Natur buddiant y ceisydd yn y tir, ee perchennog, prydlesai, deiliad.

(2) Os nad oes gennych fuddiant:-

(a) rhowch enw(au) a chyfeiriad(au) unrhyw un yr ydych yn ei adnabod sydd â buddiant yn y tir;

(b) nodwch natur eu buddiant (os yw'n hysbys);

(c) nodwch a ddywedwyd wrthynt am y cais hwn.

DO/NADDO

---

4. Cyfeiriad neu union leoliad y tir y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef:

Disgrifiwch yma ac amgaewch [ ] copi o blan ar sail yr Arolwg Ordnans yn dangos ffin y tir ag ymylon coch.

---

5 Mae'r cais hwn yn gais am:

☐ defnydd presennol;

☐ gweithrediad presennol;

☐ defnydd, gweithrediad neu weithgarwch presennol sy'n torri amod;

sef defnydd, gweithrediad neu weithgarwch sy'n bodoli ar ddyddiad y cais hwn. *(Ticiwch y blwch sy'n gymwys)*

---

6. Disgrifiad llawn o'r defnydd, y gweithrediad neu'r gweithgarwch presennol y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef:

---

7. Os oes mwy nag un defnydd, gweithrediad neu weithgarwch presennol ar y tir ar ddyddiad y cais hwn, disgrifiwch bob un yn llawn, a lle bo'n briodol, dangoswch ba ran o'r tir y mae pob defnydd, gweithrediad neu weithgarwch yn ymwneud ag ef.

---

8. Os yw'r cais yn ymwneud â defnydd presennol sydd yn eich barn chi o fewn un o "Ddosbarthiadau Defnydd" Atodlen y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) cyfredol, nodwch ba un:

---

9. Pryd y dechreuwyd y defnydd neu'r gweithgarwch, neu bryd y cwblhawyd y gweithrediad yn sylweddol?

---

10. Ar ba sail y mae'r dystysgrif yn cael ei cheisio? *(Dilëir y rhai nad ydynt yn gymwys)*

(1) Dechreuodd y defnydd fwy na deng mlynedd cyn dyddiad y cais hwn; neu

(2) Dechreuodd y defnydd, y gweithrediad neu'r gweithgarwch sy'n torri'r amod fwy na deng mlynedd cyn dyddiad y cais hwn; neu

(3) Dechreuodd y defnydd o fewn y deng mlynedd diwethaf, o ganlyniad i newid defnydd nad oedd angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ac ni chafwyd newid defnydd yr oedd yn ofynnol sicrhau caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ystod y deng mlynedd diwethaf; neu

(4) Cwblhawyd y gweithrediadau yn sylweddol fwy na phedair blynedd cyn dyddiad y cais hwn; neu

(5) Dechreuodd y defnydd fel un t annedd mwy na phedair blynedd cyn dyddiad y cais hwn.

(6) Arall - rhowch y manylion (gallai hyn gynnwys honiadau nad datblygiad oedd y newid defnydd neu'r gweithrediad, neu ei fod wedi manteisio ar ganiatâd cynllunio a roddwyd o dan y Ddeddf neu gan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol).

---

11. Os ceisir y dystysgrif am ddefnydd, gweithrediad neu weithgarwch sy'n torri amod neu gyfyngiad, rhowch fanylion yr amod neu'r cyfyngiad na chydymffurfiwyd ag ef, ac amgaewch gopi o'r caniatâd cynllunio perthnasol:

---

12. Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd yn eich barn chi yn angenrheidiol i ategu'ch cais.

(Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen)

---

13. Rhestrwch yma yr holl ddogfennau, lluniadau neu blaniau sydd ynghlwm wrth y cais hwn.

Yr wyf/ydym drwy hyn yn gwneud cais am dystysgrif defnydd neu ddatblygu cyfreithlon o dan adran 191 o Ddeddf 1990 mewn perthynas â'r defnydd, y gweithrediad neu'r gweithgarwch presennol a ddisgrifir yn y cais hwn ac yn y dogfennau, y lluniadau a'r planiau sydd ynghlwm wrtho. Yr wyf/ydym yn amgáu'r ffi briodol o £ .....

Llofnod:

Dyddiad:

Ar ran: *(rhowch enw'r ceisydd os llofnodir gan asiant)*

Rhybudd: Mae Adran 194 o Ddeddf 1990 yn darparu ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu ddal gwybodaeth berthnasol yn ôl gyda'r bwriad o dwyllo. Mae adran 193(7) yn galluogi'r Cyngor i ddiddymu, ar unrhyw adeg, dystysgrif a roddwyd ganddynt o ganlyniad i wybodaeth ffug neu gamarweiniol o'r fath.

Ychwanegiad 2 i Atodiad 8

Ar gyfer y Cyngor yn unig	
Rhif y cais	.....
Dyddiad y daeth i law	.....

Cyngor .....

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: Adran 192
(fel y'i diwygiwyd gan adran 10 o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991)

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995

CAIS AM DYSTYSGRIF CYFREITHLONDEB AR GYFER DEFNYDD NEU WEITHREDIAD NEU WEITHGARWCH *ARFAETHEDIG* SY'N TORRI AMOD CYNLLUNIO

---

1. Ceisydd (mewn priflythrennau)

Enw .....
Cyfeiriad .....
.....
.....
Cod Post .....

Rhif ffôn .....

---

2. Asiant (os oes un)

Enw .....
Cyfeiriad .....
.....
.....
Cod Post .....

Rhif ffôn .....

---

3. (1) Natur buddiant y ceisydd yn y tir, ee perchennog, prydlesai, deiliad.

(2) Os nad oes gennych fuddiant:-

(a) rhowch enw(au) a chyfeiriad(au) unrhyw un yr ydych yn ei adnabod sydd â buddiant yn y tir;

(b) nodwch natur eu buddiant (os yw'n hysbys);

(c) nodwch a ddywedwyd wrthynt am y cais hwn.

DO/NADDO

---

4. Cyfeiriad neu union leoliad y tir y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef:

Disgrifiwch yma ac amgaewch [ ] copi o blan ar sail yr Arolwg Ordnans sy'n dangos ffin y tir ag ymylon coch.

---

5. A ddechreuwyd y cynnig?

DO/NADDO

---

6. Os yw'r cynnig yn gyfystyr â chynnwys, neu'n gwneud gwaith adeiladu neu weithrediadau eraill rhowch ddisgrifiad manwl o'r holl* weithrediadau o'r fath a chynhwyswch y cyfryw blaniau neu luniadau ag sy'n angenrheidiol i ddangos eu hunion natur.

(Yn achos adeilad arfaethedig dylai'r cynlluniau nodi eu hunion leoliad a dimensiynau manwl-gywir).

* yn cynnwys yr angen i ddisgrifio unrhyw gynnig i addasu neu greu mynedfa newydd, gosod unrhyw stryd newydd, adeiladu unrhyw fannau caled cysylltiedig, dulliau amgáu neu ddulliau traenio'r tir/adeiladau.

---

7. Os yw'r cynnig yn ymwneud â newid defnydd ar y tir neu'r adeilad(au); -

(1) rhowch ddisgrifiad llawn o raddfa a natur y defnydd arfaethedig, gan gynnwys y prosesau sydd i'w cyflawni, unrhyw beiriannau sydd i'w gosod, a'r oriau pryd y cyflawnir y defnydd arfaethedig;

(2) disgrifiwch yn llawn defnydd presennol a'r defnydd diweddaraf sy'n hysbys, gyda'r dyddiad pan ddaeth y defnydd hwn i ben.

---

8. Esboniwch yn fyr pam yr ydych o'r farn bod y defnydd presennol, neu'r defnydd diweddaraf, ar y tir yn gyfreithlon, neu pam yr ydych o'r farn bod unrhyw adeiladau presennol y bwriedir eu haddasu neu eu hymestyn yn gyfreithlon. (Gallwch ddefnyddio adran 12 o'r cais hwn i ddatgan eich achos yn llawnach). Rhowch fanylion y dystiolaeth ddogfennol ategol (megis caniatâd cynllunio) sydd ynghlwm wrth y cais hwn.

---

9. Os ydych o'r farn bod y defnydd presennol, neu'r defnydd diweddaraf, o fewn "dosbarth defnydd" yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, nodwch ba un.

---

10. Os ydych o'r farn bod y defnydd arfaethedig o fewn"dosbarth defnydd" yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, nodwch ba un.

---

11. A yw'r gweithrediad arfaethedig neu'r defnydd arfaethedig yn un dros dro neu barhaol? Os dros dro, rhowch y manylion.

---

12. Dywedwch pam yr ydych o'r farn y dylid rhoi Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon ar gyfer y cynnig hwn.

(Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen)

Yr wyf/ydym drwy hyn yn gwneud cais am dystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon o dan adran 192 o Ddeddf 1990 mewn perthynas â'r defnydd, y gweithrediad neu'r gweithgarwch arfaethedig a ddisgrifir yn y cais hwn ac yn y dogfennau, y lluniadau a'r planiau sydd ynghlwm wrtho.

Yr wyf/ydym yn amgáu'r ffi briodol o £ ....

Llofnod:

Dyddiad:

ar ran: *(rhowch enw'r ceisydd os llofnodir gan asiant)*

Rhybudd: Mae Adran 194 o Ddeddf 1990 yn darparu ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu ddal gwybodaeth berthnasol yn ôl gyda'r bwriad o dwyllo. Mae adran 193(7) yn galluogi'r Cyngor i ddiddymu, ar unrhyw adeg, dystysgrif a roddwyd ganddynt o ganlyniad i wybodaeth ffug neu gamarweiniol o'r fath.

RHEOLAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GORFODI) (GWEITHDREFN YMCHWILIADAU) 1992

Cwmpas y Rheolau

9.1. Disodlodd Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1992 (OS 1992/1903) ("y Rheolau Gorfodi") Reolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1981 (OS 1981/1743). Mae'r Rheolau Gorfodi yn gymwys, p'un a yw'r apêl i'w phenderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gan Arolygydd a benodir ganddo, i ymchwiliadau lleol a gynhelir ynghylch y canlynol -

(1) apelau hysbysiadau gorfodi o dan adran 174 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990");

(2) apelau o dan adran 195 o Ddeddf 1990 yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon, neu wrthodiad tybiedig cais am dystysgrif a wnaed o dan adran 191 neu 192 o Ddeddf 1990 (fel y'i diwygiwyd); a

(3) apelau hysbysiadau gorfodi adeilad rhestredig o dan adran 39 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (fel y'i diwygiwyd), gan gynnwys apelau gorfodi caniatâd Ardal Gadwraeth.

Amcanion

9.2. Bwriedir y Rheolau Gorfodi i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd proses ymchwiliadau lleol, heb leihau gallu'r cyfranwyr i gyflwyno sylwadau perthnasol yn unol â gofynion cyfiawnder naturiol. Fel gyda Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1992 (OS 1992/2038) ("y Rheolau Cynllunio"), y nod yw gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfnod cyn i'r ymchwiliad agor, cyfnewid gwybodaeth er mwyn i'r cyfranwyr eraill allu rhoi sylw llawn i gymaint â phosibl o achos pob parti cyn i'r ymchwiliad agor. Bydd hynny'n caniatáu i Arolygydd yr ymchwiliad ganolbwyntio ar y materion hanfodol, gan gadw yr amser a dreuir mewn ymchwiliad i'r lleiaf posibl.

Penodi asesydd a chyfarfod cyn yr ymchwiliad

9.3. Mae Rheolau 1992 yn darparu ar gyfer hysbysu penodiad asesydd (rheol 10) ac i'r Arolygydd gynnal cyfarfod cyn yr ymchwiliad (rheol 6), er y gall y darpariaethau hyn beidio â bod yn addas yn aml ar gyfer ymchwiliadau apelau gorfodi. Mae rheol 7 yn caniatáu i'r Arolygydd (neu'r Ysgrifennydd Gwladol mewn apêl sydd heb ei throsglwyddo) gyflwyno datganiad i'r partïon mewn apêl ynglŷn â'r materion y mae'n dymuno'n arbennig gael ei gadw'n hysbys amdanynt.

Terfynau amser y broses apelio

9.4. Yn gyffredinol, mae'r terfynau amser a bennir gan Reolau 1992 yn dechrau rhedeg o'r "dyddiad perthnasol" - hynny yw, y dyddiad pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu partïon yr apêl ynglŷn â'i *fwriad* i beri bod ymchwiliad yn cael ei gynnal, yn unol â'r Rheolau Cynllunio. Ceir rhai gwahaniaethau yn yr amserlenni sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol apelau gorfodi ac apelau cysylltiedig eraill. Er hynny, y bwriad yw prosesu apelau cynllunio ac apelau gorfodi gyda'i gilydd pan fônt yn ymwneud â'r un tir. Bydd yr apêl orfodi "ar y blaen" pan fydd wedi'i chysylltu'n weinyddol ag eraill.

Datganiad a phroflenni tystiolaeth

9.5. Mae rheol 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gyflwyno'u datganiad o achos cyn yr apelydd (a fydd wedi dangos datganiad o ffeithiau gyda'i apêl). Lle bwriedir rhoi tystiolaeth, o dan reol 14, drwy ddarllen proflen dystiolaeth *sy'n ymwneud â chais tybiedig am ganiatâd cynllunio* o dan Adran 177(5) o Ddeddf 1990, rhaid anfon copi o'r broflen a chrynodeb (os yw'r broflen yn fwy na 1,500 o eiriau) at yr Arolygydd 3 wythnos cyn amserlen yr ymchwiliad a drefnir o dan reol 9. Dylai'r crynodeb fod mor gryno â phosibl. Lle bo angen proflen a chrynodeb, dim ond y crynodeb a all gael ei ddarllen yn yr ymchwiliad, oni bai i'r Arolygydd ganiatáu neu ofyn fel arall. Ond byddai croesholiad yn cael ei gynnal ynglŷn â'r broflen yn ei chyfanrwydd.

Canfyddiadau ffeithiau yr Arolygydd

9.6. Gan fod y penderfyniad ar apêl yn erbyn gwrthodiad, neu wrthodiad tybiedig, i roi tystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar gymhwyso'r Gyfraith Gynllunio at ffaith dystiolaethol (gan nad yw rhagoriaethau cynllunio'r defnydd neu'r datblygiad yn berthnasol), mae rheol 17 yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i'r Arolygydd gynnwys "canfyddiadau ffeithiau" yn ei adroddiad ar yr ymchwiliad. Nid yw hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ganfyddiadau ffeithiau gael eu datgan ar wahân yn yr adroddiad, er i hynny fod yn arferol. Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu anghytuno ag argymhelliad yr Arolygydd am ei fod o farn wahanol i'r Arolygydd ynghylch unrhyw ffaith berthnasol, neu os yw'n rhoi sylw i unrhyw dystiolaeth newydd, mae'r rheol hon yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi tair wythnos i'r rhai sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad, ac a ymddangosodd ynddo, gyflwyno sylwadau ar y materion hynny, neu ofyn am ailagor yr ymchwiliad. Mae trefniadau tebyg yn gymwys, o dan reol 18, i apêl a drosglwyddir.

Darpariaethau ar gyfer achosion sy'n cael eu "hailgyfeirio" at yr Ysgrifennydd Gwladol gan y Llys

9.7. Mae Paragraff 2.48 o Atodiad 2 i'r Cylchlythyr hwn yn esbonio adrannau 288 a 289 o Ddeddf 1990. Yn dilyn apêl lwyddiannus i'r Llys, ailgyfeirir achos at yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ail-wrandawiad a phenderfyniad. Mae rheol 21 yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol anfon datganiad i bartïon yr apêl ynghylch y materion y gwahoddir sylwadau ysgrifenedig pellach arnynt cyn i'r apêl gael ei hystyried ymhellach ganddo. Tair wythnos yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath, neu ofyn am i'r ymchwiliad gael ei ailagor. Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y dylid ailagor yr ymchwiliad, bydd paragraffau (3) i (8) rheol 11 yn gymwys.

Apelau gorfodi ac apelau cynllunio "cysylltiedig"

9.8. O dan reol 22, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ymestyn y cyfnod y mae unrhyw reol arall yn ei ganiatáu neu yn ei wneud yn ofynnol. Fel y mae paragraff 9.4 uchod yn ei esbonio, mewn achosion lle mae apêl adran 78 ac apêl adran 174 yn ymwneud â'r un tir, cânt eu "cysylltu" yn weinyddol. Mewn achosion o'r fath bydd terfynau amser Rheolau'r Weithdrefn Ymchwiliadau Gorfodi yn gymwys i'r weithdrefn sydd i'w dilyn, am y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn galw ar ddarpariaethau'r Rheolau Cynllunio sy'n cyfateb i reol 22. Bydd gofynion eraill y Rheolau Cynllunio (megis cyflwyno proflenni tystiolaeth) yn parhau i fod yn gymwys i'r apêl gynllunio.

Trefnu'r ymchwiliad

9.9. Bydd y trefniadau ar gyfer pennu dyddiad ymchwiliad o dan y Rheolau hyn yn dilyn y trefniadau arferol ar gyfer apêl gynllunio. Yn gyffredinol caniateir i bob prif barti i'r apêl wrthod un dyddiad yn unig a gynigir ar gyfer yr ymchwiliad cyn y bydd y Swyddfa'n bwrw ymlaen â phennu dyddiad, amser a lleoliad ar ei gyfer. Fel rheol, un mis fydd y cyfnod a ganiateir ar gyfer negodi dyddiad, gan ddechrau o'r amser pan roddir y cynnig cyntaf o ddyddiad ymchwiliad. Os bydd un o'r partïon neu'r ddau yn gwrthod y dyddiad cyntaf a gynigir, a'i bod yn glir nad ydynt yn fodlon negodi rhyngddynt ar ddyddiad derbyniol, gall y Swyddfa fwrw ymlaen â phennu dyddiad yr ymchwiliad cyn i'r cyfnod negodi dod i ben. Ar ôl i ddyddiad gael ei bennu, ni chaiff ei newid ond am resymau eithriadol.